Dadansoddi ar gyfer Polisi

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
43/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
18/07/2018

# Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-78937-707-1

Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg: Cam 3

Hefin Thomas, Jennifer Lane, Sioned Lewis, Eluned Glyn –

Ymchwil Arad

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Hayley Collicott
Is-adran Plant a Theuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Hayley.Collicott@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Geirfa ..... 2
1. Cyflwyniad/Cefndir ..... 5
2. Methodoleg ..... 10
3. Ymgysylltu ..... 19
4. Profiadau ..... 38
5. Canlyniadau ac effeithiau tybiedig ..... 63
6. Casgliadau ..... 85
Cyfeirnodau ..... 92
Atodiad A: Canllaw Holi Buddiolwyr Drafft Dechrau'n Deg Ton 3 ..... 94
Atodiad B: Canllaw holi ar gyfer teuluoedd y sampl cymharu ..... 110

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Prif sampl terfynol o deuluoedd o Donnau 1, 2 a 3 yn ôl categori ..... 14
Tabl 2. Nodweddion prif sampl a sampl cymharu Ton 3 ..... 15

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Hawl EHV | Mae'r hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu un Ymwelydd Iechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant dan 4 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynrychioli llwyth achosion is na'r gwasanaeth cyffredinol a'i ddiben yw sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei ddarparu i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd. Prif swyddogaeth Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yw cynorthwyo'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o ran risg uchel, canolig ac isel) a gwneud cyfeiriadau priodol. |
| Hawl gofal plant | Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, a gynigir i rieni pob plentyn 2-3 oed sy'n gymwys, am 2 awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Yn ogystal, dylai o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth fod ar gael i'r teulu yn ystod y gwyliau ysgol. |
| Hawl rhianta | Rhaid i bob teulu sy'n cynnwys plentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae modd i hwn fod mewn grwpiau neu mewn sefyllfa un-i-un yn y cartref, gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol, gan ddibynnu ar yr angen. Caiff y cynnig rhianta ei seilio ar y 3 thema ganlynol:<br>• amenedigol a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar<br>• dulliau gweithredu ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo rhieni agored i niwed<br>• rhaglenni er mwyn cynorthwyo rhieni gyda rhianta cadarnhaol. |

| | |
|---|---|
| Hawl SLC | Hawl Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig amrediad o gyfleoedd i fanteisio ar grwpiau a chyrsiau (e.e. Iaith a Chwarae), yn ogystal â chymorth gan Therapyddion Iaith a Lleferydd a staff eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad iaith a lleferydd. Yn flaenorol, galwyd yr hawl SLC yn hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) (tan 2015) ac fe'i galwyd yn hawl Iaith a Chwarae yn flaenorol hefyd. Newidiwyd hawl ELD i 'Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu' (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015. Mae Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn ddisgrifiad ehangach ac mae'n cynnwys yr holl sgiliau sy'n ofynnol er mwyn i blant fod yn gyfathrebwyr cymwys a hyderus. |
| SLT | Therapi/Therapydd Iaith a Lleferydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflogi staff SLT trwy Ddechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae modd i deuluoedd gael eu cyfeirio gan staff Dechrau'n Deg i wasanaethau SLT cyffredinol hefyd. |
| IaCh | Iaith a Chwarae. Mae IaCh yn rhan o hawl SLC Dechrau'n Deg ac mae'n ymyriad SLC cyffredinol, anffurfiol. Yn aml, cynhelir sesiynau IaCh fel sesiynau 'galw heibio' ar draws awdurdodau lleol, ond mae modd eu cynnig fel cwrs hefyd (fel arfer rhwng pedair a chwe sesiwn). Mae IaCh yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae er mwyn helpu i feithrin sgiliau iaith a rhyngweithio rhwng rhieni a'u plant. |
| Teuluoedd Ton 1, 2 neu 3 | Teuluoedd sy'n cael eu cyfweld yn ystod y tri cham blynyddol, neu donnau ymchwil. Ton 1 (yn 2015), 2 (2016) neu 3 (yn 2017). |

| | |
|---|---|
| Asesiad SoGS | Y Rhestr Sgiliau Tyfu.  Mae SoGS yn offeryn asesu datblygiadol safonol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol y mae angen iddynt ddarganfod lefelau datblygiadol plant.  Mae ymarferwyr Dechrau'n Deg yn defnyddio'r offeryn i asesu lefel ddatblygiadol plant dwy a thair oed.<br><br>Ers Ebrill 2017 nid yw asesiadau SoGS wedi cael eu defnyddio gan Dechrau'n Deg yn gyffredinol ond mae Awdurdodau Lleol yn dal i'w defnyddio fel rhan o gyfres o asesiadau wedi'u targedu at ddatblygiad plentyn, ar sail anghenion. |
| Teuluoedd mewn angen Uchel/ Canolig/Isel | Teuluoedd sy'n cael eu diffinio gan dîm Dechrau'n Deg eu hawdurdod lleol fel rhai y mae angen cymorth arnynt ar lefel uchel/canolig/isel.  Mae'r union ddiffiniadau o lefelau'r angen yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond maent yn ystyried ffactorau megis problemau iechyd, amddifadedd, oedran y rhiant, iaith ac argaeledd rhwydweithiau cymorth.  Yn yr adroddiad hwn, caiff lefel angen y teulu ei chynnwys wrth ymyl dyfyniadau er mwyn rhoi cyd-destun i sefyllfa'r teulu (pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil). |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg. Cynhelir yr astudiaeth hon mewn tri cham (a ddisgrifir fel Tonnau 1, 2 a 3) rhwng 2015 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau Ton 2 y gwaith ymchwil, ar sail y gwaith maes a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2017.[1]

**Trosolwg o Ddechrau'n deg**

1.2 Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006/7 ac mae'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a theuluoedd mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, er mwyn gwneud gwahaniaeth pendant i'w bywydau. Mae'n canolbwyntio ar adnabod anghenion ac ar ymyriadau cynnar er mwyn gwella datblygiad ieithyddol, datblygiad gwybyddol a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, ynghyd â'u hiechyd corfforol.

1.3 Mae Dechrau'n Deg yn cynnig pedair prif hawl:

- Gwasanaeth ymweliadau iechyd estynedig (EHV);
- Gofal plant rhan-amser wedi'i ariannu'n llawn ac o ansawdd uchel i blant dwy i dair oed;
- Y cyfle i fanteisio ar gymorth rhianta; a
- Cymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC).[2]

1.4 Mae'r hawliau hyn ar gael yn gyffredinol i deuluoedd sy'n cynnwys plant o ddim i bedair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, a gall teuluoedd ddewis pa hawliau yr hoffent fanteisio arnynt. Yn ychwanegol i'r hawliau craidd hyn, mae cymorth wedi'i deilwra, gan ddibynnu ar anghenion teuluoedd unigol, yn elfen bwysig o'r Rhaglen. Er enghraifft, mae rhai rhieni'n cael cymorth un-i-un a/neu'n cael eu cyfeirio at ddarpariaeth wedi'i thargedu neu gymorth arbenigol fel Therapi Iaith a Lleferydd. Er 2012, mae'r rhaglen wedi cynnwys elfen o waith allgymorth, gan ganiatáu i awdurdodau lleol gynnig cymorth Dechrau'n Deg i ganran fach o deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg dynodedig lle y gwelir angen a nodwyd.

[1] Mae modd troi at adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a) ac adroddiad Ton 2 (Llywodraeth Cymru, 2017a) yma: https://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?skip=1&lang=cy

[2] Newidiwyd yr hawl Datblygiad Iaith Gynnar (ELD) i Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC) ar ôl cyhoeddi canllawiau SLC Dechrau'n Deg yn 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015c).

1.5 Yn 2012, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'r cam o ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, gyda'r nod o ddyblu nifer y plant sy'n manteisio ar yr hawliau o 18,000 i 36,000 erbyn 2016. Yn 2016-17, roedd 37,628 o blant yn derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg, gan basio'r niferoedd disgwyliedig o 4 y cant, ond yn dangos gostyngiad o 2 y cant ar y niferoedd yn 2015-16 (Llywodraeth Cymru, 2017b).[3]

1.6 Darparir hawliau Dechrau'n Deg gan awdurdodau lleol ar draws Cymru, wrth iddynt weithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Lleol a rhanddeiliaid eraill. Mae gan bob awdurdod lleol gydlynydd Dechrau'n Deg sy'n rheoli tîm craidd o staff sy'n darparu'r rhaglen yn lleol. Mae aelodau'r tîm craidd hwn yn gwahaniaethu ar draws awdurdodau lleol, ond fe allai gynnwys: Ymwelwyr Iechyd; Gweithwyr Rhianta; Gweithwyr Gofal Plant; Bydwragedd; a Therapyddion Iaith a Lleferydd (SLTs). Yn ystod blynyddoedd 2015/16 a 2016/17, mae awdurdodau lleol wedi darparu cynlluniau blynyddol i Lywodraeth Cymru ynghylch darparu Dechrau'n Deg, wedi'u seilio ar y pedair hawl graidd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau ansawdd a chysondeb y gwaith cynllunio a darparu yn lleol. Mae'r union fecanweithiau darparu yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ar sail y cyd-destun lleol.

1.7 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu hawliau Dechrau'n Deg, mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrediad o ganllawiau. Mae hyn yn cynnwys canllawiau strategol cyffredinol (gan gynnwys egwyddorion allweddol y rhaglen) a chanllawiau ynghylch rheolaeth ariannol. Yn ogystal i hyn, mae'n cynnwys canllawiau unigol ar gyfer pob hawl gan gynnwys gwaith allgymorth a phontio.[4] Mae'r canllawiau ar gyfer pob hawl yn cynnwys trosolwg o'r hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth, ynghyd â gwybodaeth am fecanweithiau darparu effeithiol megis gweithio mewn partneriaeth.[5]

---

[3] Gweler y fersiwn Saesneg yn Unig: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170719-flying-start-summary-statistics-2016-17-en.pdf

[4] Caiff pontio ei ddisgrifio gan Lywodraeth Cymru fel: "y broses newid, er enghraifft, a fydd yn digwydd pan fydd plant (a'u teuluoedd) yn symud o un lleoliad i un arall (e.e. o'r cartref i ofal plant Dechrau'n Deg) neu'n symud o gyfrifoldeb un gweithiwr iechyd proffesiynol i un arall (e.e. ymwelydd iechyd i nyrs ysgol).' (Llywodraeth Cymru, 2014c)

[5] Ibid

**Nodau’r gwaith ymchwil**

1.8 Nodau'r prosiect hwn yw:

- Deall profiadau teuluoedd o raglen Dechrau’n Deg; a
- Adnabod unrhyw effeithiau tybiedig y rhaglen ar deuluoedd Dechrau’n Deg.

1.9 Yn ogystal, mae'r ymchwil yn rhoi sylw i’r cwestiynau ymchwil canlynol:

Fig 1. Cwestiynau ymchwil allweddol

1. Sut mae rhieni'n ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg a beth sy'n helpu ac sy'n llesteirio ar yr ymgysylltu?
2. Sut mae rhieni yn penderfynu pa hawl(iau) y byddant yn ymgysylltu â nhw a phryd?
3. Ym mha ffyrdd y bydd rhieni yn cael profiad o wahanol hawliau Dechrau'n Deg (h.y. ymweliadau iechyd estynedig, gofal plant, SLC, cymorth rhianta)?
4. Beth yw disgwyliadau rhieni o raglen Dechrau'n Deg?
5. I ba raddau y mae rhieni o’r farn bod Dechrau'n Deg wedi cyflawni yn erbyn unrhyw ddisgwyliadau?
6. Sut mae Dechrau'n Deg yn ymwneud â gwasanaethau eraill (gan gynnwys ysgolion/rhaglenni cymorth i deuluoedd eraill/gwasanaethau iechyd)? Er enghraifft, a cheir profiadau lle y mae Dechrau'n Deg yn 'cyfeirio' teuluoedd at wasanaethau eraill, a beth yw canlyniadau hyn?
7. Pa mor dda y mae rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y rhaglen wedi adnabod ac ymateb i anghenion a dymuniadau teuluoedd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg?
8. Beth yw canfyddiadau rhieni o effeithiau'r rhaglen, os o gwbl, ar eu teulu nhw yn y tymor canolig i'r tymor hir?

**Ymchwil blaenorol ynghylch Dechrau'n Deg**

1.10 Rhwng 2011 a 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg (a gynhaliwyd gan SQW ac Ipsos Mori), a oedd yn cynnwys cyfres o adroddiadau a oedd yn asesu gweithrediad, darpariaeth ac effaith y Rhaglen.[6] Mae'r adroddiad trosolwg cryno (Llywodraeth Cymru, 2014a) yn cynnig cipolwg o ganfyddiadau allweddol am y cynnydd a sicrhawyd tan 2013. Cynhwyswyd crynodeb o'r canfyddiadau allweddol hyn yn adroddiad Ton 1 yr ymchwil ansoddol cyfredol hwn (Llywodraeth Cymru, 2016a).

1.11 Mae'r ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gyda theuluoedd yr oedd lefel eu hangen yn uchel ac a gynhwyswyd yn y gwerthusiad cenedlaethol, yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad cyfredol hwn (Llywodraeth Cymru, 2013a). Canfu'r ymchwil bod rhieni'n teimlo'n gadarnhaol ynghylch pedair hawl Dechrau'n Deg a'r effaith yr oedd y rhaglen wedi'i chael ar eu teulu ar y cyfan. Cynhwyswyd crynodeb manylach o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil hwn yn adroddiad Ton 1 y gwaith ymchwil ansoddol cyfredol hwn (Llywodraeth Cymru, 2016a).

1.12 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad gwerthusadwyedd o Ddechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2016b). Mae'r adroddiad yn archwilio sut y mae modd gwerthuso'r rhaglen, ynghyd â newidiadau y bydd angen eu gwneud efallai er mwyn cynnal gwerthusiadau mwy cadarn a dibynadwy. Mae'r adroddiad yn amlinellu argymhellion ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Cymharu canlyniadau ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd and ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg;
- Parhau i ddefnyddio gwaith ymchwil ansoddol er mwyn archwilio tybiaethau teuluoedd Dechrau'n Deg o'r rhaglen;
- Ymchwilio i gyfleoedd er mwyn cysylltu data, gan ddefnyddio data gweinyddol er mwyn archwilio canlyniadau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar lefel unigol;
- Olrhain sampl o deuluoedd/rhieni/plant sydd wedi ymgysylltu â rhaglen Dechrau'n Deg, mewn ffordd hydredol.

---

[6] Mae modd gweld yr holl adroddiadau hyn trwy droi at https://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy

*Adroddiad Ton 1 a 2 ar gyfer yr astudiaeth hon*

1.13 Dyma'r trydydd adroddiad a'r adroddiad terfynol a gyhoeddwyd fel rhan o'r astudiaeth hydredol hon (gweler adran 2 am ddisgrifiad o'r fethodoleg). Seiliwyd adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a) ar 72 o gyfweliadau gyda theuluoedd a gynhaliwyd yn 2015. Ail-gyfwelwyd y mwyafrif o'r teuluoedd hyn (53) ar gyfer Ton 2 ym 2016 a chynhaliwyd 19 cyfweliad arall gyda sampl ychwanegol o deuluoedd i ddisodli'r rhai na allant gymryd rhan mewn ail gyfweliad.

1.14 Dangosodd canfyddiadau adroddiad Ton 2 (Llywodraeth Cymru, 2017a) fod y rhan fwyaf o rieni wedi parhau i gael mynediad at o leiaf un o hawliau Dechrau'n Deg yn ystod Ton 1; arwydd o ymgysylltiad parhaus teuluoedd â Dechrau'n Deg yn ystod yr ymchwil. Roedd y rhan fwyaf o rieni wedi parhau i gael lefelau uchel o foddhad gyda'r gwasanaethau a ddarperir o dan bob un o hawliau Dechrau'n Deg, gan gynnwys barn gadarnhaol am staff, darparu gwasanaethau a chyfleusterau neu leoliadau. Roedd y rhan fwyaf o rieni o'r farn bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn yn ogystal â gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain fel rhiant.

**Am yr adroddiad hwn**

1.15 Mae Adran 2 yn rhoi disgrifiad o'r fethodoleg a fabwysiadwyd er mwyn cynnal y gwaith ymchwil. Mae Adran 3 yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae teuluoedd yn ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg. Mae Adran 4 yn cyflwyno safbwyntiau rhieni am eu profiadau nhw o fanteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg dan y pedair hawl. Yn Adran 5, nodir canlyniadau ac effeithiau tybiedig gwasanaethau Dechrau'n Deg a'r rhaglen yn gyffredinol. Amlinellir ein casgliadau yn Adran 6. Mae astudiaethau achos yn seiliedig ar gyfweliadau â theuluoedd yn ystod y tair ton (1, 2 a 3) wedi'u cynnwys ar ddiwedd Adrannau 2, 3 a 4. Pwrpas yr astudiaethau achos hyn yw helpu i ddangos taith y teuluoedd â'r rhaglen ar draws y tair blynedd o'r prosiect. Mae'r amserlenni cyfweld a ddefnyddir yn ystod Ton 3 wedi'u cynnwys yn Atodiad A a B.

## 2. Methodoleg

2.1 Nodir y fethodoleg ar gyfer cynnal y gwaith ymchwil yn yr adran hon. Mae'n cynnwys crynodeb o'r broses er mwyn dewis awdurdodau lleol a theuluoedd i gymryd rhan, yn ogystal â'r broses recriwtio.

**Trosolwg o'r dull gweithredu**

2.2 Nod yr ymchwil oedd cyfweld â theuluoedd a oedd wedi defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg mewn tri phwynt wrth iddynt ymgysylltu â'r Rhaglen (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel y 'prif' sampl o deuluoedd). Roedd yr ymchwil hefyd yn ceisio cynnal cyfweliadau â theuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystod Ton 3 (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel y sampl cymharu o deuluoedd). Bydd gwaith maes yn cynnwys y canlynol:

- 216 o gyfweliadau wyneb yn wyneb gyda theuluoedd sydd wedi cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg (prif sampl). Tynnwyd y prif sampl o deuluoedd o chwe awdurdod lleol a chafodd cyfweliadau eu cynnal dros dair blynedd (mewn tair ton o 72 o gyfweliadau blynyddol yn 2015, 2016 a 2017);[7]
- Roedd Ton 1 yr astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweliadau gyda theuluoedd;
- Roedd Ton 2 yn cynnwys cyfanswm o 72 o gyfweliadau gyda theuluoedd, gan gynnwys 53 o gyfweliadau dilynol gyda theuluoedd o'r don gyntaf (sampl hydredol) ac 19 o gyfweliadau gyda sampl ychwanegol o deuluoedd er mwyn disodli'r rhai and oedd modd iddynt gymryd rhan mewn ail gyfweliad;
- Roedd Ton 3 yn cynnwys 72 o gyfweliadau pellach, gan gynnwys ail gyfweliadau â 58 o deuluoedd o'r tonnau cyntaf a / neu ail donnau lle bo modd, yn ogystal â sampl ychwanegol o 14 o deuluoedd er mwyn disodli unrhyw deuluoedd nad oeddent yn medru cymryd rhan mewn cyfweliad arall. [8] Gofynnwyd i deuluoedd am eu hymwneud â phrofiadau ac effeithiau gwasanaethau Dechrau'n Deg yn ystod y 12 mis cyn cyfweliadau Wave 3 (h.y. y cyfnod rhwng Ton 2 a 3);

---

[7] Roedd y chwe awdurdod lleol yn cynnwys un yr un o'r gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru yn ogystal ag un i bob un o awdurdodau lleol canolbarth Cymru a chymoedd de Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am sut y dewiswyd yr awdurdodau lleol yn adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a).

[8] O'r 58 o deuluoedd hydredol: cafodd 42 eu cyfweld yn Nhonnau 1, 2 a 3; Cafodd 14 eu cyfweld yn Nhonnau 2 a 3; a chafodd 2 eu cyfweld yn Nhonnau 1 a 3.

- 18 cyfweliad gyda chydlynwyr Dechrau'n Deg mewn chwe awdurdod lleol (tair ton flynyddol o chwe chyfweliad) er mwyn darparu data cyd-destunol;
- Yn Nhon 3 yn unig, roedd 20 o gyfweliadau gyda sampl cymharu o deuluoedd oedd yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg mewn tri o'r awdurdodau lleol uchod.[9] Roedd gan y teuluoedd a recriwtiwyd ar gyfer y sampl cymharu nodweddion tebyg i deuluoedd yn y brif sampl.[10] Pwrpas y cyfweliadau hyn oedd casglu tystiolaeth o'r hyn a allai / ni allai ddigwydd yn absenoldeb y Rhaglen. Gofynnwyd i'r teuluoedd cymharu hyn ynglŷn â'u hymgysylltiad nhw a'u profiadau o wasanaethau cymorth teuluol dros oes eu plentyn / plant.

2.3 Cynhaliwyd y 72 o gyfweliadau Ton 3 gyda theuluoedd, 20 o gyfweliadau â theuluoedd cymharu â’r chwe chyfweliad gyda chydlynwyr a staff Dechrau’n Deg rhwng mis Gorffennaf a Hydref 2017 a’r rhain yw Sylfaen yr adroddiad hwn.

**Rhesymeg y dull gweithredu**

2.4 Mae'r dull gweithredu ansoddol a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn ein galluogi i gael dirnadaeth o brofiadau teuluoedd o Ddechrau'n Deg ac i gasglu safbwyntiau ynghylch sut (os o gwbl) y mae wedi dylanwadu ar eu bywydau. Cynlluniwyd ymchwil ansoddol i fod yn archwiliol, gan gynnwys cwestiynau agored er mwyn annog rhieni i rannu eu tybiaethau a'u teimladau am bwnc yn eu geiriau nhw, yn hytrach na chynnig dewisiadau ymateb a bennwyd ymlaen llaw i gyfranogwyr. Nid yw darparu data sy'n ystadegol ddibynadwy yn nod gan yr ymchwil, ond mae'n darparu tystiolaeth fanwl er mwyn helpu i ddeall safbwyntiau rhieni ynghylch eu profiadau, er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o ymgysylltiad teuluoedd â'r Rhaglen.

2.5 Mae'n bwysig cydnabod rhai o gyfyngiadau'r gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys; tuedd sampl (h.y. sut y gallai'r broses ddethol a recriwtio fod wedi dylanwadu ar natur sampl y teuluoedd); dilysrwydd a dibynadwyedd data (e.e. dibyniaeth ar ddata a hunan-adroddwyd gan rieni); a phriodoliad (h.y. dehongli i ba raddau y mae modd priodoli effeithiau a chanlyniadau tybiedig a adroddwyd gan deuluoedd i elfennau o'r Rhaglen). Roedd defnyddio canllaw holi cyfweld lled-strwythuredig wedi galluogi'r cyfwelwyr i ddefnyddio cwestiynau agored ac awgrymiadau dilynol,

[9] Roedd y tri awdurdod lleol yn cynnwys un yr un o’r gogledd-orllewin, de-ddwyrain a chanolbarth Cymru.
[10] Cyfatebwyd y sampl trwy sicrhau bod y sampl cymharu yn cynnwys canran debyg o deuluoedd â nodweddion penodol i'r brif sampl. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Nhabl 2.

gan ganiatáu i'r ymatebydd ddatblygu eu hatebion a goresgyn rhai o'r cyfyngiadau y cyfeiriwyd atynt uchod. Trafodir yr holl faterion hyn yn fanylach yn adroddiad Ton 1 yr astudiaeth hon (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae gweddill yr adran hon yn canolbwyntio ar y fethodoleg a fabwysiadwyd er mwyn cynnal gwaith maes Ton 3.

**Cyfweliadau gyda chydlynwyr a staff Dechrau'n Deg**

2.6 Yn ystod mis Mai a Mehefin 2017, cynhaliodd y tîm ymchwil astudiaethau cwmpasu gyda chydlynwyr a staff eraill Dechrau'n Deg (y rhai sy'n gyfrifol am reoli cronfeydd data yn bennaf) yn y chwe awdurdod lleol. Diben y cyfweliadau hyn oedd casglu gwybodaeth gyd-destunol am ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn lleol a thrafod y dull gweithredu er mwyn recriwtio teuluoedd ychwanegol i ddisodli unrhyw deuluoedd Ton 2 y gwaith ymchwil na fyddai modd iddynt gymryd rhan yn Nhon 3.

**Samplu a recriwtio**

2.7 Cynlluniwyd fframwaith samplu er mwyn dewis y brif sampl o deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n De gyn ystod Ton 1 o'r ymchwil, a gosodwyd targedau ynghylch isafswm y teuluoedd ar hap o fewn y categorïau hyn.[11] Yna, dewiswyd teuluoedd ar hap o fewn y categorïau hyn. Diben y dull gweithredu hwn oedd sicrhau bod y sampl yn cynnwys amrediad o wahanol fathau o deuluoedd, a cheisio sicrhau y byddai rhai teuluoedd o bob categori yn cymryd rhan yn nhair ton yr ymchwil.

2.8 Roedd ein dull gweithredu yn ceisio sicrhau y byddai cymaint ag y bo modd o'r teuluoedd a gyfwelwyd yn Nhon 1 a 2 yn cael eu hail-gyfweld yn Nhon 3. At ei gilydd, ail-gyfwelwyd 58 o deuluoedd Ton 3 yn ystod Ton 1 a 2 (cyfradd gadw o 80 y cant) a llwyddwyd i recriwtio 14 o deuluoedd ychwanegol er mwyn disodli'r rhai a oedd wedi tynnu'n ôl neu and oedd modd cysylltu â nhw. Roedd y gyfradd gadw hon yn uwch na'r hyn a ragwelwyd ar sail ymchwil blaenorol. O'r 58 o deuluoedd hydredol: cafodd 42 eu cyfweld yn Nhon 1, 2 a 3; Cyfwelwyd 14 o deuluoedd yn Nhon 2 a 3 yn unig; a chyfwelwyd â dau deulu yn Nhonau 1 a 3.

[11] Caiff disgrifiad llawn o'r dull gweithredu a fabwysiadwyd er mwyn dewis a recriwtio'r sampl ei gynnwys yn adroddiad Ton 1 (Llywodraeth Cymru, 2016a).

2.9 Mae Tabl 1 isod yn cynnwys dadansoddiad o sampl y teuluoedd a gyfwelwyd yn ystod Ton 1, 2 a 3 fesul categori. Os and oedd modd i deulu o Don 2 gymryd rhan yn Nhon 3, byddai teulu newydd gyda nodweddion tebyg yn cael ei recriwtio i'w disodli yn y sampl. Mewn dau achos, ail-recriwtiwyd teulu o Don 1 a fu'n methu cymryd rhan yn Nhon 2 yn Nhon 3 i ddisodli teulu arall nad oedd yn medru cymryd rhan.

2.10 Bwriad yr astudiaeth oedd dilyn profiadau teuluoedd o'u taith Dechrau'n Deg o'r adeg y bu eu plentyn ieuengaf yn 30 mis neu'n iau, tan iddynt symud ymlaen i'r Cyfnod Sylfaen. Felly, cynyddodd oedran cyfartalog y plentyn ieuengaf o fewn pob teulu a gyfwelwyd dros dair Ton yr astudiaeth. Yn Nhon 1, roedd y plentyn ieuengaf yn 2 fis oed yn unig ac roedd y plentyn hynaf yn 35 mis oed. Fodd bynnag, roedd gan y rhan fwyaf o deuluoedd a gafodd eu cyfweld plentyn ieuengaf rhwng 7 mis a 24 mis oed. Yn Nhon 2, roedd gan y rhan fwyaf o deuluoedd a gafodd eu cyfweld plentyn ieuengaf rhwng 18 a 36 mis oed. Erbyn Ton 3, roedd gan y rhan fwyaf o deuluoedd a gafodd eu cyfweld plentyn ieuengaf rhwng 25 a 48 mis oed.

2.11 Recriwtiwyd 20 o deuluoedd cymharu gan recriwtiaid ar y stryd gan ddefnyddio holiadur sgrinio. Recriwtiwyd mewn ardaloedd y tu allan i ddalgylch Dechrau'n Deg mewn tri o'r chwe awdurdod lleol a ddewiswyd ar gyfer y brif sampl.[12] Gosodwyd cwotâu ar gyfer gwahanol nodweddion er mwyn recriwtio 20 o deuluoedd cymharu oedd â nodweddion tebyg i'r 72 o deuluoedd yn y brif sampl. Dangosir cymhariaeth o nodweddion y prif sampl a'r sampl cymharu yn Nhabl 2. Roedd gan bob teulu sampl cymharu (20 o deuluoedd) o leiaf un plentyn 2-4 oed i gyfateb i ystod oedran y plant yn y prif sampl. Cafodd teuluoedd a oedd eisoes wedi manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg (e.e. gwasanaethau allgymorth) a'r rhai a oedd yn adnabod teuluoedd sydd wedi defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg eu sgrinio allan o'r ymchwil.[13]

---

[12] Ymgynghorwyd â staff Dechrau'n Deg ar y meysydd mwyaf priodol i ymgymryd â recriwtio.
[13] Cafodd teuluoedd a oedd yn adnabod eraill sydd wedi defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg eu sgrinio allan o'r ymchwil i geisio sicrhau na fyddai teuluoedd yn y grŵp cymharu yn cymharu'r gwasanaethau hynny y maent wedi'u derbyn gyda'r rhai sydd ar gael trwy Dechrau'n Deg.

**Tabl 1. Prif sampl terfynol o deuluoedd o Donnau 1, 2 a 3 yn ôl categori**

| | Ton 1 (2015) | | Ton 2 (2016) | | Ton 3 (2017) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd** | **Canran y teuluoedd a gyfwelwyd[1]** | **Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd** | **Canran y teuluoedd a gyfwelwyd[1]** | **Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd** | **Canran y teuluoedd a gyfwelwyd[1]** |
| Rhieni o deuluoedd sydd mewn angen uchel | 30 | 42% | 30 | 42% | 29 | 40% |
| Rhieni o deuluoedd sydd mewn angen canolig | 15 | 21% | 15 | 21% | 15 | 21% |
| Rhieni o deuluoedd sydd mewn angen isel | 27 | 38% | 27 | 38% | 28 | 39% |
| Rhieni 19 oed neu'n iau pan y'u cyfwelwyd y tro cyntaf | 10 | 14% | 9 | 13% | 8 | 11% |
| Rhieni nad Gwyn Prydeinig neu Gwyn Cymreig yw eu cefndir ethnig[2] | 11 | 15% | 16 | 22% | 15 | 20% |
| Rhieni sy'n siarad Cymraeg | 13 | 18% | 16 | 22% | 13 | 18% |
| Rhieni sydd â phlant anabl | 7 | 10% | 8 | 11% | 8 | 11% |

[1]Nid yw'r niferoedd yn y golofn yn rhoi cyfanswm o 100% gan fod modd cyfrif teuluoedd mewn mwy nag un categori.

[2] Roedd y cyfweliadau'n cynnwys teuluoedd o'r grwpiau ethnig canlynol: Gwyn Ewropeaidd (Pwylaidd, Rwmanaidd, Tyrcaidd ac Arall), Arabaidd a Du Affricanaidd.

**Tabl 2. Nodweddion prif sampl a sampl cymharu Ton 3**

| Categori | Prif sampl Ton 3 (2017) Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd | Prif sampl Ton 3 (2017) Canran y teuluoedd a gyfwelwyd [1] | Sampl cymharu (2017) Nifer y teuluoedd a gyfwelwyd | Sampl cymharu (2017) Canran y teuluoedd a gyfwelwyd [1] |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer y teuluoedd a gyfwelwyd | 72 | 100% | 20 | 100% |
| Rhieni 21 oed neu'n iau yn Nhon 3[2] | 8 | 11% | 2 | 10% |
| Rhieni nad Gwyn Prydeinig neu Gwyn Cymreig yw eu cefndir ethnig [3] | 15 | 20% | 5 | 25% |
| Rhieni sy'n siarad Cymraeg | 13 | 18% | 5 | 25% |
| Rhieni sydd â phlant anabl | 8 | 11% | 2 | 10% |
| Parents in socio-economic groups ABC1[4] | 21 | 29% | 6 | 30% |
| Parents in socio-economic groups C2DE[4] | 51 | 71% | 14 | 70% |

[1] Nid yw'r niferoedd yn y golofn yn rhoi cyfanswm o 100% gan fod modd cyfrif teuluoedd mewn mwy nag un categori.

[2] Roedd teuluoedd yn y brif sampl yn y categori hwn yn 19 neu'n iau yn Nhon 1 (2015).

[3] Roedd y cyfweliadau'n cynnwys teuluoedd o'r grwpiau ethnig canlynol: Gwyn Ewropeaidd (Pwylaidd, Rwmanaidd, Tyrcaidd ac Arall), Arabaidd a Du Affricanaidd.

[4] Mae diffiniadau grŵp economaidd-gymdeithasol yn seiliedig ar broffesiwn y prif enillydd incwm. A - Uwch reolwr, gweinyddol neu broffesiynol; B - Rheolwr canolradd, gweinyddol neu broffesiynol; C1 - Rheolwr, gweinyddol neu broffesiynol goruchwyliol neu glerigol ac iau; C2 - Gweithwyr llafuriol â chymhwyster/au; D - Gweithwyr llafuriol; E - Gweithwyr achlysurol neu radd isaf, pensiynwyr, ac unigolion eraill sy'n dibynnu ar y wladwriaeth les am eu hincwm.

**Gwaith maes**

2.12 Gofynnwyd i'r 72 o deuluoedd yn y prif sampl lle y byddai'n well ganddynt gynnal y cyfweliad. Dewisodd y mwyafrif health (65 o 72) gale cyfweliad wyneb-yn-wyneb yn eu cartref, a dewisodd dau deulu gael cyfweliad wyneb-yn-wyneb mewn canolfan Dechrau'n deg leol, dewisodd un gael cyfweliadau mewn caffi lleol, a chyfwelwyd pedwar teulu dros y ffôn am resymau ymarferol. Cynigiwyd tâl i'r holl deuluoedd am gymryd rhan. Cafodd bron pob un (19 allan o 20) teulu cymharu eu cyfweld mewn lleoliad cyfarfod yn eu cymuned (e.e. neuadd gymunedol neu lyfrgell) gydag un teulu yn dewis cyfweld dros y ffôn.

2.13 Rhoddwyd y cyfle i'r holl rieni/gwarcheidwaid yn y teulu gymryd rhan mewn cyfweliadau, nail ai ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd. O blith y 72 o deuluoedd, roedd 63 o famau wedi cymryd rhan mewn cyfweliad ar eu pen eu hunain, a dau dad wedi cymryd rhan mewn cyfweliad ar eu pen eu hunain. O ran y saith teulu a oedd yn weddill, roedd y fam a'r tad wedi cymryd rhan yn y cyfweliad. Roedd ugain o'r 72 o deuluoedd a gyfwelwyd yn deuluoedd rhieni unigol. Ymhlith y 20 teulu cymharu, cyfwelwyd 18 mam ar eu pen eu hunain a dau dad ar eu pen eu hunain.

2.14 Cofnodwyd ethnigrwydd y teuluoedd a gyfwelwyd; o blith y 72 o deuluoedd a gyfwelwyd, roedd y mwyafrif (57 o deuluoedd) yn deuluoedd Gwyn Cymreig neu Wyn Prydeinig. Roedd naw teulu o gefndir Dwyrain Canol (gan gynnwys teuluoedd Iracaidd, Yemenïaidd, Syriaidd a Sawdi-Arabaidd). Roedd pedwar teulu pellach o gefndir Gwyn Ewropeaidd (gan gynnwys Pwylaidd ac Eidalaidd) ac roedd y ddau a oedd yn weddill o gefndir Du Affricanaidd. Ymhlith y 20 o deuluoedd yn y sampl cymharu, roedd pymtheng yn Wyn Cymreig neu Wyn Prydeinig, dau deulu Asiaidd, un o'r Dwyrain Canol, un yn Ddu ac un yn Wyn Ewropeaidd.

2.15 Cynhaliwyd y cyfweliadau yn dewis iaith y teuluoedd, a threfnwyd bod cyfieithydd yn bresennol gyda'r ymchwilydd yn ôl yr angen. Cynhaliwyd mwyafrif o'r brif sampl (57 allan o 72) yn Saesneg, a chynhaliwyd with yn y Gymraeg. Cynhaliwyd saith cyfweliad gyda chymorth cyfieithwyr, ac roedd y rhain oll yn Arabeg. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfweliadau â theuluoedd cymharu (15 allan o 20) yn Saesneg, gyda phump wedi eu cynnal yn y Gymraeg.

2.16 Roedd nifer y plant yn y prif sampl o 72 o deuluoedd yn amrywio o un plenty i 10 o blant. Dim ond un plentyn oedd yng nghyfran fwyaf y teuluoedd o'r brif sampl (24 allan o'r 72 o deuluoedd.) Ymhlith y 20 teulu cymharu, roedd nifer y plant yn

amrywio o un plentyn i bump. Dim ond un plentyn oedd yng nghyfran fwyaf y teuluoedd yn y sampl cymharu (9 allan o 20 teulu). Roedd gan bob teulu yn y brif sampl a'r sampl cymharu o leiaf un plentyn rhwng 2 a 4 oed.

*Ystyriaethau moesegol*

2.17 Roedd ein dull gweithredu ar gyfer y gwaith ymchwil yn ceisio sicrhau triniaeth foesegol gywir ar gyfer yr holl rai a fu'n cymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfranogiad teuluoedd yn benderfyniad gwirfoddol, wedi'i seilio ar gydsyniad ar sail gwybodaeth, a bod yr holl ddata'n cael ei drin yn gyfrinachol. Estynnwyd gwahoddiad i deuluoedd yn y prif sampl i gymryd rhan gan staff Dechrau'n Deg (Ymwelwyr Iechyd fel arfer) ac fe'u hysbyswyd o'r ffaith mai penderfyniad gwirfoddol fyddai cymryd rhan. I'r perwyl hwn, darparwyd nodyn briffio gan y tîm ymchwil ar gyfer staff awdurdodau lleol yn disgrifio'r gwaith ymchwil a natur y gweithgarwch ymgysylltu gofynnol ar gyfer y rhieni, er mwyn iddynt ei ddefnyddio wrth drafod y prosiect gyda theuluoedd. Gofynnwyd i rieni yn y prif sampl lenwi ffurflen cydsynio cyn y byddai staff Dechrau'n Deg yn rhoi manylion cyswllt i'r tîm ymchwil. Cyn pob cyfweliad, gofynnwyd i deuluoedd lenwi ffurflen cydsynio ychwanegol gan y tîm ymchwil. Roedd y ffurflen gydsynio hon yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch cyfrinachedd, sut y byddai eu data yn cael ei ddefnyddio, ac roedd yn cadarnhau bod eu cyfranogiad yn wirfoddol. Yn ogystal, roedd yn gofyn am eu cydsyniad i rywun yn cysylltu â nhw eto yn y dyfodol ar gyfer tonnau pellach y gwaith ymchwil. Mae'r canllaw holi yn Atodiad A yn cynnwys datganiad a ddarllenwyd i'r cyfranogwyr ar ddechrau pob cyfweliad.

2.18 Gwahoddodd recriwtwyr ar y stryd deuluoedd sampl cymharu i lenwi holiadur sgrin i wirio a oeddent yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn yr ymchwil. Gwahoddwyd teuluoedd oedd yn cwrdd â'r meini prawf i gymryd rhan mewn cyfweliad a gofynnwyd iddynt gwblhau ffurflen ganiatâd tebyg i'r hyn a ddarperir i deuluoedd yn y brif sampl. Mae'r canllaw holi yn Atodiad B yn cynnwys datganiad a gafodd ei ddarllen i'r cyfranogwyr ar ddechrau pob cyfweliad.

*Canllawiau holi*

2.19 Datblygwyd canllawiau holi lled-strwythuredig gan y tîm ymchwil ar gyfer y prif samplau ar samplau cymharu ag oedd yn cynnwys y themâu amrywiol, gan gynnwys: gwybodaeth broffil; disgwyliadau ac ymgysylltu; profiadau o bob hawl Dechrau'n Deg (neu'r math o wasanaeth cymorth teuluol ar gyfer y sampl cymharu); canlyniadau ac effeithiau tybiedig. Roedd y canllaw holi yn cynnwys

cwestiynau agored ac awgrymiadau a oedd yn ymwneud â gwahanol hawliau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleoedd i sgorio eu lefelau boddhad â'r hawliau yr oeddent wedi'u hymgysylltu â hwy. Mae'r prif ganllaw holi sampl cymharu wedi'u cynnwys fel Atodiadau A a B.

**Dadansoddi**

2.20 Paratowyd nodiadau o'r 72 o gyfweliadau a'r 20 cyfweliad sampl cymharu gan y cyfwelydd. Ni recordiwyd cyfweliadau na'u trawsgrifio gair am air, ond ysgrifennwyd rhai dyfyniadau ar y pryd ac fe'u hadroddir yn llawn er mwyn amlygu sylwadau manwl ynghylch profiadau penodol.[14] Adolygwyd nodiadau cyfweliadau ac fe'u codiwyd (h.y. labelwyd brawddegau a pharagraffau ym mhob set o nodiadau gyda 'chodau', a oedd yn rhoi crynodeb o'r hyn a ddywedwyd e.e. sylw cadarnhaol am ofal plant) er mwyn gallu tynnu allan themâu cyffredin yr adroddwyd amdanynt yn ystod y gwaith dadansoddi. Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi data ansoddol er mwyn cynorthwyo'r broses ac er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd adalw'r data. Mae hyn wedi ein galluogi i roi crynodeb o'r data ac i adnabod y themâu allweddol a ddeilliodd o'r gwaith maes.

**Adrodd**

2.21 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda theuluoedd yn ystod Ton 2. Hwn yw'r olaf mewn cyfres o dri adroddiad blynyddol cyhoeddwyd fel rhan o'r ymchwil. Mae adrannau 3-5 isod yn amlinellu'r themâu a'r canfyddiadau allweddol a oedd yn deillio o'r gwaith ymchwil. Cyflwynir ym mhob adran canfyddiadau o'r prif sampl ac yna canfyddiadau o'r sampl cymharu. Yn gyffredinol, cyflwynir mwy o dystiolaeth yn yr adroddiad ar gyfer teuluoedd Dechrau'n Deg nag ar gyfer teuluoedd y grŵp cymharu. Y rheswm am hyn yw bod mwy o deuluoedd Dechrau'n Deg (72) na theuluoedd cymharu (20) wedi'u cyfweld yn ystod yr ymchwil. Yn ogystal, roedd teuluoedd Dechrau'n Deg yn tueddu i gael mynediad at fwy o wasanaethau na theuluoedd cymharu a fe'u cyfwelwyd hyd at dair gwaith yn ystod yr ymchwil o'i gymharu ag un cyfweliad i deuluoedd cymharu (Ton 3 yn unig).

[14] Yn yr adroddiad hwn, nodir oedran a rhyw y sawl a gyfwelwyd a lefel angen y teulu wrth ymyl dyfyniadau mewn achosion pan oedd y wybodaeth hon ar gael i'r tîm ymchwil.

## 3. Ymgysylltu

3.1 Mae'r adran hon a'r rhai sy'n dilyn yn amlinellu'r themâu a'r canfyddiadau allweddol sydd wedi deillio o'r ymchwil. Yn yr adran hon, rydym yn archwilio natur ymgysylltu teuluoedd gyda Dechrau'n Deg a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu lefel ymgysylltu. Yn ogystal, rydym yn nodi unrhyw newidiadau o ran ymgysylltiad rhwng Tonnau 1, 2 a 3. I'r perwyl hwn, gofynnwyd i'r rhieni pa wybodaeth, os o gwbl, yr oeddent wedi'i chael am wasanaethau Dechrau'n Deg ers eu cyfweliad blaenorol, pa hawliau yr oeddent wedi parhau i fanteisio arnynt, pa hawliau nad oeddent yn manteisio arnynt mwyach a pha hawliau yr oeddent wedi dechrau manteisio arnynt ers Ton 2. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu'r canfyddiadau yn sgil cyfweliadau â theuluoedd cymharu ynghylch eu hymgysylltiad â gwasanaethau cymorth i deuluoedd y tu allan i'r ardaloedd Dechrau'n Deg.

**Gwybodaeth a gafwyd**

3.2 Yn ystod pob un o dair ton yr ymchwil, holwyd y teuluoedd yn y brif sampl am lefel y wybodaeth y maent wedi'i chael am raglen Dechrau'n Deg a'i hawliau. Dywedodd yr holl deuluoedd eu bod wedi cael gwybodaeth am wasanaethau Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV), megis clinigau, imiwneiddio ac archwiliadau datblygiadol ar ryw adeg rhwng Tonnau 1 a 3. Yn ystod Ton 3, gofynnwyd yn benodol i'r rheiny y cyfwelwyd â nhw yn ystod tonnau blaenorol pa wybodaeth yr oeddent wedi'i chael ers hynny.

3.3 Roedd rhieni yn Nhon 3 wedi cael gwybodaeth am wasanaethau Dechrau'n Deg gan ffynonellau tebyg i'r rhai a nodwyd yn Nhonnau 1 a 2. Roedd rhieni wedi cael gwybodaeth trwy eu Hymwelydd Iechyd yn bennaf, yn ogystal â thrwy daflenni a chyfryngau cymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn teimlo'u bod wedi cael digon o wybodaeth trwy'r ffynonellau hyn, er bod rhai wedi nodi eu bod yn cael llai o wybodaeth nawr nag yr oeddent yn ei chael pan oeddem wedi cyfweld â nhw yn Nhonnau 1 a 2 a nododd rhai rhieni nad oeddent wedi cael fawr ddim gwybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl ers eu cyfweliad diwethaf. Roedd gan y rhan fwyaf o'r teuluoedd hyn blant hŷn, felly nid oeddent yn cael cyswllt mor rheolaidd â'u Hymwelydd Iechyd, er bod gan nifer fach ohonynt blant dan 18 mis.[15]

[15] Mae *Rhaglen Graidd o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013b)* yn amlinellu amlder cysylltiadau arferol Ymwelwyr Iechyd: bob wythnos hyd at 6 wythnos yn dilyn genedigaeth, a ddilynir gan gyswllt bob 8, 12 ac 16 wythnos ac o leiaf 2 gyswllt rhwng 6 a 12 mis. Yn dilyn hyn, disgwylir y bydd ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl 18 mis, 2 a 3 blynedd (gan gynnwys asesiadau datblygiadol). Mae'r

Yn ogystal, nid oeddent mor rhagweithiol wrth geisio gwybodaeth am wasanaethau Dechrau'n Deg. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y ffaith bod teuluoedd yn gwybod bod y cymorth yno pe byddent ei angen yn cynnig cysur iddynt.

> 'Cefais lawer o wybodaeth a chymorth pan oedd yn fach, ond byddaf yn cael llai nawr ers iddo dyfu'n hŷn.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

3.4 Gofynnwyd i **deuluoedd cymharu** pa wybodaeth yr oeddent wedi'i chael am wasanaethau cymorth i deuluoedd, megis clinigau Ymwelwyr Iechyd, cylchoedd chwarae lleol, darpariaeth gofal plant a chyrsiau rhianta. Dywedodd bron yr holl deuluoedd cymharu eu bod wedi cael gwybodaeth am wasanaethau Ymwelwyr Iechyd, megis clinigau, imiwneiddio ac archwiliadau datblygiadol, ac roedd ychydig ohonynt wedi cael gwybodaeth am fathau eraill o gymorth (e.e. clinigau bwydo ar y fron). Fodd bynnag, roedd teuluoedd cymharu yn llai tebygol o adrodd eu bod wedi cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth i deuluoedd eraill, o'u cymharu â'r brif sampl. O ganlyniad, roedd yn ymddangos bod gan deuluoedd cymharu lai o ymwybyddiaeth ynghylch rhai mathau o gymorth, yn enwedig cyrsiau rhianta a darpariaeth gofal plant.

3.5 Dywedodd rhai **teuluoedd cymharu** fod eu Hymwelydd Iechyd wedi rhoi gwybodaeth iddynt am gylchoedd chwarae lleol, naill ai drwy esbonio beth oedd ar gael neu drwy ddarparu amserlen o weithgareddau lleol (e.e. amser stori mewn llyfrgelloedd lleol, cylchoedd chwarae sy'n cael eu cynnal gan elusennau neu eglwysi). Fodd bynnag, roedd teuluoedd cymharu yn tueddu i ddibynnu'n fwy ar gyfryngau cymdeithasol a chael gwybodaeth ar dafod leferydd er mwyn cael gwybod am y mathau hyn o grwpiau, o'u cymharu â'r brif sampl, lle dywedodd y rhan fwyaf o deuluoedd eu bod wedi cael amserlen o weithgareddau Dechrau'n Deg.

3.6 Ychydig o **deuluoedd cymharu** sydd wedi cael gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant neu gyrsiau rhianta. Y rheiny a gafodd y wybodaeth hon oedd

---

Rhaglen yn nodi y dylai cynlluniau gofal unigol, a ddatblygwyd wedi'u seilio ar asesiadau o anghenion y plentyn, ddylanwadu ar amlder y cyswllt. Mae hyn yn golygu y bydd angen i deuluoedd y nodwyd eu bod mewn angen uchel gael cyswllt amlach gydag Ymwelydd Iechyd na'r rhai y nodwyd eu bod mewn angen canolig neu isel. Ymhellach, gall rhieni drefnu cyswllt ychwanegol â'u Hymwelydd Iechyd yn ôl y gofyn pan fydd materion penodol yn codi.
Ers mis Ebrill 2017, mae amseriad ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg wedi newid i gyd-fynd â'r rhaglen Plant Iach Cymru, fel yr amlinellwyd ar dudalen 5 y canllawiau a ddiweddarwyd:
https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170526-flying-start-health-prog-guide-cy.pdf

teuluoedd a oedd wedi cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ac a oedd wedi cael eu hatgyfeirio at y cyrsiau hyn. Nid oedd rhai teuluoedd cymharu yn gwybod bod cyrsiau rhianta yn bodoli ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi ystyried mynychu cwrs rhianta. Ar ôl eu procio, nododd rhai rhieni cymharu yr hoffent pe byddai rhagor o gyrsiau rhianta ar gael (e.e. coginio, bwydo ar y fron a chyrsiau datblygiadol).

**Hawliau y manteisiwyd arnynt a ffactorau sy'n dylanwadu ar weithgarwch ymgysylltu**

3.7 Mae lefelau ymgysylltu teuluoedd Dechrau'n Deg gyda'r pedair hawl graidd yn tueddu i wahaniaethu, gan ddibynnu ar oedran eu plant. Mae teuluoedd sy'n cynnwys babanod dan chwe mis oed yn cael cyswllt craidd mwy rheolaidd â'r hawl EHV fel arfer, o'u cymharu â theuluoedd sy'n cynnwys plant hŷn, fel y nodir yn y ddogfen *Rhaglen Graidd o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan Dechrau'n Deg* (Llywodraeth Cymru, 2013b) (gweler troednodyn 15).[16] Yn yr un modd, o ganlyniad i natur y gofal plant a gynigir, dim ond pan fydd eu plentyn yn ddwy neu'n dair oed y bydd teuluoedd yn gymwys i fanteisio ar yr hawl hon. Mae teuluoedd yn tueddu i fanteisio ar grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC), megis Iaith a Chwarae (IaCh) cyn y bydd eu plentyn yn dechrau mynychu gofal plant pan fydd yn ddwy oed, ac yna maent yn llai tebygol o fynychu'r grwpiau SLC hyn. Mae'r newidiadau hyn o ran cymhwystra ac anghenion plant, ynghyd â natur wirfoddol y Rhaglen, yn golygu na fyddai disgwyl i'r holl deuluoedd ymgysylltu â'r holl hawliau.

3.8 Yn yr adran hon, darperir gwybodaeth am niferoedd y teuluoedd yn y sampl ymchwil sydd wedi manteisio ar wahanol hawliau. Fodd bynnag, gan mai astudiaeth ansoddol yw hon, dylid dehongli hon fel gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer y canfyddiadau sy'n dilyn. Ni ddylid ystyried bod y lefelau ymgysylltu yn y sampl yn dynodi lefelau ymgysylltu cyffredinol teuluoedd ar draws y Rhaglen gyfan. Ymhellach, ni ddylid ystyried bod cymariaethau rhwng lefelau ymgysylltu

[16] Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth o'r gwaith ymchwil ansoddol gyda theuluoedd mewn angen uchel a gynhwyswyd yn y gwerthusiad cenedlaethol o Ddechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2013a) a nododd fod ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn ymweld â rhieni babanod newydd-anedig yn rheolaidd fel arfer (bob wythnos neu bob mis, gan ddibynnu ar angen y teulu), ac yna bob mis neu bob dau fis wrth i'r plentyn agosáu at ei ben-blwydd cyntaf. Os nad oes gan deuluoedd anghenion parhaus y mae gofyn darparu cymorth dwys parhaus ar eu cyfer, ar ôl i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn ddwy oed, efallai mai dim ond unwaith y flwyddyn y bydd ymwelwyr iechyd yn ymweld er mwyn cynnal archwiliadau dwy a thair blwydd oed.'

teuluoedd yn y sampl gymharu a'r brif sampl yn gyffredinol o ran y boblogaeth ehangach o deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.

*Lefelau ymgysylltu cyffredinol yn Nhonnau 1, 2 a 3*

3.9 Roedd natur gweithgarwch ymgysylltu teuluoedd â Dechrau'n Deg yn amrywio yn ystod tair ton yr astudiaeth. Roedd oedran ac anghenion y plant, cryfder y cysylltiadau â staff Dechrau'n Deg, yn ogystal â phrofiadau a hyder y rhieni, yn dylanwadu'n gryf ar weithgarwch ymgysylltu teuluoedd. Adroddodd rhieni eu bod wedi ymgysylltu'n fwy â'r hawl EHV yn ystod Tonnau 1 a 2, pan oedd eu plentyn yn iau, a'u bod wedi ymgysylltu'n fwy â'r hawl gofal plant pan oedd eu plentyn yn gymwys i'w chael, rhwng 2 a 3 oed. Roedd hyn yn golygu ei bod yn ymddangos bod y prif bwynt ymgysylltu â'r Rhaglen yn newid yn ystod y tair ton. Roedd yr holl rieni wedi ymgysylltu â'r hawl EHV, ac roedd y mwyafrif helaeth o rieni wedi manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg ar ryw adeg yn ystod yr ymchwil. Roedd tua dau o bob tri theulu wedi ymgysylltu â'r hawl rhianta (e.e. mynychu cwrs neu gael cymorth yn y cartref) ac adroddodd ychydig dros hanner y teuluoedd eu bod wedi ymgysylltu â'r hawl cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) ar ryw adeg yn ystod yr ymchwil.

*Yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV)*

3.10 Dywedodd cyfanswm o 59 o blith y 72 o deuluoedd y cyfwelwyd â nhw yn ystod Ton 3 eu bod wedi manteisio ar gymorth gan eu Hymwelydd Iechyd, sef lefel ymgysylltu is na'r hyn a adroddwyd yn ystod Tonnau 1 a 2 yr ymchwil. Roedd gan ychydig o deuluoedd fabanod iau erbyn hyn ac felly roeddent yn ymgysylltu'n fwy â'r hawl drwy ymweliadau amlach ar gyfer archwiliadau. Fodd bynnag, o ran y rhan fwyaf o deuluoedd, nid yr hawl EHV oedd eu prif bwynt cyswllt â'r Rhaglen mwyach. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod teuluoedd yn tueddu i ymgysylltu'n llai â'r hawl EHV (gweler troednodyn 15) ac ymgysylltu'n fwy â hawliau eraill wrth i'w plentyn fynd yn hŷn.

3.11 Nododd rhai teuluoedd (13 allan o 72) nad oeddent wedi manteisio ar gymorth Ymwelydd Iechyd ers Ton 2. Fel arfer, roedd y plentyn ieuengaf yn y teuluoedd hyn dros dair oed ac esboniodd y rhan fwyaf ohonynt na fu angen iddynt gael cyswllt â'u Hymwelydd Iechyd ers Ton 2 gan nad oedd eu plentyn wedi cael unrhyw broblemau iechyd. Fodd bynnag, adroddodd nifer fach o deuluoedd â phlant dan 18 mis oed, neu blant sydd â phroblemau iechyd, mai ychydig o gyswllt

yr oeddent wedi'i gael â'u Hymwelydd Iechyd ers Ton 2; mynegodd y teuluoedd hyn bryder ynghylch y diffyg cyswllt.

3.12 Roedd ychydig o deuluoedd (10) wedi cael cymorth gan dîm iechyd ehangach Dechrau'n Deg yn ystod Ton 3 gan gynnwys, er enghraifft, dietegwyr neu ffisiotherapyddion. Roedd y lefel ymgysylltu hon yn debyg i'r hyn a adroddwyd yn Nhonnau 1 a 2. O blith y teuluoedd y cyfwelwyd â nhw yn ystod y tonnau blaenorol, roedd rhai ohonynt wedi parhau i fanteisio ar gymorth gan dîm iechyd ehangach Dechrau'n Deg ac roedd rhai wedi dechrau manteisio ar y cymorth hwn ers Ton 2.

3.13 Roedd rhesymau rhieni y cyfwelwyd â nhw yn ystod Ton 3 dros geisio cymorth gan eu Hymwelydd Iechyd mewn ffordd weithredol yn debyg i'r rhesymau a amlinellwyd yn ystod tonnau blaenorol yr ymchwil. Y rheswm a nodwyd yn fwyaf aml dros gysylltu â'u Hymwelydd Iechyd oedd ceisio cyngor neu gymorth ynghylch materion penodol, megis dysgu defnyddio poti neu ddiddyfnu. Fel yr adroddwyd yn ystod Tonnau 1 a 2, roedd yn ymddangos bod perthynas teuluoedd gyda'u Hymwelydd Iechyd yn dylanwadu ar y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â'r hawl. Roedd y rhai yr oedd ganddynt berthynas dda â'u Hymwelydd Iechyd, sef y rhan fwyaf o'r teuluoedd y cyfwelwyd â nhw, yn teimlo y gallent gysylltu â nhw pe byddai angen iddynt wneud hynny ac felly roeddent yn fwy tebygol o wneud hynny.

3.14 Roedd yn ymddangos bod oedran y plant yn dylanwadu ar y gweithgarwch ymgysylltu. Gan fod y plant wedi tyfu'n hŷn ers y cyfwelwyd â'r teuluoedd, bydd nifer yr ymweliadau a drefnir gan yr Ymwelydd Iechyd wedi gostwng (gweler troednodyn 15). Mae'n ymddangos bod y cwestiwn ynghylch a yw'r rhieni yn rhieni newydd yn ffactor arall sy'n cael dylanwad. Mewn rhai achosion, roedd rhieni yr oedd ganddynt fwy nag un plentyn yn credu nad oedd angen cymaint o gymorth arnynt gan eu Hymwelydd Iechyd ac felly nid oeddent wedi cysylltu â nhw. Fodd bynnag, roeddent yn adrodd bod y ffaith eu bod yn gwybod y gallent gysylltu â nhw pe byddai angen iddynt wneud hynny yn cynnig cysur iddynt.

3.15 Roedd yr holl **deuluoedd cymharu** wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn ystod bywyd eu plentyn, er nad oedd rhai ohonynt wedi ymgysylltu â nhw yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn gyffredinol, roedd y lefelau ymgysylltu â'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd a adroddwyd gan deuluoedd cymharu yn is na lefelau'r brif sampl. Yn gyffredinol, roedd teuluoedd cymharu yn adrodd eu bod yn

cael cyswllt llai aml â'u Hymwelydd Iechyd ac roeddent yn adrodd yn fwy aml eu bod yn cwrdd â'u Hymwelydd Iechyd mewn clinig fel arfer. Yr eithriad i hyn oedd yr ychydig o deuluoedd cymharu a oedd wedi cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol; roedd y teuluoedd hyn yn adrodd ynghylch lefelau ymgysylltu sy'n fwy tebyg i'r brif sampl.

> 'Mae'r un Ymwelydd Iechyd wedi bod gennym ni am 4 mis. Rydyn ni'n ei gweld yn ein cartref ac yn y clinig, yn ddigon aml ond yn fwy aml ar y dechrau. Mae hi'n drylwyr ac yn siarad Cymraeg, felly rydyn ni'n falch o hynny.' Tad, 25-44 oed, sampl gymharu

3.16 Roedd pwyslais gweithgarwch ymgysylltu â'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd ymhlith teuluoedd cymharu yn tueddu i fod ar archwiliadau datblygiadol, er bod rhai ohonynt yr oedd ganddynt blant iau yn gweld eu Hymwelydd Iechyd yn fwy aml. Nododd rhai teuluoedd cymharu mai ychydig iawn o gyswllt yr oeddent wedi'i gael â'u Hymwelydd Iechyd ers i'w plentyn droi'n 12 mis oed. Nododd rhai rhieni yr hoffent gael mwy o gyswllt â'u Hymwelydd Iechyd.

> 'Byddai'n braf pe bai'r gwasanaeth ychydig yn fwy personol.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

> 'Roeddwn i'n teimlo eu bod yn cymryd bod popeth yn iawn gan ei bod yn ymddangos fy mod i'n gwybod beth oeddwn i'n ei wneud. Roedd fy mam yn nyrs, felly roeddwn i'n teimlo fel pe baent yn dweud, 'bydd hi'n iawn.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

> 'Prin yr wyf wedi gweld yr Ymwelydd Iechyd. Byddaf yn chwilio am wybodaeth ynghylch ei [y plentyn] datblygiad ar y rhyngrwyd.' Tad, 45-59 oed, sampl gymharu

3.17 Felly, mae'r canfyddiadau yn dangos bod rhieni yn yr ardaloedd cymharu wedi ymgysylltu'n llai â'u Hymwelydd Iechyd na'r brif sampl. Efallai bod hyn i'w ddisgwyl gan fod y Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys llai o ymweliadau a drefnir na'r rhaglen Dechrau'n Deg.[17]

[17] Mae trosolwg o'r Rhaglen Plant Iach Cymru ar gael ar y wefan: https://gov.wales/docs/dhss/publications/160926healthy-childrency.pdf (Cyrchwyd 26 Mehefin 2018)

*Yr hawl gofal plant*

3.18 Roedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd y cyfwelwyd â nhw yn ystod Ton 3 (61 allan o 72) wedi manteisio ar yr hawl i gael gofal plant yn ystod Ton 1, 2 neu 3. Roedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd (46 allan o 72) wedi manteisio ar yr hawl i gael gofal plant yn ystod Ton 3. Ers Ton 2, roedd 16 o deuluoedd wedi parhau i fanteisio ar ofal plant ac roedd 21 wedi dechrau manteisio arno ers i'w plentyn fod yn gymwys rhwng Tonnau 2 a 3. Roedd y rhan fwyaf o'r sampl ychwanegol o deuluoedd a recriwtiwyd yn ystod Ton 3 (9 allan o 14) yn manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg. Roedd rhai teuluoedd (15) wedi stopio manteisio ar yr hawl ers eu cyfweliad diwethaf oherwydd bod eu plentyn wedi troi'n dair oed ac nad oedd yn gymwys i fanteisio ar yr hawl mwyach (roedd rhai o'r plant hyn wedi trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen ac roedd rhai ohonynt yn aros i'w plentyn ddechrau mewn ysgol feithrin). Roedd rhai teuluoedd (6) yn bwriadu manteisio ar yr hawl dros y misoedd nesaf gan fod eu plentyn newydd ddod yn gymwys, neu y byddai'n gymwys yn fuan. Roedd rhai teuluoedd (5) wedi dewis peidio â manteisio ar yr hawl (ac nid oeddent yn bwriadu gwneud hynny), oherwydd eu bod wedi talu i ddefnyddio darparwr gofal plant preifat neu benderfynu gofal am y plentyn eu hunain.

3.19 Mae dau deulu wedi cael cymorth i fanteisio ar ddarparwyr gofal plant eraill drwy Ddechrau'n Deg. Roedd hyn yn cynnwys manteisio ar gyllid tuag at warchodwr plant neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg nad oeddent ar gael yn eu lleoliad Dechrau'n Deg lleol.

3.20 Y rhesymau a nodwyd yn fwyaf aml dros fanteisio ar yr hawl i gael gofal plant oedd helpu eu plentyn i gymdeithasu a rhyngweithio â phlant eraill ac i baratoi eu plentyn ar gyfer mynd i'r ysgol. Roedd y cymhelliant yn eithaf tebyg i'r hyn a grybwyllwyd yn ystod Tonnau 1 a 2. Hefyd, nododd rhieni fod manteisio ar ddarparwr gofal plant yn rhoi mwy o amser iddynt wneud pethau eraill, megis gofalu am blant iau, gwaith tŷ, gweithio neu astudio.

3.21 Roedd rhieni nad oeddent wedi manteisio ar yr hawl i gael gofal plant yn ystod Ton 3 wedi nodi rhesymau tebyg i'r rheiny a adroddwyd yn ystod Tonnau 1 a 2. Roedd yn well gan nifer fach o deuluoedd ofalu am eu plant eu hunain neu fod aelodau o'r teulu yn darparu gofal. Roedd nifer fach o rieni cyflogedig wedi talu i ddefnyddio darparwr gofal plant preifat oherwydd bod arnynt angen gofal plant am fwy o amser na'r sesiynau 2.5 awr a gynigir drwy Ddechrau'n Deg (h.y. i gwmpasu eu horiau gwaith). Roedd yn well gan un teulu anfon eu plentyn at ddarparwr gofal

plant preifat a oedd yn gysylltiedig ag ysgol cyfrwng Cymraeg yr oedd eu plentyn yn debygol o fynd iddi yn y dyfodol. Adroddodd teuluoedd eraill eu bod eisoes yn manteisio ar ddarpariaeth gofal plant nad oedd yn ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyn i'w plentyn droi'n 2 oed a bod yn well ganddynt beidio â symud eu plentyn i leoliad newydd. Adroddodd un teulu nad oedd eu plentyn wedi setlo gyda'r darparwr gofal plant Dechrau'n Deg a'u bod wedi'i symud wedyn at ddarparwr gofal plant preifat.

3.22 Roedd ychydig dros hanner y **sampl gymharu** o deuluoedd (13 allan o 20) wedi defnyddio darparwr gofal plant, ac adroddodd deg o'r teuluoedd hyn eu bod wedi rhoi eu plentyn mewn meithrinfa cyn iddo droi'n dair oed. Roedd tri o'r teuluoedd yn y sampl gymharu wedi manteisio ar ofal plant a gyllidir gan eu hawdurdod lleol (naill ai drwy'r gwasanaethau cymdeithasol neu oherwydd bod eu plentyn yn anabl). Roedd tri o'r teuluoedd cymharu yn manteisio ar ofal plant amser llawn, ac roedd deg ohonynt yn manteisio ar ofal plant rhan-amser, gan amrywio o ddau fore yr wythnos i bedwar diwrnod yr wythnos. Adroddodd y rhan fwyaf o'r teuluoedd cymharu yr oedd eu plant yn manteisio ar ofal plant rhan-amser y byddent wedi manteisio arno ar fwy o ddyddiau pe byddent yn gallu ei fforddio.

> 'Pe na bai cyllid yn broblem, byddai wedi mynd am fwy o sesiynau.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

3.23 Nid oedd saith allan o'r 20 o deuluoedd cymharu wedi defnyddio gwasanaethau gofal plant. Roedd y rhain yn cynnwys cymysgedd o deuluoedd lle'r oedd un rhiant (neu'r ddau riant) yn ddi-waith ac yn gofalu am y plentyn eu hunain a theuluoedd lle'r oedd un rhiant neu'r ddau riant yn gweithio ran amser ac yn dibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar aelodau o'r teulu (e.e. mam-gu a thad-cu, partneriaid) i ofalu am eu plentyn. Adroddodd pob un o'r rhieni hyn mai'r prif reswm oedd na allent fforddio manteisio ar ofal plant ac y byddent wedi bod yn debygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant pe na byddai'r gost yn rhwystr. Roedd un o'r rhieni hyn wedi gallu rhoi eu plentyn mewn meithrinfa tra eu bod yn mynychu cwrs rhianta a gyllidwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol am chwe wythnos.

> 'Maen nhw wedi bod mewn meithrinfa tra oeddwn i ar y cwrs [magu plant]. Roedd hynny'n wych, ond ni allaf fforddio iddynt fynd i feithrinfa.' Mam, 21 oed neu iau, sampl gymharu

3.24 Nododd rhai rhieni nad oeddent yn gallu chwilio am waith, neu eu bod wedi cymryd amser i ffwrdd o'u gyrfa/cwrs, oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio gofal plant.

> 'Mae'r Ganolfan Waith wedi bod yn ceisio fy annog i fynd ar yr holl gyrsiau hyn, ond galla i ddim heb feithrinfa'. Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

> 'Ni fyddwn wedi gwastraffu un flwyddyn o'r brifysgol pe byddai gofal plant am ddim ar gael.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

3.25 Mae'r canfyddiadau yn dangos bod llai o rieni y cyfwelwyd â nhw yn yr ardaloedd cymharu wedi manteisio ar ofal plant, o'u cymharu â'r rheiny mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Adroddodd rhieni nad oeddent wedi defnyddio gofal plant yn yr ardaloedd cymharu y byddent wedi hoffi manteisio arno pe byddai ar gael ac yn fforddiadwy, a nododd rhai teuluoedd Dechrau'n Deg na fyddent wedi defnyddio gofal plant pe byddai'n rhaid iddynt dalu amdano. Mae hyn yn awgrymu bod y Rhaglen wedi cael gwared â rhwystrau i fanteisio ar ofal plant i rai rhieni ond bod rhwystrau o hyd i rai rhieni y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.

*Yr hawl rhianta*

3.26 Roedd ychydig dros un o bob tri theulu (26 allan o 72) wedi manteisio ar yr hawl rhianta yn ystod Ton 3. Roedd 12 o'r teuluoedd hyn wedi parhau i fanteisio ar yr hawl ers Ton 2 ac roedd 14 teulu arall wedi dechrau manteisio ar gymorth rhianta yn ystod Ton 3. Nid oedd ychydig dros un o bob tri theulu (26) wedi manteisio ar yr hawl rhianta eto ac roedd chwarter o'r teuluoedd wedi manteisio ar yr hawl rhianta yn ystod Tonnau 1 neu 2. Yn yr un modd â Thonnau 1 a 2, roedd mwy o deuluoedd wedi manteisio ar grwpiau neu gyrsiau rhianta (26) na chymorth un-i-un yn y cartref neu mewn canolfan Dechrau'n Deg (15).

3.27 Roedd cymhelliant rhieni ar gyfer mynychu cyrsiau rhianta yn eithaf tebyg ym mhob ton o'r ymchwil. Adroddodd y rhan fwyaf o rieni eu bod yn gobeithio cael gwybodaeth a sgiliau newydd o'r cyrsiau er mwyn gwella eu dulliau rhianta. Adroddodd rhai ohonynt eu bod yn gobeithio ennill tystysgrifau er mwyn gwella eu rhagolygon o ran cael swydd yn y dyfodol. Nododd rhieni eraill yn syml eu bod yn meddwl bod y cyrsiau'n swnio'n ddiddorol neu eu bod yn croesawu'r cyfle i gwrdd â rhieni eraill. Roedd rhieni a oedd o'r farn bod y cyrsiau wedi bod yn ddefnyddiol yn fwy tebygol o fynychu cyrsiau eraill a gynigir.

3.28 Nodwyd rhwystrau tebyg i fynychu cyrsiau rhianta gan rieni ym mhob un o dair ton yr ymchwil. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod cyrsiau rhianta wedi'u trefnu ar adegau nad oeddent yn gyfleus iddynt (e.e. bod y cyrsiau yn cyd-daro â'r amser pan roedd angen iddynt gasglu eu plant o'r ysgol). Roedd rhieni cyflogedig yn tueddu i adrodd y byddent yn fwy tebygol o fynychu cyrsiau rhianta sy'n cael eu cynnal y tu allan i oriau gwaith. Roedd rhai rhieni, yn enwedig y rheiny sydd â mwy nag un plentyn, yn meddwl nad oedd cyrsiau rhianta yn berthnasol i'w sefyllfa, ac roedd ganddynt ganfyddiad eu bod wedi'u hanelu at rieni newydd. Nid oedd rhieni eraill yn ymwybodol o'r mathau o gyrsiau sy'n cael eu cynnig drwy'r Rhaglen.

3.29 Ym mhob un o dair ton yr ymchwil, roedd yn ymddangos bod perthynas rhieni gyda'u Hymwelydd Iechyd yn dylanwadu ar eu tebygolrwydd o ymgysylltu â chyrsiau rhianta. Roedd rhieni yn Nhon 3 a oedd wedi mynychu cyrsiau rhianta yn tueddu i nodi bod eu Hymwelydd Iechyd wedi sicrhau eu bod yn ymwybodol o fanteision posibl cymryd rhan. Fel arfer, roedd y rhieni hyn yn disgrifio'r berthynas rhyngddyn nhw a'u Hymwelydd Iechyd mewn ffordd gadarnhaol ac roedd yn ymddangos bod hyn yn dylanwadu ar ba mor debygol yr oeddent o gymryd rhan. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn cyfweliadau â theuluoedd mewn angen uchel (sy'n cael cyswllt yn fwy aml â'u Hymwelydd Iechyd), ac roedd y rheiny yr oedd ganddynt farn lai cadarnhaol ynghylch eu Hymwelydd Iechyd yn tueddu i roi llai o werth ar fynychu cyrsiau rhianta.

3.30 Mae'n ymddangos bod teuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael llai o gyfleoedd i fynychu cyrsiau rhianta. Gellir cynnig cyfleoedd i rai rhieni fynychu rhaglenni rhianta cyffredinol neu arbenigol a ddarperir drwy raglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf, y gwasanaethau cymdeithasol, neu'r rheiny a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector, elusennau neu sefydliadau eraill (e.e. eglwysi).[18] Yn ogystal, gall yr holl deuluoedd fanteisio ar gymorth, cefnogaeth a chyngor diduedd am ddim ynghylch amrywiaeth o faterion teuluol (e.e. gofal plant) gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.[19]

[18] Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen ymyrraeth gynnar sydd â'r nod o wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf, a lansiwyd yn 2012, yn hybu'r gwaith o ddatblygu pecynnau cymorth amlasiantaeth a chydlynol ac mae'n gweithio gyda'r teulu cyfan i atal problemau rhag dwysáu nes eu bod yn achosi argyfwng.

[19] Gweler: https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/familyinformationservices/?lang=cy (Cyrchwyd 13 Mehefin 2018)

3.31 Roedd tua un o bob tri rhiant (7 allan o 20) yn y **sampl gymharu** wedi ymgysylltu â chyrsiau rhianta. O blith y rhain: roedd pedwar rhiant wedi cymryd rhan mewn sesiynau tylino babanod; roedd tri rhiant wedi cael eu hatgyfeirio at gyrsiau rhianta (cwrs magu plant i rieni, cyrsiau coginio y blynyddoedd rhyfeddol) gan y gwasanaethau cymdeithasol neu drwy gymorth gan elusennau; ac roedd un rhiant wedi mynychu cyrsiau rhianta a gynhaliwyd gan eu hysgol feithrin leol.

> 'Mae'r sesiynau rhianta yn cael eu cynnal gan [ysgol feithrin] ar ôl yr ysgol unwaith yr wythnos. Mae dau athro yn aros ar ôl yr ysgol i gynnal y sesiynau a byddwn yn trafod pwnc fel chwarae, ymddygiad neu fwyta'n iach. Mae'n ddifyr iawn.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

> 'Fe wnaethom gwrs tylino babanod yn [enw'r ysbyty] – cwrs 6 wythnos pan oedd hi'n 8 wythnos oed. Roedd yn braf cwrdd â rhieni eraill a chawsom wybodaeth ddefnyddiol am ddiddyfnu hefyd.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

3.32 Mae'r canfyddiadau yn dangos, mewn cyferbyniad â'r rhieni y cyfwelwyd â nhw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, nad oedd y rhan fwyaf o rieni yn y **sampl gymharu** wedi mynychu cyrsiau rhianta nac wedi ystyried gwneud hynny. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu y byddai rhai rhieni yn y grŵp cymharu wedi hoffi mynychu cyrsiau rhianta, pe byddent yn gwybod am y cyfle i wneud hynny. Roedd cymhelliant y rhai y cyfwelwyd â nhw ar gyfer manteisio ar y mathau hyn o gyrsiau – ennill sgiliau, cymdeithasu a gwella cyflogadwyedd – yn debyg mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad oeddent yn rhai Dechrau'n Deg.

Yr hawl cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC)

3.33 Roedd mwy nag un o bob tri theulu (28) wedi ymgysylltu â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r hawl SLC yn ystod Ton 3 ac roedd deg teulu arall wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau SLC yn ystod Tonnau 1 a 2. Nododd ychydig dan hanner y teuluoedd y cyfwelwyd â nhw yn ystod Ton 3 (32) nad oeddent wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau SLC eto. Roedd y lefelau ymgysylltu â'r hawl hon yn Nhon 3 yn eithaf tebyg i Donnau 1 a 2 ond roedd y math o weithgareddau SLC yr oedd y rhieni wedi'u derbyn ychydig yn wahanol. Roedd mwy o deuluoedd

wedi manteisio ar gymorth gan Therapydd Lleferydd ac Iaith (15)[20] neu gymorth un-i-un arall[21] ynghylch SLC (17) yn ystod Ton 3 ac roedd llai o deuluoedd wedi manteisio ar grwpiau neu gyrsiau SLC (11), o gymharu â'r tonnau blaenorol. Mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig ag oedran y plant mewn teuluoedd Ton 3 a'r ffocws ar ddatblygiad SLC mewn archwiliadau datblygiadol wrth i'r plant agosáu at y Cyfnod Sylfaen.

3.34 Roedd y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi manteisio ar gymorth un-i-un ynghylch SLC wedi'u hatgyfeirio drwy eu Hymwelydd Iechyd ac weithiau gan staff gofal plant. Yn yr un modd â thonnau blaenorol yr ymchwil, adroddodd y rhan fwyaf o rieni eu bod wedi mynychu grwpiau a sesiynau SLC er mwyn cwrdd â rhieni eraill ac er mwyn i'w plant gymdeithasu â phlant eraill o'r un oedran.

3.35 Nid oedd rhai teuluoedd a adroddodd yn flaenorol eu bod wedi mynychu grwpiau SLC wedi eu mynychu ers i'w plentyn ddechrau mynychu gofal plant. O ran rhai o'r rhieni hyn, roedd y sesiynau gofal plant bellach yn darparu'r buddion a gafwyd drwy fynychu sesiynau SLC (e.e. cymdeithasu â phlant eraill). Felly, roedd y rhieni hyn yn teimlo nad oedd angen iddynt fynychu grwpiau SLC mwyach.

3.36 Mae'r canfyddiadau uchod yn awgrymu y manteisiwyd ar yr hawl SLC yn llai aml na'r tair hawl graidd arall yn ystod pob ton o'r ymchwil. Fodd bynnag, dylid nodi bod gwasanaethau a ddarperir dan yr hawl SLC yn aml wedi'u hymwreiddio yn yr hawliau eraill (e.e. darparu gweithgareddau SLC mewn lleoliadau gofal plant gan Therapyddion Lleferydd ac Iaith neu athrawon ymgynghorol; darparu cyngor ac arweiniad ynghylch SLC ar gyrsiau rhianta; Ymwelwyr Iechyd yn modelu arferion da i rieni yn ystod ymweliadau). Felly, fel yr awgrymwyd yn yr adolygiad o'r hawl Datblygiad Iaith Cynnar (Llywodraeth Cymru, 2014b), mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd i rieni eu hadnabod yn wasanaethau SLC penodol.

3.37 Roedd rhieni ym mhob un o dair ton yr ymchwil wedi nodi rhwystrau tebyg i fanteisio ar yr hawl SLC. Y rhwystrau mwyaf cyffredin a nodwyd i fanteisio ar yr hawl SLC oedd: diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn a oedd ar gael; amserlennu grwpiau (e.e. amserau grwpiau yn cyd-daro ag oriau gwaith neu amserau casglu plant o

[20] Mae cymorth Therapi Lleferydd ac Iaith yn cynnwys sesiynau gyda Therapydd Lleferydd ac Iaith, naill ai yn y cartref, mewn lleoliad gofal plant neu mewn canolfan Dechrau'n Deg. Cyfeirir teuluoedd at Therapydd Lleferydd ac Iaith a gyflogir trwy Ddechrau'n Deg neu at wasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith cyffredinol.
[21] Fel arfer, darperir cymorth un-i-un i deuluoedd yn eu cartref gan staff Dechrau'n Deg fel gweithwyr cymorth i deuluoedd. Fel arfer, cyfeirir teuluoedd at y gwasanaeth hwn gan eu Hymwelydd Iechyd os bydd angen cymorth unigol wedi'i deilwra arnynt.

ofal plant/yr ysgol); diffyg amser i fynychu grwpiau; diffyg hyder i fynychu grwpiau ar eu pennau eu hunain; a chanfyddiad nad oedd y grwpiau yn berthnasol iddynt.

3.38 Ni chynigir darpariaeth SLC y gellir ei chymharu â'r ddarpariaeth a gynigir fel rhan o'r hawl SLC i deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae grwpiau SLC mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn amrywio o sesiynau cylch chwarae galw heibio anffurfiol i ddarpariaeth fwy strwythuredig, megis sesiynau iaith a chwarae neu gyrsiau SLC i rieni. Mewn cyferbyniad, mae teuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg yn dueddol o gael cynnig sesiynau galw heibio mwy anffurfiol yn unig (e.e. sesiynau amser stori mewn llyfrgell leol). Isod, mae'r canfyddiadau o ran rhieni cymharu yn canolbwyntio ar y math hwn o ddarpariaeth anffurfiol.

3.39 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni (15 allan o 20) yn y **sampl gymharu** eu bod wedi mynychu grwpiau neu sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar leferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu gyda'u plentyn. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau am ddim sy'n cael eu cynnal gan lyfrgelloedd (e.e. amser stori, amser rhigymau) a chylchoedd chwarae sy'n cael eu cynnal gan grwpiau gwirfoddol neu eglwysi. Adroddodd rhai o'r rhieni hyn eu bod wedi mynychu grwpiau chwarae i helpu eu plentyn i ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol drwy ryngweithio â phlant eraill cyn mynd i'r ysgol. Roedd pedwar o'r teuluoedd yn y sampl gymharu wedi ymgysylltu â gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith.

> 'Rwy'n tueddu i gael gwybod am gylchoedd chwarae a phethau ar Facebook. Mae digon o bethau'n mynd ymlaen yn lleol ar y rhan fwyaf o ddyddiau, ond mae'n rhaid ichi dalu am y rhan fwyaf ohonynt.' Mam, 25-44 oed, sampl gymharu

> 'Hoffwn i fynd i gylchoedd chwarae, ond dydw i ddim yn gallu eu fforddio.' Mam, 21 oed neu iau, sampl gymharu

3.40 Mae'r canfyddiadau yn dangos bod lefelau ymgysylltu uwch â gwasanaethau SLC un-i-un ymhlith y rheiny y cyfwelwyd â nhw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, a bod rhieni yn y sampl gymharu yn fwy tebygol o fod wedi mynychu grwpiau SLC. Fodd bynnag, nid yw cymharu ymgysylltiad â gweithgareddau SLC rhwng rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg yn syml, o gofio bod cyrsiau SLC ffurfiol ar gael yn fwy eang mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o'u cymharu ag ardaloedd cymharu. Ymhellach, gall lefelau ymgysylltu uwch â gofal plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg effeithio ar benderfyniadau rhieni i ymgysylltu â grwpiau SLC. Mae'r canfyddiadau o ran rhieni yn y sampl gymharu

yn awgrymu bod rhai teuluoedd yn manteisio ar grwpiau SLC oherwydd na allant fforddio gofal plant. Pwysleisiodd rhai teuluoedd yn y sampl gymharu eu bod yn mynychu grwpiau SLC am y rheswm hwn, er mwyn i'w plentyn gymdeithasu â phlant o'r un oedran cyn dechrau yn yr ysgol.

Astudiaethau achos: ymgysylltu

3.41 Mae'r astudiaethau achos isod yn cynnwys enghreifftiau o sut mae teuluoedd wedi ymgysylltu â hawliau gwahanol. Mae'r astudiaethau achos yn dangos taith teuluoedd trwy raglen Dechrau'n Deg trwy ddefnyddio data o bob un o'r tri cham gwaith maes. Mae enwau a rhai manylion yn yr astudiaethau achos hyn wedi'u newid er mwyn sicrhau bod pobl yn aros yn ddienw.

**Astudiaeth achos 1: Teulu Ali**

Mae Mr a Mrs Ali yn eu 30au cynnar ac mae ganddynt ddau o blant, y naill yn dair oed a'r llall yn 20 mis oed. Mae'r ddau yn dod o gefndir Dwyrain Canol ac maent wedi bod yn byw yn eu lleoliad presennol ers pedair blynedd. Mae ganddynt rai ffrindiau a theulu sy'n byw yn lleol. Er eu bod yn siarad Arabeg yn y cartref yn bennaf, mae ganddynt rywfaint o sgiliau Saesneg cyfyngedig. Mae'r teulu wedi manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg amrywiol gan gynnwys gofal plant, cyrsiau rhianta a chymorth Ymwelydd Iechyd uwch.

Yn Nhon 2, eglurodd Mrs Ali fod yr Ymwelydd Iechyd wedi nodi yn ystod archwiliad datblygiadol nad oedd lleferydd eu plentyn dwy oed wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig. Trefnwyd iddynt gael cymorth ychwanegol gan Therapydd Lleferydd ac Iaith a gweithiwr teulu yn ystod Ton 3. Darparwyd y sesiynau un i un hyn yn y cartref, ac roedd y teulu o'r farn eu bod wedi gwella lleferydd y plentyn o fewn blwyddyn.

> *'Roedd yr Ymwelydd Iechyd yn wych yn y dechrau. Roedd hi'n ymateb yn syth os oedd gennym unrhyw bryderon. Nid ydym wedi'i gweld mor aml yn ddiweddar, ond fe helpodd gyda'r atgyfeiriad i'r therapydd lleferydd.'*

Hefyd, nododd y teulu fod y cyngor a gawsant gan ddietegydd trwy Dechrau'n Deg yn Nhon 2 wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd eu plentyn. Roedd y dietegydd wedi cynghori'r teulu i roi llai o laeth i'r plentyn, a'i argymell i fonitro pwysau'r plentyn bob chwe mis. Yn Nhon 3, nododd y teulu fod pwysau eu plentyn bellach yn ganolig, diolch i gyngor y dietegydd.

Yn ystod Ton 3, parhaodd plentyn ieuengaf y teulu i fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant trwy'r Rhaglen. Nododd y teulu fod ganddynt brofiadau da iawn o'r ddarpariaeth. Roedd Mrs Ali o'r farn fod ymddygiad y plentyn wedi gwella a'i bod yn gallu rhannu, chwarae a chyfathrebu â'r plant eraill yn well, a'i bod yn fwy hyderus. Hefyd, roedd yn credu bod sgiliau gwrando ei phlentyn wedi gwella'n sylweddol, gan ddisgrifio sut mae'r plentyn yn ceisio egluro storïau i'w chwaer.

> *'Mae'n ymddwyn yn well nawr – nid yw'n cynhyrfu cymaint. Mae'n trafod mwy ac yn dadlau llai.'*

Fe wnaeth Mr a Mrs Ali fynychu cyrsiau rhianta yn ystod Ton 2 a 3, gan gynnwys y Rhaglen Meithrin Rhieni (PNP) yn Nhon 2 a chwrs coginio yn Nhon 3, sydd wedi helpu'r teulu i fwyta bwydydd iach a rheoli ymddygiad eu plant.

> *'Fe wnaethom ni ddysgu cymaint – rydym yn coginio mewn ffordd iachach o lawer erbyn hyn. Rydym wedi dechrau defnyddio llai o halen ac olew. Roedd y cwrs [PNP] yn ddefnyddiol iawn – gan ein helpu i ddefnyddio iaith fwy cadarnhaol, canmol a llunio rheolau i'r teulu. Mae wedi helpu ein mab o ran disgyblaeth – mae'n cynhyrfu'n llai aml ac mae'n fwy cadarnhaol o lawer.'*

Mae Mrs Ali wedi mynychu sesiynau aros a chwarae gyda'i dau o blant. Roedd yn teimlo bod y sesiynau'n gyfle i'w phlant gymysgu ag eraill a chwarae gyda theganau newydd. Hefyd, mae Mrs Ali wedi newid sut mae'n chwarae gyda'i phlant o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd yn y sesiynau aros a chwarae.

Roedd Mrs Ali yn teimlo bod yr Ymwelydd Iechyd, y gweithiwr teulu a'r Therapydd Lleferydd ac Iaith wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd. Dywedodd ei bod hi a'i gŵr yn fwy hyderus ac yn teimlo'n falch o'u plant bellach. Maen nhw wedi gwneud llawer o ffrindiau mewn cylchoedd chwarae lleol, gan gynnwys ffoaduriaid eraill a phobl o gymunedau gwahanol. Nododd Mrs Ali fod cymorth Dechrau'n Deg wedi helpu'r teulu cyfan, ar lefel ymarferol o safbwynt atgyfeiriadau a'u helpu i ddod o hyd i wasanaethau, ac o safbwynt eu llesiant cyffredinol.

**Astudiaeth achos 2: Teulu Edwards**

Mae Sian Edwards a'i gŵr yn byw gyda'u dau o blant – merch dwy oed a mab deufis oed. Mae'r ddau riant yn gweithio ac mae aelodau'r teulu yn byw gerllaw. Roedd Sian ar absenoldeb mamolaeth yn Nhon 3. Roedd beichiogrwydd cyntaf Sian yn anodd a bu'n rhaid iddi aros yn yr ysbyty am gyfnod ar ôl geni'r babi. Roedd yn croesawu'r cymorth ychwanegol gan Ymwelwyr Iechyd ar ôl dod allan o'r ysbyty.

> *'Rwyf wedi cael cymorth anhygoel a gallaf ddibynnu arnyn nhw bob amser.'*

Mae Sian wedi cael problemau'n bwydo ar y fron, ac roedd yn teimlo bod y cymorth a gafodd gan ei Hymwelydd Iechyd wedi ei helpu i barhau i allu gwneud hynny.

> *'Fe ges i amser caled iawn yn bwydo'r babi cyntaf ar y fron, a byddwn wedi rhoi'r gorau iddi heb dderbyn cymorth. Fe ges i gymorth emosiynol gwych gan fy Ymwelydd Iechyd a'm bydwraig, ac fe wnaeth hynny barhau pan ges i fy ail fabi.'*

Pan oedd hi'n feichiog yr ail waith fe gafodd Sian y dewis o gael ymweliadau ychwanegol gan fydwragedd Dechrau'n Deg a bydwragedd nad oeddent yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg. Roedd hi'n hapus i dderbyn cymorth ychwanegol ar ôl derbyn cymorth ar gyfer ei phlentyn hynaf. Dros y tair blynedd diwethaf mae hi wedi bod yn 'hapus iawn' gyda'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd. Yn ystod archwiliad 9 mis ei phlentyn, fe gafodd gyngor ar y camau nesaf ynglŷn â sut i chwarae a siarad â'i phlentyn. Mae hi wedi cael yr un Ymwelydd Iechyd ers tair blynedd ac mae'n cael cyfle i'w gweld mewn cylch chwarae wythnosol gyda rhieni eraill.

> *'Os oedd gen i unrhyw broblemau, fe allwn siarad â hi yno, neu ei ffonio, neu alw yn y ganolfan…. …Fe allwn rannu fy mhryderon â hi heb boeni fy mod yn gwastraffu amser gweithwyr iechyd proffesiynol. Roedden nhw'n ein helpu i deimlo'n fwy hyderus fel rhieni, gan roi sicrwydd i ni gydol y beichiogrwydd.'*

Adeg y cyfweliad Ton 3, roedd plentyn hynaf Sian yn gymwys i dderbyn gofal plant. Roedd hi wedi trafod hyn â'i Hymwelydd Iechyd ond wedi penderfynu na ddylai newid y trefniadau cyn geni'r babi newydd. Roedd am i'w merch ddechrau derbyn y ddarpariaeth gofal plant ychydig ar ôl y cyfweliad Ton 3.

Mae Sian wedi mynychu nifer o gyrsiau Rhianta dros y tair blynedd diwethaf gan gynnwys Babanod Rhyfeddol, Tylino Babanod, Diogelwch yn y Tŷ, Cymorth Cyntaf a chwrs Maetheg. Fe eglurodd sut roedd yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth a gafodd

ar ôl mynychu cyrsiau yn Nhon 1.

> *"Rwy'n dal i ddefnyddio'r sesiynau hyn: mae'r sgiliau cymorth cyntaf a maetheg wedi bod yn ddefnyddiol. Rwy'n defnyddio fy sgiliau tylino babanod gyda'r ddau blentyn os ydyn nhw'n crio neu'n sâl. Mae'r sesiynau hyn yn ffordd wych o feithrin cysylltiad agos â'm plant. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd ers mynychu'r cyrsiau rhianta, ac mae'n braf gallu trafod unrhyw broblemau neu bryderon â rhieni eraill."*

Bu Sian yn mynychu sesiynau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu bob wythnos. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys chwarae synhwyraidd, chwarae blêr a gemau enwi. Trwy fynychu cylchoedd chwarae, mae plentyn Sian wedi cymysgu ag oedolion a phlant eraill, sydd wedi helpu i wella ei leferydd a'i allu i gyfathrebu.

> *'Mae'n siarad mwy ac yn cyfathrebu'n well â staff a phlant eraill. Doeddwn i ddim yn gwybod am bwysigrwydd canu i helpu gyda lleferydd ac iaith cyn mynychu'r grwpiau. Roedd wrth ei fodd yno ac mae wedi gwneud ffrindiau newydd… …fel rhieni roeddem yn teimlo'n rhan o'r holl beth hefyd, gan ymuno yn y gweithgareddau.'*

Mae Sian wedi mynychu rhai cylchoedd chwarae nad ydynt yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg hefyd, ac mae'n credu bod yr awyrgylch mewn sesiynau Dechrau'n Deg 'yn fwy difyr o lawer, gyda mwy o amser i siarad.' Roedd rhywfaint o'r ddarpariaeth leol wedi'i chyflwyno'n ddwyieithog gan fod cymysgedd o rieni Cymraeg a di-gymraeg yn bresennol. Mae hi'n deall Cymraeg ac yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y ddarpariaeth yn ddwyieithog.

Mae Sian yn edrych ymlaen at ei phlentyn hynaf yn dechrau derbyn gofal plant gan y bydd modd iddi 'ganolbwyntio ar ddatblygiad ei mab ieuengaf.' Hefyd, mae'n gobeithio dychwelyd i'r gwaith dros y 6 mis nesaf, a bydd ei mam yn gofalu am ei phlentyn ieuengaf.

> *'Roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus a gwybodus ar ôl defnyddio'r gwasanaethau am y tro cyntaf, ac mae'n dda gwybod eu bod ar gael. Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ni, ac wedi cael mwy o effaith na'r disgwyl. Mae'r holl wasanaethau gwahanol wedi dod ynghyd i wneud bywyd yn haws i ni.'*

**Crynodeb: Ymgysylltu**

Nod yr astudiaeth oedd ceisio deall ymgysylltiad rhieni â hawliau Dechrau'n Deg a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu penderfyniadau i fanteisio ar hawliau gwahanol.

- Roedd ymgysylltiad teuluoedd wedi'i ddylanwadu'n gryf gan oedran ac anghenion plant, cryfder y berthynas â staff Dechrau'n Deg a phrofiadau a hyder rhieni.
- Nododd y rhan fwyaf o deuluoedd Ton 3 fod ganddynt lefelau is o ymgysylltiad â'r hawl i Ymweliadau Iechyd Estynedig gan fod eu plant yn hŷn erbyn hyn. O ganlyniad, roedd eu hymgysylltiad â'r hawl hon yn tueddu i fod yn gysylltiedig yn bennaf ag asesiad dwy neu dair blynedd eu plentyn neu unrhyw broblemau iechyd neu ddatblygiadol penodol posibl.
- Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd wedi dechrau derbyn darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg erbyn Ton 3, ac roedd y rhan fwyaf wedi'i defnyddio (neu'n parhau i'w defnyddio) ers eu cyfweliad Ton 2.
- Ni allai rhai rhieni fanteisio ar yr hawl i ofal plant gan fod amseriad y sesiynau gofal plant yn anghyfleus (oherwydd oriau gwaith fel arfer) ac roedd yn well gan eraill ofalu am eu plant eu hunain.
- Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd wedi manteisio ar yr hawl rhianta ar ryw adeg yn ystod Ton 1, 2 neu 3. Roedd tua thraean wedi manteisio ar yr hawl (neu'n parhau i fanteisio arni) yn ystod Ton 3.
- Nododd rhieni mai cefnogi datblygiad eu plant oedd y prif reswm dros fanteisio ar yr hawliau gofal plant, Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a rhianta.
- Roedd yn ymddangos bod y tebygolrwydd o deuluoedd yn manteisio ar hawliau yn gysylltiedig â'u hyder a'u profiadau o hawliau, yn ogystal â chryfder eu perthynas â staff, yn enwedig Ymwelwyr Iechyd.
- Y prif rwystr i fanteisio ar yr hawl rhianta oedd y ffaith fod amseriad y cyrsiau yn anghyfleus i rai rhieni.
- Nododd tua hanner y teuluoedd eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar ryw adeg yn ystod Ton 1, 2 a/neu 3.
- Yn ystod Ton 3, roedd mwy o deuluoedd wedi derbyn cymorth gan Therapydd Lleferydd ac Iaith neu fath arall o gymorth unigol yn ymwneud â Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC), ac roedd llai o deuluoedd wedi mynychu grwpiau neu gyrsiau SLC o'i gymharu â chamau blaenorol. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith fod datblygiad SLC yn brif ffocws archwiliadau datblygiadol wrth i blant baratoi i ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

- Er eu bod wedi'u cyfweld yn ystod Ton 3 yn unig, mae canfyddiadau cyfweliadau â theuluoedd mewn **ardaloedd cymharu** yn awgrymu eu bod wedi manteisio llai ar wasanaethau cymorth i deuluoedd yn ystod oes eu plentyn.
- Nododd pob un o'r teuluoedd yn y **sampl cymharu** eu bod wedi ymgysylltu â'u Hymwelydd Iechyd, ond nododd rhai nad oeddent wedi cael llawer o ymgysylltiad ac eithrio ar gyfer archwiliadau datblygiadol.
- Roedd ychydig dros hanner (13 o 20) o'r **teuluoedd cymharu** wedi manteisio ar ddarpariaeth gofal plant. Roedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd hyn wedi talu am ofal plant rhan-amser trwy ddarparwr preifat.
- Dywedodd rhieni yn y **sampl cymharu** nad oeddent wedi defnyddio darpariaeth gofal plant gan na allent ei fforddio. Dywedodd y rhieni hyn y byddent wedi defnyddio gwasanaethau gofal plant fwy na thebyg pe na bai'r gost yn rhwystr.
- Roedd tua thraean o **rieni'r sampl cymharu** wedi mynychu cwrs rhianta, gan gynnwys tylino babanod a chyrsiau'n canolbwyntio ar ymddygiad, datblygiad plant a choginio.
- Roedd tua thri chwarter teuluoedd yn y sampl cymharu wedi mynychu grwpiau'n canolbwyntio ar leferydd, iaith a chyfathrebu, fel cylchoedd chwarae neu amser stori.

# 4. Profiadau

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau yn ymwneud â phrofiadau teuluoedd o'r pedair hawl Dechrau'n Deg a'u safbwyntiau ar y gwasanaethau y maent wedi'u defnyddio. Gwneir cymariaethau â chanfyddiadau Tonnau blaenorol yr astudiaeth yn ymwneud â phrofiadau teuluoedd o wasanaethau Dechrau'n Deg. Hefyd, mae'r adran hon yn cynnwys trafodaeth ar ganfyddiadau cyfweliadau â theuluoedd cymharu yn ymwneud â'u profiadau o wasanaethau cymorth i deuluoedd. Gwneir cymhariaeth rhwng profiadau teuluoedd yn y brif sampl a'r sampl cymharu.

4.2 Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd i rieni yn y brif sampl a'r sampl cymharu nodi lefel eu bodlonrwydd â'r gwasanaethau gwahanol roeddent wedi'u defnyddio. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r lefelau bodlonrwydd fel cyfartaledd pob un o'r hawliau. Er bod y dull hwn yn rhoi syniad bras o fodlonrwydd cyffredinol teuluoedd â hawliau Dechrau'n Deg, mae ganddo ei gyfyngiadau hefyd. Er enghraifft, gall y dull hwn o hunan adrodd lywio ymatebion, ac mae rhai rhieni wedi tueddu i ymateb mewn ffordd benodol waeth beth yw eu lefelau bodlonrwydd mewn gwirionedd. Hefyd, mae'n bosibl bod rhieni wedi dehongli'r raddfa un i ddeg mewn ffordd wahanol. Gallai hyn arwain at rieni sydd â'r un lefel o fodlonrwydd yn nodi sgoriau bodlonrwydd gwahanol, ac i'r gwrthwyneb.

**Yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV)**

4.3 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl EHV yn debyg i'w profiadau a nodwyd yn ystod dwy Don gyntaf yr astudiaeth. Cyfeiriodd y rhan fwyaf at brofiadau cadarnhaol yn ymwneud â'r hawl hon, ac roedd lefel eu bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaeth yn uchel.

4.4 Ar gyfartaledd, roedd sgôr bodlonrwydd rhieni â'r hawl EHV yn 8.3 allan o 10, o'i gymharu â sgôr cyfartalog o 8.9 yn Nhon 1 ac 8.7 yn Nhon 2. Mae hyn yn awgrymu bod rhieni a gafodd eu cyfweld yn Nhon 3 wedi nodi lefel debyg o fodlonrwydd â'r hawl EHV â rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod dwy Don gyntaf yr astudiaeth.

4.5 Yn gyffredinol, mae cysylltiad teuluoedd â'u Hymwelydd Iechyd wedi lleihau wrth i'w plant dyfu ac anghenion cymorth y teulu leihau. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rhieni yn fodlon â lefel eu cysylltiad â'u Hymwelydd Iechyd.

‘Oni bai bod gennych chi broblem, ‘dyn nhw ddim yn cysylltu, sy’n beth da mewn gwirionedd. Maen nhw yno i’r bobl sydd eu hangen. Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

‘Pe bai’r Ymwelydd Iechyd yn parhau i ddod yn rheolaidd, byddwn yn teimlo fy mod yn gwastraffu ei amser.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

4.6 Mae’r canfyddiad hwn yn parhau â’r patrwm ar gyfer lefel y cysylltiad ag Ymwelwyr Iechyd a nodwyd gan rieni mewn cyfweliadau Ton 2. Hefyd, mae’n cyd-fynd â chanllawiau Dechrau’n Deg sy’n nodi bod angen llai o gysylltiad ag Ymwelydd Iechyd fel arfer o dan y Rhaglen graidd wrth i blant dyfu (gweler troednodyn 15).

4.7 Roedd nifer fach o rieni wedi cael mwy o gysylltiad â’u Hymwelydd Iechyd ers y cyfweliad Ton 2. Roedd hyn yn deillio o broblemau teuluol neu bryderon newydd a oedd yn golygu bod angen cymorth ychwanegol gan Ymwelydd Iechyd arnynt, neu oherwydd y ffaith fod babi newydd yn y teulu ers y cyfweliad Ton 2.

4.8 Waeth faint o gysylltiad a gafodd pobl â’u Hymwelydd Iechyd, nododd y rhan fwyaf eu bod yn gwybod y gallent gysylltu â’u Hymwelydd Iechyd os oedd angen, ac roedd y ffaith fod cymorth o’r fath ar gael yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

‘Fe wnaeth yr Ymwelydd Iechyd bwysleisio bod croeso i mi gysylltu ag e os oedd angen.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

4.9 Dywedodd rhai pobl eu bod yn teimlo’n fwy hyderus fel rhieni oherwydd eu bod yn gwybod bod cymorth ar gael iddynt.

‘Mae’r ffaith fy mod yn gallu codi’r ffôn a siarad â rhywun yn rhoi tawelwch meddwl i mi...dwi ddim yn meddwl y byddwn yn teimlo’n hyderus o gwbl heb wybod bod cymorth ar gael.’ Mam, 25 oed, Teulu mewn angen isel

4.10 Roedd gan lawer o rieni rhif ffôn symudol neu linell uniongyrchol i allu cysylltu â’u Hymwelydd Iechyd. Roedd rhieni eraill wedi cael rhif swyddfa’r ganolfan Dechrau’n Deg er mwyn cysylltu â’r Ymwelydd Iechyd. Roedd rhieni â rhif ffôn symudol neu linell uniongyrchol yn fwy tebygol o ffonio os oedd angen cymorth arnynt gan eu Hymwelydd Iechyd oherwydd eu bod wedi cael ymateb cyflymach a chanlyniad mwy cadarnhaol i’w cais am gymorth yn y gorffennol.

4.11 Yn ôl y rhan fwyaf o rieni sydd wedi cysylltu â’u Hymwelydd Iechyd am gymorth, maent wedi llwyddo i siarad â’u Hymwelydd Iechyd yn syth, neu wedi gadael neges a chael ateb yn ôl yn fuan wedyn.

‘Os oes angen cymorth arnaf, mae hi’n trefnu apwyntiad yn syth bin. Mae hi’n dda iawn ac mor hyfryd. Pan fyddaf yn ei ffonio hi, mae’n dod allan i’m gweld. Mae hi’n gwneud ei gorau glas i helpu.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

‘Rwy’n anfon neges destun ati os oes angen cymorth arnaf ac mae hi’n ateb yn syth.’ Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

4.12 Yn debyg i Gamau 1 a 2, dywedodd rhieni eu bod wedi derbyn amrywiaeth eang o gymorth gan eu Hymwelydd Iechyd. Mewn llawer o achosion, roedd y math o gymorth yr oedd ei angen ar deuluoedd ers y cyfweliadau Ton 2 yn tueddu i ddibynnu ar oedran y plant. Er enghraifft, gan fod plant y teuluoedd dwy flynedd yn hŷn erbyn Ton 3, roedd angen llai o gyngor arnynt ar faterion fel bwydo ar y fron a diddyfnu, a mwy o gyngor ar faterion fel rheoli ymddygiad, cwblhau ffurflenni cais ysgolion, cymorth i nodi materion datblygiadol neu iechyd a gwneud apwyntiadau gyda’r meddyg neu atgyfeiriadau.

> ‘Fe ges i lawer o gymorth gan yr Ymwelydd Iechyd pan oedd fy mab yn methu cysgu.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel
>
> ‘Fe ges i gyngor defnyddiol iawn ganddi ar fwyd bys a bawd a chymorth i ddod o hyd i ddeintydd a lle mewn meithrinfa.' Mam, Teulu mewn angen isel
>
> ‘Bob tro rydym wedi gofyn am rywbeth, maen nhw wedi ymateb yn gyflym.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.13 Yn aml, cyfeiriodd rhieni at y cymorth emosiynol a gawsant gan eu Hymwelydd Iechyd. Roedd y cymorth hwn yn tueddu i fod ar ffurf anogaeth eu bod yn rhieni da sy’n gweithredu yn unol â’r disgwyl.

> ‘Mae hi’n fy nghanmol ac yn dweud fy mod yn llwyddo fel mam, yn hytrach na beirniadu neu fychanu.’ Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel
>
> 'Fe allwn rannu fy mhryderon â hi, heb boeni fy mod yn gwastraffu amser gweithwyr iechyd proffesiynol.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.14 Yn gyffredinol, roedd rhieni yn fodlon â’r cymorth a gawsant gan eu Hymwelydd Iechyd. Mae’r cysylltiadau cadarnhaol a nodwyd gan rieni yn Nhonnau blaenorol yr astudiaeth wedi parhau yn Nhon 3. Yn debyg i’r hyn a nodwyd yng nghyfweliadau Ton 1 a 2, cyfeiriodd rhai rhieni at y ffaith fod eu Hymwelydd Iechyd yn gyfeillgar, yn hawdd mynd ati ac nad oedd yn eu barnu.

'Dyw'r Ymwelydd Iechyd ddim yn barnu ac rwy'n gallu dweud unrhyw beth wrthi. Mae'n braf siarad â rhywun arall... Pan fyddaf yn mynd yno ac yn dweud fy mod yn poeni am hyn a'r llall, mae'r Ymwelydd Iechyd yn fy sicrhau fy mod yn gwneud yn dda ac nad oes angen poeni... Mae'n hawdd iawn siarad â nhw... Roedd yn dda gwybod bod rhywun heblaw am fy ngŵr ar gael i roi cymorth i mi.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

4.15 Gan ei bod yn hawdd i bobl fynd at eu Hymwelydd Iechyd, roedd y rhan fwyaf o rieni yn teimlo y gallent ymddiried yn eu Hymwelydd Iechyd a gofyn am gymorth.

'Bob tro rwy'n gweld [enw'r Ymwelydd Iechyd] mae'n gyfle i mi ofyn tua 50 o gwestiynau – mae hi'n wych.' Mam, Teulu mewn angen isel

'Mae [enw'r Ymwelydd Iechyd] yn anhygoel, mae'n onest a 'dyw e ddim yn fy marnu o gwbl. Rwy'n ymddiried ynddo, ac rwyf wedi rhannu pryderon ag e sawl gwaith.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.16 Yn ôl un rhiant, roedd ei pherthynas â'r Ymwelydd Iechyd yn debyg i gyfeillgarwch.

'Roedd yn debyg i ffrind yn galw yma am sgwrs. Mae popeth yn cael ei wneud a'i egluro mewn ffordd gyfeillgar.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.17 Dywedodd llawer o deuluoedd fod eu Hymwelydd Iechyd wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau eraill ers y cyfweliad Ton 2. Gwasanaethau Dechrau'n Deg oedd y rhan fwyaf ohonynt, fel grwpiau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Therapydd Lleferydd ac Iaith, a chymorth neu gyrsiau rhianta. Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd a oedd wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau eraill yn credu na fyddent wedi derbyn y cymorth mor gyflym, os o gwbl, oni bai am atgyfeiriad yr Ymwelydd Iechyd.

'Oni bai am yr Ymwelydd Iechyd, rwy'n amau a fyddwn wedi cael y cymorth gofynnol.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.18 Er bod y rhan fwyaf o rieni wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â'u profiadau o'r hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig, roedd nifer fach wedi cael profiadau negyddol. Yn debyg i Gamau blaenorol yr astudiaeth, roedd y safbwyntiau negyddol yn tueddu i ymwneud â materion cyfathrebu, yn enwedig anawsterau cyfathrebu â'r Ymwelydd Iechyd. Roedd hyn yn tueddu i ddigwydd os oedd gan rieni rif ffôn swyddfa yn hytrach na rhif ffôn symudol eu Hymwelydd Iechyd, neu os oedd aelodau staff wedi newid. Roedd y nifer fach o rieni hyn yn

teimlo nad oeddent wedi cael y cymorth gofynnol gan na allent gysylltu â'u Hymwelydd Iechyd. Yn ogystal, roedd un rhiant yn credu y gallai ei Ymwelydd Iechyd fod wedi meddwl nad oedd angen cymorth arnynt achos bod ganddynt blant yn barod a'u bod yn gwybod beth i'w wneud.

> 'Mae'n bosibl eu bod yn meddwl nad oes angen help arna i am fod gen i bedwar plentyn arall. Ond mae pob plentyn yn wahanol, a byddai wedi bod yn dda cael cymorth.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.19 Nododd nifer fach o rieni a oedd wedi cael profiadau negyddol gyda'u Hymwelydd Iechyd eu bod yn teimlo bod yr Ymwelydd Iechyd yn eu barnu neu nad oedd yn gwrando arnynt.

4.20 Ar gyfartaledd, roedd **teuluoedd cymharu** wedi rhoi sgôr bodlonrwydd o 7.2 i'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd, o'i gymharu â'r sgôr gyfartalog o 8.3 allan o 10 a nodwyd gan brif sampl Ton 3. Mae hyn yn dangos bod lefelau bodlonrwydd y prif sampl ychydig yn uwch na lefelau'r sampl cymharu.

4.21 Roedd rhieni yn y sampl cymharu wedi cael llai o gyswllt rheolaidd â'u Hymwelydd Iechyd o'i gymharu â'r brif sampl. Hefyd, roeddent yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi cael mwy nag un Ymwelydd Iechyd. I rai teuluoedd, roedd y diffyg dilyniant wedi arwain at rwystredigaeth wrth egluro unrhyw broblemau i Ymwelydd Iechyd newydd.

> 'Rwyf wedi cael llawer o Ymwelwyr Iechyd gwahanol yn y gorffennol, ond rwyf wedi cael yr un Ymwelydd Iechyd ers dros flwyddyn bellach. Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr.' Mam, 22-24 oed, sampl cymharu

> 'Rwy'n gweld Ymwelydd Iechyd gwahanol bob tro felly mae'n rhaid i mi egluro pethau eto ac ailadrodd fy hun. O ganlyniad, mae'n anodd datblygu perthynas'. Mam, 25-44 oed, sampl cymharu

4.22 Nododd y rhan fwyaf o rieni yn y sampl cymharu eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth Ymwelydd Iechyd o safbwynt amlder cysylltiad, lleoliad clinigau ac ansawdd y cyngor a'r cymorth a gynigiwyd.

> 'Rwy'n tueddu i weld fy Ymwelydd Iechyd yn y clinig tua unwaith y mis. Fe ges i gymorth mawr ganddi gyda diddyfnu ac wrth annog fy mhlentyn i fynd i'r toiled.' Mam, 21 oed neu iau, sampl cymharu

'Mae'n dda cael ychydig o gwmni. Mae hi'n gwneud i bopeth ymddangos mor hawdd, er ei bod yn anodd mewn gwirionedd.' Mam, 21 oed neu iau, sampl cymharu

4.23 Roedd rhieni Dechrau'n Deg yn tueddu i ddisgrifio eu profiad o gymorth Ymwelwyr Iechyd yn nhermau 'perthynas' yn amlach na rhieni yn y sampl cymharu. Hefyd, roeddent yn fwy tebygol o fyfyrio ar enghreifftiau o gael eu cyfeirio i wasanaethau eraill neu gael cymorth i ddefnyddio gwasanaethau (e.e. gyda'r Ymwelydd Iechyd yn gweithredu fel cyfrwng rhwng y rhiant a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill). Gall y canfyddiad hwn adlewyrchu llwythi achosion llai a'r ffaith fod gan rieni gysylltiad mwy rheolaidd ag Ymwelwyr Iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o'i gymharu â Rhaglen Plant Iach Cymru (gweler troednodyn 17).

4.24 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai cyswllt mwy rheolaidd ag Ymwelwyr Iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg arwain at fwy o gyfleoedd i Ymwelwyr Iechyd gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth. Hefyd, mae'n gyson â'r duedd i deuluoedd yn y brif sampl gael mwy o gysylltiad â gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn gyffredinol; roedd rhieni yn y sampl cymharu wedi nodi llai o enghreifftiau o'u Hymwelydd Iechyd yn eu hatgyfeirio o un gwasanaeth cymorth i deuluoedd i wasanaeth arall.

**Yr hawl gofal plant**

4.25 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl Gofal Plant yn debyg i'r profiadau a nodwyd ganddynt yn ystod dwy Don gyntaf yr astudiaeth. Nododd y rhan fwyaf eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o'r hawl, ac roedd lefel eu bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaeth yn uchel.

4.26 Ar gyfartaledd, roedd sgôr bodlonrwydd rhieni â'r hawl gofal plant yn 9.5 allan o 10, o'i gymharu â sgôr gyfartalog o 9.2 yn Nhon 1 a 9.6 yn Nhon 2. Mae hyn yn awgrymu bod rhieni a gafodd eu cyfweld yn Nhon 3 wedi nodi lefel debyg o fodlonrwydd â'r hawl gofal plant â rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod dwy Don gyntaf yr astudiaeth.

'Maen nhw mor dda gyda'r plant. Fyddwn i ddim yn rhoi fy mhlentyn mewn lleoliad os nad oeddwn i'n hapus ag e. Hwn yw'r dewis gorau. Byddwn i'n rhoi marc o filiwn allan o ddeg iddynt os oedd modd!' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

4.27 Bu rhieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant yn myfyrio ar y ffaith fod eu plant yn mwynhau'r sesiynau gofal plant, gan roi enghreifftiau o hoff weithgareddau eu plant yno. Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi'u plesio â'r ffaith fod eu plant yn mwynhau eu hunain yn y sesiynau gofal plant.

'Bob dydd mae fy mhlentyn yn dod adref gyda gwên ar ei hwyneb.' Mam, Teulu mewn angen isel

'Mae fy mhlentyn yn mwynhau ei hun, felly rwy'n hapus hefyd.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

4.28 Roedd rhieni'n hapus i fynd â'u plant i'r ddarpariaeth gofal plant oherwydd eu bod yn ymddiried yn y staff.

'Mae wedi bod yn anhygoel. Mae'n teimlo fel mynd â'm mhlentyn i dŷ fy ffrind. Byddwn i'n argymell y ddarpariaeth cyn ysgol yn gryf. Mae wedi fy helpu fel rhiant.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.29 Nododd llawer o rieni fod y staff gofal plant yn broffesiynol, yn gyfeillgar a'u bod yn cyfathrebu â nhw'n rheolaidd ynglŷn â datblygiad eu plant ac unrhyw broblemau posibl.

'Mae'r feithrinfa wedi bod yn gwbl wych. Rwy'n cael gwybod am weithgareddau fy mhlentyn, ac yn cael lluniau y mae'n eu gwneud yno.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

'Rydym ni'n cael gwybodaeth bob dydd am ei weithgareddau yno. Mae'n hyfryd gweld beth mae e wedi'i wneud. Hefyd, maen nhw'n annog rhieni i ysgrifennu negeseuon yn y llyfr nodiadau. Maen nhw'n ffonio'n syth os oes angen trafod rhywbeth pwysig.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae'r staff yn rhoi gwybod am holl gynnydd ein plentyn, ac rydym yn cael mwy na digon o wybodaeth ganddyn nhw.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.30 Dywedodd rhai rhieni fod y staff gofal plant wedi dod yn rhan bwysig o dîm rhianta'r teulu.

'Maen nhw wedi dod yn ail ran y tîm rhianta.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Maen nhw'n gwneud pethau yn y ddarpariaeth gofal plant na fyddwn i'n meddwl eu gwneud gyda'r plant.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

4.31 Dywedodd y rhan fwyaf o rieni fod y cyfleusterau mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg o safon uchel, a dywedodd rhai fod y ddarpariaeth wedi'i lleoli mewn adeilad newydd neu fod cyfarpar newydd sylweddol ar gael.

4.32 Roedd rhieni'n croesawu'r ddarpariaeth gofal plant am ei bod yn rhoi 'seibiant' iddynt o'u dyletswyddau rhianta am ychydig oriau bob dydd. Yn debyg i donnau blaenorol yr astudiaeth, yn ystod cyfweliadau Ton 3, dywedodd rhieni fod ganddynt gyfle i wneud gwaith tŷ, siopa, gweithio, treulio amser gyda phlant iau neu ymlacio a chael rhywfaint o amser iddyn nhw eu hunain tra bod eu plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth gofal plant. Yn ogystal â bod yn bwysig i lesiant rhieni, dywedodd rhai rhieni fod yr amser hwn yn golygu bod modd iddynt wneud y gwaith tŷ tra bod eu plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth gofal plant, a bod ganddynt fwy o amser i'w dreulio ag e wedyn yn y cartref.

> 'Mae'n rhoi amser i mi lanhau'r tŷ. Hefyd, rwy'n cael amser i eistedd i lawr ac yfed paned, heb orfod tawelu plentyn sy'n sgrechian. Mae hynny'n hyfryd iawn. Fe allaf fynd i weld fy ffrindiau yn ystod y ddwy awr. Fe allaf fynd i siopa hefyd, sy'n dda achos bod siopa gyda phlant yn anodd iawn.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Mae'n dda cael llonydd am ychydig oriau.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.33 Yn debyg i ganfyddiadau tonnau blaenorol yr astudiaeth, ychydig iawn o rieni a wnaeth sylwadau negyddol ynglŷn â'r ddarpariaeth gofal plant. Roedd y sylwadau negyddol yn ymwneud â materion penodol fel amser anghyfleus y sesiynau gofal plant neu ddymuniad rhieni i gael rhagor o wybodaeth gan staff am gynnydd eu plant.

4.34 Y prif wahaniaeth rhwng profiadau teuluoedd o'r hawl gofal plant yn Nhon 3 o'i gymharu â thonnau blaenorol yr astudiaeth oedd y ffaith fod gan fwy o rieni blant a oedd wedi gorffen mynychu darpariaeth gofal plant ac wedi dechrau mewn meithrinfa neu'r ysgol. Roedd y rhieni hyn yn gallu gwneud sylwadau ar sut oedd yr hawl gofal plant wedi paratoi eu plentyn ar gyfer pontio i'r Cyfnod Sylfaen. Y prif bwynt a nodwyd gan rieni o safbwynt y newid hwn oedd bod yr hawl gofal plant wedi galluogi eu plentyn i ddod i arfer â'r drefn o fynychu meithrinfa neu ysgol heb ei rieni. Nododd rhai rhieni fod eu plant wedi gwneud ffrindiau yn y lleoliad gofal plant a'u bod wedi mynychu'r un feithrinfa neu ysgol wedyn, gan ei gwneud yn haws iddynt deimlo'n gartrefol yno.

> ‘Roedd yn haws i’m mhlentyn drosglwyddo i feithrinfa’r wladwriaeth.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

> ‘Roedd y plant wedi’u paratoi’n wych ar gyfer y feithrinfa wedyn.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

4.35 Roedd llai o deuluoedd yn y **sampl cymharu** wedi defnyddio darparwyr gofal plant o’i gymharu â’r **brif sampl**. Ar gyfartaledd, roedd sgôr bodlonrwydd 13 o’r 20 o deuluoedd cymharu a oedd wedi defnyddio darparwyr gofal plant yn 9.3 allan o 10, o’i gymharu â sgôr gyfartalog o 9.5 allan o 10 a nodwyd ym mhrif sampl Ton 3. Felly, roedd lefelau bodlonrwydd rhieni yn y brif sampl a’r sampl cymharu yn uchel o safbwynt y darparwyr gofal plant a ddefnyddiwyd ganddynt.

4.36 Nododd ychydig o rieni yn y sampl cymharu nad oedd dewis digonol o ddarparwyr ar gael yn eu hardal, a bod angen iddynt deithio ymhellach ar gyfer gofal plant o ansawdd uchel.

> 'Mae meithrinfeydd poblogaidd yn llenwi’n gyflym iawn ac mae angen adnewyddu rhai meithrinfeydd.' Mam, 25-44 oed, sampl cymharu

> ‘Rydym wrth ein bodd â [enw’r feithrinfa]. Mae yna ardal chwarae awyr agored ac mae’r staff yn siarad Cymraeg. Byddem wedi hoffi i’n plentyn fynychu am fwy o ddiwrnodau pe bai’r cyllid ar gael.’ Tad, 25-44 oed, Sampl cymharu

4.37 Mae’r canfyddiadau uchod yn awgrymu bod gan rieni cymharu lefelau bodlonrwydd tebyg os yw darpariaeth gofal plant ar gael ac yn fforddiadwy. Felly, mae’r canfyddiadau’n awgrymu bod ansawdd y ddarpariaeth gofal plant a gyrchwyd gan deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau’n Deg yn dda, ond ei bod yn anodd i rai rhieni fanteisio ar y ddarpariaeth.

### Hawl rhianta

4.38 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o’r Hawl rhianta yn debyg i’r hyn a nodwyd yn ystod dwy Don gyntaf yr astudiaeth. Roedd y rhan fwyaf wedi cael profiadau cadarnhaol o’r hawl ac roedd eu bodlonrwydd cyffredinol o’r gwasanaeth yn uchel.

4.39 Ar gyfartaledd, roedd sgôr bodlonrwydd rhieni â’r Hawl rhianta yn 9.1 allan o 10, o’i gymharu â sgôr gyfartalog o 8.6 yn Nhon 1 a 9.2 yn Nhon 2. Mae hyn yn

awgrymu bod lefel bodlonrwydd â’r Hawl rhianta ymysg rhieni a gafodd eu cyfweld yn Nhon 3 yn debyg i lefel bodlonrwydd rhieni a gafodd eu cyfweld ar gyfer dwy Don gyntaf yr astudiaeth.

4.40 Yn debyg i’r canfyddiadau a nodwyd yn nhonnau blaenorol yr astudiaeth, roedd y rhan fwyaf o rieni a fanteisiodd ar yr hawl rhianta yn gwerthfawrogi’r cymorth a gawsant, gan ddweud ei fod yn ddefnyddiol ac yn fuddiol.

4.41 Roedd teuluoedd wedi mynychu cyrsiau amrywiol, gan gynnwys Meithrin Rhieni, ‘Blynyddoedd Rhyfeddol’, cyrsiau coginio a dosbarthiadau dylino babanod. Roedd y rhan fwyaf o’r rhieni yn teimlo eu bod wedi dysgu sgiliau newydd neu wedi ennill gwybodaeth trwy fynychu’r cyrsiau hyn.

> ‘Rwyf wedi dysgu cymaint am sut i ymdopi ag ymddygiad y plant. Rwyf wedi dysgu sut i’w disgyblu a’u canmol.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> ‘Fe wnaethon nhw fy addysgu sut i chwarae gyda fy mhlant a’u hannog i siarad.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

> 'Roedd y cwrs yn gwbl wych, gan ddangos i ni sut i siarad â’n plant, defnyddio canmoliaeth gadarnhaol, defnyddio ‘amser allan’ a’u haddysgu am ddewisiadau a chanlyniadau. Hefyd, fe gawsom lyfrau i gyd-fynd â thasgau’r cwrs a gwaith cartref.' Mam, Teulu mewn angen isel

> ‘Fe ddysgais lawer, yn enwedig tactegau fel ‘amser allan’ a sut i sicrhau bod plant yn mynd i’r toiled.’ Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

4.42 Fel y nodwyd yn nhonnau blaenorol yr astudiaeth, yn ogystal â dysgu sgiliau neu wybodaeth newydd trwy fynychu’r cyrsiau, roedd rhieni’n gwerthfawrogi’r cyfle i gyfarfod â rhieni eraill a rhannu profiadau.

> 'Fe ges i gyfle i gyfarfod â rhieni eraill a siarad gyda nhw. Mae’n dod â phobl at ei gilydd. Rwyf wedi gwneud ffrind neu ddau yno, ac mae’n braf meithrin cysylltiad â mamau eraill yn yr ardal.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> ‘Fe wnes i fwynhau’r cwrs. Roedd yn llawn gwybodaeth. Roeddwn i’n teimlo mor ynysig o’r blaen, ond fe wnes i gyfarfod â theuluoedd eraill yn ystod y cwrs.’ Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

4.43 Roedd rhai pobl a oedd wedi mynychu cyrsiau rhianta yn ystod tonnau blaenorol yr astudiaeth wedi nodi eu bod yn parhau i ddefnyddio rhywfaint o'r cyngor a gawsant yn y cyrsiau.

> 'Fe wnes i fynychu'r dosbarthiadau ymddygiad. Roedd yn dda gwrando ar safbwyntiau gwahanol. Rwy'n parhau i ddefnyddio rhywfaint o'r cyngor a ges i yn y dosbarth.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.44 Roedd nifer fach o rieni yn ei chael yn anodd cofio cynnwys y cwrs, ac yn awgrymu y byddai cwrs diweddaru dilynol yn ddefnyddiol. Roedd un rhiant wedi manteisio ar y cyfle i fynychu'r cwrs meithrin dwywaith. Y tro cyntaf, roedd y rhiant yn teimlo nad oedd ei phlentyn yn ddigon hen iddi allu gweithredu'r cyngor a gafodd yn ystod y cwrs. O ganlyniad, penderfynodd fynychu'r cwrs eto'r flwyddyn ganlynol, fel cwrs diweddaru, pan oedd oedran y plentyn yn addas iddi allu gweithredu'r cyngor.

4.45 Fel y nodwyd yn nhonnau blaenorol yr astudiaeth, roedd argaeledd cyfleuster crèche yn bwysig er mwyn sicrhau bod rhieni yn gallu mynychu cyrsiau. Yn ystod cyfweliadau Ton 3, eglurodd un neu ddau o rieni fod mynychu'r crèche yn gyfle i'w plant dreulio ychydig o amser hebddynt, a bod hyn yn helpu i'w paratoi i fynychu darpariaeth gofal plant maes o law.

4.46 Yn debyg i donnau blaenorol yr astudiaeth, roedd ychydig o rieni wedi cael cynnig cymorth rhianta un i un o fath gwahanol a oedd yn fwy addas i ddiwallu anghenion penodol pob teulu. Fel arfer, roedd yr Ymwelydd Iechyd yn atgyfeirio'r teuluoedd hyn i gymorth o'r fath. Roedd y math o gymorth rhianta un i un yr oedd ei angen ers cyfweliadau Ton 2 yn tueddu i gynnwys materion fel rheoli ymddygiad a hyfforddiant toiled. Roedd rhieni'n llai tebygol o fod angen cymorth ar gyfer materion fel diddyfnu a bwydo ar y fron o'i gymharu â'r cyfweliadau yn Nhon 2 oherwydd bod y plant flwyddyn yn hŷn ac roedd y cyfnod rhianta hwn drosodd i'r rhan fwyaf o deuluoedd.

4.47 Roedd gan y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi derbyn cymorth rhianta un i un safbwyntiau cadarnhaol ar ddefnyddioldeb y wybodaeth a'r cyngor a gawsant. Fel sy'n wir am y tonnau blaenorol, roedd rhieni a oedd wedi derbyn cymorth un i un yn y cartref yn gwerthfawrogi hyn yn benodol. Roedd hyn yn berthnasol iawn i nifer o rieni a nododd eu bod yn swil ac yn nerfus am gyfarfod â phobl newydd ac felly'n teimlo'n anghyfforddus wrth feddwl am fynychu cyrsiau rhianta mewn lleoliad grŵp.

4.48 Er bod llai o rieni yn y **sampl cymharu** wedi mynychu cyrsiau rhianta, roedd y saith rhiant a oedd wedi mynychu cyrsiau yn nodi bod eu profiadau o'r sesiynau hyn yn gadarnhaol. Dywedodd rhieni eu bod wedi dysgu sgiliau a strategaethau newydd a'u bod yn parhau i'w defnyddio gyda'u plant (e.e. rhianta cadarnhaol, canmol eu plentyn, defnyddio siartiau sêr). Roedd sgôr bodlonrwydd â'r cyrsiau rhianta ymysg rhieni yn y sampl cymharu yn 9.0 allan o 10 ar gyfartaledd, o'i gymharu â sgôr gyfartalog o 9.1 allan o 10 ym mhrif sampl Ton 3. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith fod y rhieni hyn wedi mynychu cyrsiau tebyg i rieni yn y brif sampl (h.y. tylino babanod, blynyddoedd rhyfeddol, cwrs meithrin rhieni, blynyddoedd rhyfeddol babanod).

> 'Fe ges i fy atgyfeirio i gwrs meithrin rhianta 12 wythnos trwy [enw elusen]… …Roedd yn braf gwrando ar safbwyntiau gwahanol… …rhianta cadarnhaol, siartiau sêr. Roedd crèche ar gael am 3 awr hefyd'. Mam, 21 oed neu iau, Sampl cymharu

> 'Fe wnes i fynychu sesiynau tylino babanod ychydig o weithiau diolch i'm mydwraig. Rydych chi'n teimlo'n llai ynysig.' Mam, 25-44 oed, Sampl cymharu

**Yr hawl cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLC)**

4.49 Yn gyffredinol, roedd profiadau teuluoedd o'r hawl SLC yn debyg i'w profiadau a nodwyd yn ystod dwy Don gyntaf yr astudiaeth. Nododd y rhan fwyaf fod ganddynt brofiadau cadarnhaol o'r hawl hon, ac roedd lefel eu bodlonrwydd cyffredinol â'r gwasanaeth yn uchel.

4.50 Ar gyfartaledd, roedd sgôr bodlonrwydd rhieni â'r hawl SLC yn 9.1 allan o 10, o'i gymharu â sgôr gyfartaledd o 9.0 allan o 10 yn Nhonnau 1 a 2. Mae hyn yn awgrymu bod rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod Ton 3 wedi nodi bod lefel eu bodlonrwydd â'r hawl SLC yn debyg i lefel bodlonrwydd rhieni a gafodd eu cyfweld ar gyfer dwy Don gyntaf yr astudiaeth.

4.51 Roedd sylwadau'r rhan fwyaf o rieni ar y grwpiau neu'r cyrsiau SLC roeddent wedi'u mynychu yn gadarnhaol. Yn bennaf, roedd y sylwadau hyn yn ymwneud â pha mor bleserus a buddiol oedd y sesiynau hyn i deuluoedd. Yn ystod cyfweliadau Ton 3 yn benodol, dywedodd teuluoedd a oedd wedi mynychu grwpiau SLC yn ystod tonnau blaenorol yr astudiaeth fod mynychu'r grwpiau

gyda'u plentyn wedi helpu i'w baratoi ar gyfer yr hawl gofal plant maes o law. Ffactor allweddol yn y cyswllt hwn oedd bod y teuluoedd hyn yn credu bod y grwpiau SLC yn gyfle i'w plant gymdeithasu â phlant eraill. Roedd yn gyfle i'r plant flasu amgylchedd tebyg i leoliad gofal plant ond bod rhiant wrth law.

> 'Fe wnaeth e fwynhau'r sesiynau yn fawr gan wneud ffrindiau newydd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.52 Dywedodd rhai rhieni fod y sesiynau SLC yn gyfle i'w plant flasu gweithgareddau na fyddent wedi'u profi fel arall. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau y mae rhieni'n amharod i ymgymryd â nhw yn y cartref neu nad oeddent wedi meddwl amdanynt cyn mynychu'r sesiynau SLC. Roedd y rhieni hyn yn gwerthfawrogi sut oedd y grwpiau'n cyflwyno eu plant i weithgareddau a phrofiadau newydd.

> 'Mae'n dda dysgu pethau newydd, ac mae'n bwysig bod y plant yn cael profiad o chwarae blêr, nad oedd yn digwydd gartref.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.53 Roedd rhai rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfle i chwarae a rhyngweithio â'u plant yn y sesiynau SLC, gan egluro sut oedd yr hwyluswyr yn eu hannog i gymryd rhan yn y sesiynau. Roedd y cyfle hwn yn cael ei werthfawrogi'n benodol gan rieni a oedd yn teimlo eu bod yn llai tebygol o chwarae â'u plentyn gartref oherwydd gwrthdyniadau fel gwaith tŷ.

> 'Roeddem yn teimlo'n rhan o'r peth fel rhieni achos ein bod yn cymryd rhan hefyd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.54 Dywedodd nifer fach o rieni eu bod wedi cael profiadau negyddol o'r grwpiau SLC. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni hyn yn credu bod y sesiynau'n anhrefnus, ac roeddent yn priodoli hyn i'r ystod oedran eang o blant sy'n mynychu'r sesiynau, gan nodi ei bod yn anodd darparu ar gyfer plant o bob oedran.

> 'Roedd y sesiynau grŵp yn ymddangos yn anhrefnus a'r staff yn edrych fel eu bod yn methu ymdopi. Mae'r merched yn gwneud gwaith gwych, ond roedd yn anodd gyda chynifer o oedrannau a chamau datblygu gwahanol. Roedd fy mab yn rhy ifanc yn fy marn i, ac roedd y ddarpariaeth yn fwy addas i blant 3 oed sydd angen cymorth gyda'u lleferydd o hyd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.55 Awgrymodd un o'r rhieni hyn y gallai cymorth un i un fod wedi helpu lleferydd ei phlentyn i raddau mwy.

> 'Doedd y ddarpariaeth ddim cystal â'r disgwyl. Rwy'n meddwl y byddai mwy o sesiynau un i un wedi bod yn well iddo. Fe wnaeth e fwynhau chwarae, ond wnaeth e ddim elwa llawer.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.56 Fe gafodd nifer fach o deuluoedd gymorth gan Therapydd Lleferydd ac Iaith. Roedd y teuluoedd hyn wedi'u hatgyfeirio i'r cymorth hwn gan yr Ymwelydd Iechyd, neu'n amlach na pheidio, gan staff gofal plant.

4.57 Yn gyffredinol, roedd y sylwadau cadarnhaol am gymorth y Therapydd Lleferydd ac Iaith yn seiliedig ar y ffaith fod rhieni yn gwerthfawrogi argymhellion y Therapydd o deganau penodol, a chyngor ar ryngweithio â phlant mewn ffordd sy'n hyrwyddo datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.

> 'Fe ddaeth hi [y Therapydd Lleferydd ac Iaith] yma er mwyn fy ffilmio'n chwarae gyda [enw]. Fe wnaethom wylio'r ffilm wedyn ac fe ges i syniadau ganddi ar gyfer darllen gydag e, gan sicrhau fy mod yn ynganu geiriau'n glir a gofyn cwestiynau iddo.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.58 Roedd yr 16 o rieni yn y **sampl cymharu** a oedd wedi derbyn cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu (naill ai trwy fynychu grwpiau SLC neu gan therapydd lleferydd ac iaith) wedi cael profiadau cadarnhaol yn gyffredinol. Roedd sgôr bodlonrwydd gyfartalog rhieni yn y sampl cymharu yn 7.9 allan o 10 ar gyfer cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu o'i gymharu â sgôr gyfartalog o 9.1 ymysg rhieni yn y brif sampl. Gall hyn adlewyrchu'r duedd i grwpiau SLC sydd ar gael y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg fod yn llai strwythuredig a mwy anffurfiol yn gyffredinol.

4.59 Yn gyffredinol, roedd gan rieni yn y sampl cymharu brofiadau cadarnhaol o fynd â'u plant i gylchoedd chwarae, sy'n cael eu cynnal gan wirfoddolwyr mewn eglwysi neu neuaddau cymuned fel arfer. Roedd rhai wedi mynychu sesiynau am ddim yn eu llyfrgell leol gan nodi bod y sesiynau wedi helpu eu plant i gymdeithasu a rhyngweithio â phlant ac oedolion eraill.

> 'Mae mynychu cylchoedd chwarae wedi'u helpu i ryngweithio ag oedolion ac ymgartrefu'n gynt yn yr ysgol feithrin wedyn.' Tad, 25-44 oed, Sampl cymharu

'Mae'n dda cael cyfle i adael y tŷ am ychydig. Does dim llawer o ddewis ar gael, ond mae rhai eglwysi lleol yn trefnu grwpiau. Mae'r system yn iawn, er ychydig yn hen ffasiwn.'' Mam, 25-44 oed, Sampl cymharu

4.60 Er bod rhieni yn y sampl cymharu wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol ynglyn â'r cylchoedd chwarae gwahanol roeddent wedi'u mynychu, roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd digon o grwpiau o'r fath ar gael yn lleol. Nododd ychydig o rieni nad oedd rhai grwpiau roeddent wedi'u mynychu mor strwythuredig ag y byddent wedi ei ddymuno.

**Darpariaeth iaith Gymraeg**

4.61 Fel y nodwyd yn nhonnau blaenorol yr astudiaeth, dywedodd y rhan fwyaf o rieni a gafodd eu cyfweld nad oeddent yn dymuno manteisio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg. Y prif reswm am hyn yn ôl rhieni oedd nad oeddent yn siarad Cymraeg. Dywedodd rhai o'r rhieni hyn eu bod nhw, a'u plant, wedi dod i gysylltiad â rhywfaint o Gymraeg achlysurol wrth fynychu darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Saesneg, fel grwpiau Iaith a Chwarae, neu pan oedd eu plant yn mynychu sesiynau gofal plant.

4.62 Nododd y nifer fach o rieni a oedd yn dymuno manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg eu bod wedi llwyddo i dderbyn darpariaeth o'r fath. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni ar y ddarpariaeth hon. Mae profiadau rhieni o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob un o'r pedair hawl Dechrau'n Deg wedi'u trafod isod.

'[Mae derbyn gwasanaethau Cymraeg] yn gwneud gwahaniaeth i mi gan ei fod yn ddewis mwy cyfforddus' Mam, 25-44 oed, teulu mewn angen isel

4.63 Roedd tua thraean o rieni yn y **grŵp cymharu** wedi defnyddio gwasanaethau cymorth i deuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd rhai rhieni wedi mynychu cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, roedd rhai wedi defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd gan nifer fach ohonynt Ymwelydd Iechyd neu fydwraig a oedd yn siarad Cymraeg.

4.64 Roedd y rhan fwyaf o rieini yn y sampl cymharu a nododd eu bod yn dymuno derbyn gwasanaethau cymorth i deuluoedd trwy gyfrwng y Gymraeg yn teimlo bod digon o ddarpariaeth ar gael iddynt. Dywedodd ychydig o rieni y byddent wedi hoffi derbyn gwasanaeth gan Ymwelydd Iechyd sy'n siarad Cymraeg, ond nad oedd y dewis hwn ar gael. Nododd nifer fach y byddent yn hoffi cael mynediad i fwy o gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg.

*Yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV)*

4.65 Yn yr un modd â'r tonnau blaenorol, roedd Ymwelwyr Iechyd nifer fach o rieni Ton 3 yn siarad Cymraeg, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith fod yr hawl hon ar gael iddynt hwy a'u plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn berthnasol iawn i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gan fod modd cynnal yr archwiliadau datblygiadol dwy neu dair blynedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.66 Nododd nifer fach o rieni Cymraeg eu hiaith nad oeddent wedi cael cyfle i dderbyn gwasanaeth Ymwelydd Iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad oeddent wedi meddwl gofyn a oedd y dewis hwn ar gael. Yn ystod y cyfweliadau, dywedodd y rhieni hyn, wrth edrych yn ôl, y byddent wedi hoffi cael cynnig y dewis hwn, yn enwedig ar gyfer archwiliadau datblygiadol.

4.67 Roed nifer fach o rieni wedi gofyn a fyddai'n bosibl cael Ymwelydd Iechyd sy'n siarad Cymraeg, ond cawsant wybod nad oedd hyn yn bosibl. Dywedodd y rhieni hyn fod yna brinder Ymwelwyr Iechyd sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal. Roedd un teulu am i Ymwelydd Iechyd Cymraeg ei iaith gynnal archwiliad datblygiadol eu plentyn, ac er iddynt gael gwybod bod modd gwneud hyn, cynhaliwyd yr asesiad trwy gyfrwng y Saesneg yn y diwedd.

> 'Fe gynhaliwyd yr archwiliad dwy flynedd trwy gyfrwng y Saesneg. Roeddwn i'n siomedig gyda hynny'. Mam, 25-44 oed, teulu mewn angen isel

*Yr hawl Gofal Plant*

4.68 Roedd nifer fach o deuluoedd Ton 3 wedi mynychu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gan nodi bod eu profiadau'n gadarnhaol. Roedd y teuluoedd hyn yn cynnwys rhieni Cymraeg a di-gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o rieni yn teimlo bod gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi helpu i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu plentyn. Eglurodd un rhiant nad yw'n siarad Cymraeg yn rhugl ei chymhellion dros fanteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg trwy Dechrau'n Deg:

> 'Ro'n i wastad eisiau siarad Cymraeg wrth dyfu i fyny, felly mae'n dda bod fy merch yn gallu ei siarad.' Mam, 25-44 oed, teulu mewn angen uchel

4.69 Dywedodd y rhan fwyaf o rieni â phlant sy'n mynychu gofal plant cyfrwng Saesneg fod eu plant yn dysgu rhywfaint o Gymraeg achlysurol (e.e. geiriau, ymadroddion, cerddi a rhigymau). Roedd y rhieni hyn yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn waeth a oeddent yn ystyried ymrestru eu plentyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg ai peidio.

4.70 Roedd safbwyntiau rhieni ar argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Nhon 3 yn debyg i'r safbwyntiau a fynegwyd yn Nhonnau 1 a 2. Dywedodd rhai teuluoedd fod modd iddynt ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, tra nad oedd eraill yn cofio cael dewis. Dywedodd nifer fach o rieni nad oeddent wedi cael cynnig dewis a bod yn rhaid iddynt ofyn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg eu hunain. Dywedodd un rhiant ei bod yn anodd dod o hyd i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleol, a'i bod wedi cymryd llawer o amser iddo gael gwybod am sut y gallai ei blentyn dderbyn gwasanaeth yn ei famiaith. Dywedodd rhiant arall ei fod wedi defnyddio cyllid Dechrau'n Deg i gael lle gyda darparwr cyfrwng Cymraeg gan nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gael trwy'r Rhaglen. Yn debyg i Donnau 1 a 2, dywedodd nifer fach o rieni fod eu plant wedi cael cynnig lle mewn lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg trwy raglen Dechrau'n Deg, ond nad oedd lleoliad y darparwr yn ddigon agos.

4.71 Penderfynodd rhai rhieni a gafodd ddewis gofal plant cyfrwng Cymraeg dderbyn y cynnig, ond roedd yn well gan eraill ei wrthod. Roedd penderfyniad rhieni wedi'i ddylanwadu gan eu hiaith eu hunain ac a oeddent am i'w plentyn fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Roedd pob lleoliad yn ddwyieithog yn un o'r ardaloedd, felly nid oedd dewis darpariaeth ar gael i rieni.

*Yr hawl rhianta*

4.72 Nid oedd y rhan fwyaf o gyrsiau a fynychwyd gan rieni wedi'u cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl rhai rhieni, y rheswm am hyn oedd nad oedd rhai rhieni neu'r rhan fwyaf o rieni a oedd yn mynychu'r cwrs yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, dywedodd mwy o rieni Ton 3 eu bod wedi mynychu cyrsiau rhianta trwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â thonnau cynharach y gwaith ymchwil. Dywedodd ychydig o rieni mewn un ardal fod cyrsiau'n cael eu cyflwyno mewn 'ffordd ddwyieithog naturiol' gan fod rhieni Cymraeg a di-gymraeg yn eu mynychu.

*Yr hawl Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu (SLC)*

4.73 Yn debyg i donnau cynharach y gwaith ymchwil, dywedodd ychydig o rieni eu bod wedi mynychu grwpiau SLC, ac roedd eraill wedi mynychu grwpiau dwyieithog tebyg gyda'u plant. Dywedodd rhieni fod grwpiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gyfle iddyn nhw a'u plant ddysgu geiriau a chanu caneuon Cymraeg. Dywedodd nifer fach o rieni Ton 3 nad oeddent yn cofio cael cynnig cyfle mynychu grwpiau SLC cyfrwng Cymraeg, er y byddent wedi hoffi gwneud hynny.

4.74 Yn debyg i'r tonnau blaenorol, roedd tua hanner y teuluoedd a oedd wedi derbyn cymorth gan Therapydd Lleferydd ac Iaith wedi cael cynnig gwasanaeth Cymraeg, tra bod yr hanner arall wedi nodi nad oedd angen Therapydd Lleferydd ac Iaith Cymraeg arnynt. Roedd rhieni plant a oedd wedi cael sesiynau gyda Therapydd Lleferydd ac Iaith cyfrwng Cymraeg yn parhau i nodi profiadau a chanlyniadau cadarnhaol o'r gwasanaeth hwn.

**Pontio i'r Cyfnod Sylfaen**

4.75 Roedd plentyn ieuengaf cyfran fawr o'r teuluoedd yn y brif sampl a gafodd eu cyfweld yn Nhon 3 yn dair blwydd oed neu'n hŷn. Gofynnwyd i'r teuluoedd hyn am y wybodaeth a'r cymorth a gawsant gan raglen Dechrau'n Deg ar gyfer trosglwyddiad eu plant i'r Cyfnod Sylfaen. Roedd gan y rhieni hyn safbwyntiau cymysg ynglŷn â faint o wybodaeth a chymorth a gawsant a pha mor ddefnyddiol ydoedd.

4.76 Nid oedd y rhan fwyaf o rieni yn cofio mynychu cyfarfod ffurfiol ag aelod o staff Dechrau'n Deg i drafod eu plentyn yn pontio i'r Cyfnod Sylfaen neu'r hyn sy'n digwydd pan fydd y plentyn yn troi'n bedair oed ac nad yw'r teulu yn gymwys ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg bellach. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhieni hyn yn cofio cael sgwrs anffurfiol ag aelod o staff gofal plant Dechrau'n Deg, ychydig cyn i'w plant orffen mynychu sesiynau gofal plant fel arfer, ynglŷn âdatblygiad eu plant. Roedd y rhieni yn fodlon bod y sgyrsiau anffurfiol hyn yn ddigonol. Yn ôl rhieni, yn aml roedd staff yn eu sicrhau yn ystod y sgyrsiau hyn bod eu plant yn barod i ddechrau yn yr ysgol a bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i throsglwyddo i'r ysgol. Dywedodd rhai rhieni fod staff gofal plant wedi rhoi gwybodaeth a chyngor iddynt ynglŷn â phontio i'r Cyfnod Sylfaen.

4.77 Roedd nifer llai o rieni yn cofio bod eu Hymwelydd Iechyd neu aelod o staff Dechrau'n Deg arall wedi ymweld â nhw yn eu cartref i roi gwybodaeth iddynt am y cam nesaf. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys sut i gofrestru gyda'r ysgol, sut i hawlio prydau ysgol am ddim a llwybrau bysiau. Dywedodd un rhiant ei bod 'yn gwbl wych', yn enwedig ar gyfer mamau newydd nad ydynt wedi cyrraedd y cam hwn o'r blaen.

> 'Fe gawsom lawer o gymorth ganddyn nhw ac roeddwn i'n hapus â'r wybodaeth a gafodd ei rhoi.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

4.78 Dywedodd ychydig o rieni eu bod wedi cael cymorth a chyngor yn ystod y cyrsiau rhianta ynglŷn â'u plant yn trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen. Nododd y rhieni hyn fod y cwrs 'Plant Bach Rhyfeddol' wedi cynnwys adran ar 'fod yn barod i fynychu'r ysgol'.

**Sut mae gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cydweithio**

4.79 Gofynnwyd i rieni yn Nhon 3 am effeithiolrwydd dulliau cydweithio rhwng gwasanaethau gwahanol Dechrau'n Deg. Roedd y rhan fwyaf o rieni yn credu bod y gwasanaethau gwahanol roeddent wedi'u defnyddio wedi cydweithio'n dda fel rhaglen gymorth gynhwysfawr i'w teulu. Roedd y teuluoedd yn ymwybodol iawn o 'frand' Dechrau'n Deg ac yn deall y cysylltiadau rhwng hawliau, ac roedd yr atgyfeiriadau o un hawl i hawl arall fel pe bai'n atgyfnerthu hynny. Cyfeiriodd llawer o rieni at y broses gyfathrebu dda rhwng gwasanaethau.

> 'Maen nhw i gyd yn cydweithio'n dda. Mae staff sy'n gweithio i wasanaethau gwahanol yn cyfathrebu'n dda. Mae pawb yn ceisio cyflawni'r un nod.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.80 Trwy gyfathrebu'n dda, mae gwasanaethau wedi llwyddo i rannu gwybodaeth yn effeithiol, gan helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfaoedd a datblygiad teuluoedd.

> 'Maen nhw'n cydweithio'n dda iawn. Mae'r tîm SLC yn mynychu'r Ysgol Feithrin hefyd, ac mae'r Ymwelydd Iechyd yn mynychu'r Ysgol Feithrin tua unwaith bob chwe mis. Fel rhiant, os oes unrhyw broblemau'n codi does dim angen i mi egluro'r holl hanes gan eu bod yn rhannu nodiadau [enw'r plentyn].' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

4.81 Nododd rhai rhieni fod dulliau cyfathrebu da wedi golygu bod modd gwneud atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau Dechrau'n Deg yn gyflym ac yn effeithlon. Roedd ychydig o'r rhieni hyn yn teimlo na fyddent wedi derbyn y cymorth atgyfeiriedig o bosibl pe na baent yn gymwys ar gyfer gwasanaethau Dechrau'n Deg.

> 'Fe wnaeth yr Ymwelydd Iechyd wneud cais ar fy rhan am le ar y rhaglen Rhieni a Mwy, ac fe glywais ganddyn nhw yn syth.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

> ‘Maen nhw i gyd yn cyfathrebu â’i gilydd, ac o ganlyniad mae atgyfeiriadau wedi’u gwneud yn gyflym.’ Mam, 20-44 oed, Teulu mewn angen isel

4.82 Dywedodd rhai rhieni eu bod wedi clywed am rai gwasanaethau Dechrau’n Deg trwy ddefnyddio gwasanaethau Dechrau’n Deg eraill.

> ‘Oni bai am y gwasanaeth gofal plant, fyddwn i ddim wedi gwybod am Iaith a Chwarae. Oni bai am yr Ymwelydd Iechyd, fyddwn i ddim wedi gwybod am y gwasanaeth gofal plant... Mae’r Ymwelydd Iechyd a’r staff gofal plant yn cyfathrebu’n dda â’i gilydd.’ Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

4.83 Nododd rhai teuluoedd fod nifer o wasanaethau Dechrau’n Deg ar gael gan eu canolfan Dechrau’n Deg leol, ac o ganlyniad roedd yn hawdd ac yn gyfleus defnyddio’r gwasanaethau hyn. Roedd y teuluoedd hyn yn gwerthfawrogi’r ganolfan Dechrau’n Deg gan fod modd iddynt ‘alw i mewn’ a defnyddio nifer o wasanaethau gwahanol sydd ar gael yn y ganolfan. O ganlyniad, roedd y teuluoedd hyn yn tueddu i ddefnyddio mwy o wasanaethau Dechrau’n Deg na theuluoedd na allent fanteisio ar ganolfan Dechrau’n Deg leol.

4.84 Roedd ychydig o deuluoedd wedi symud y tu allan i ardal Dechrau’n Deg yn ystod Ton 3. Nododd y teuluoedd hyn eu bod wedi sylwi ar wahaniaeth yn y lefel o gymorth sydd ar gael iddynt, yn enwedig o ran amlder cyswllt gan Ymwelwyr Iechyd ac argaeledd gofal plant am ddim.

> ‘Wnes i ddim sylweddoli pa mor dda oedd y ddarpariaeth nes i mi symud i ffwrdd.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

> 'Rwy’n difaru gadael yr ardal Dechrau’n Deg. Fe ges i gymorth llawer gwell ar gyfer fy mhlentyn hynaf. Rwy’n dal i ddefnyddio’r wybodaeth a ges gan Dechrau’n Deg yn y dechrau.’ Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

4.85 Er iddynt gael eu cyfweld yn ystod Ton 2 yn unig, roedd rhieni yn y **sampl cymharu** yn tueddu i gyfeirio llai at natur integredig gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Roeddent yn tueddu i ymgysylltu llai â gwasanaethau cymorth i deuluoedd a nodi’n llai aml eu bod wedi’u hatgyfeirio gan un gwasanaeth cymorth i deuluoedd i wasanaeth arall. Ymddengys bod hyn wedi’i adlewyrchu yn y ffaith fod rhieni yn y sampl cymharu wedi gweld llai o gysylltiadau rhwng y gwasanaethau a ddefnyddiwyd ganddynt. Gall hyn fod yn gysylltiedig â’r lefelau uwch o ymgysylltiad â theuluoedd Dechrau’n Deg, gydag Ymwelwyr Iechyd (ac aelodau

eraill o staff Dechrau'n Deg) yn cael mwy o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth, annog presenoldeb ac ateb cwestiynau ynglŷn â gwasanaethau eraill.

**Astudiaethau achos: profiadau**

4.86 Mae'r astudiaethau achos isod yn darparu enghreifftiau o brofiadau teuluoedd o fanteisio ar hawliau Dechrau'n Deg yn ystod Tonnau 1, 2 a 3. Mae'r astudiaethau achos yn dangos taith teuluoedd trwy'r rhaglen Dechrau'n Deg gan ddefnyddio data o bob un o dair ton y gwaith maes. Mae enwau a rhai manylion yn yr astudiaethau achos wedi'u newid er mwyn sicrhau nad yw enwau'n cael eu datgelu.

**Astudiaeth achos 3: Chantelle Williams**

Mae Chantelle yn byw gyda'i thri o blant, sy'n 18 oed, yn ddeg oed ac yn 29 mis oed. Mae tad y plant wedi symud allan o gartref y teulu yn ddiweddar. Mae Chantelle wedi byw yn yr ardal ar hyd ei hoes ac mae ganddi rwydwaith eang o deulu a ffrindiau yn byw gerllaw.

Fe gafodd plentyn ieuengaf Chantelle ei eni cyn pryd, ac roedd y babi yn yr ysbyty am gyfnod hir. Yn ystod y cyfnod hwn, fe gafodd 'gymorth rhagorol' gan ei Hymwelydd Iechyd a bydwraig Dechrau'n Deg. Roedd yr Ymwelydd Iechyd yn ymweld â Chantelle bob wythnos, yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol iddi ac yn gweithredu fel cyfryngwr â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

> *'Fe ges i gymorth cwbl wych ganddi pan gafodd fy mab ei eni cyn pryd.'*

Mae Chantelle wedi gweld yr un Ymwelydd Iechyd ers geni ei phlentyn ieuengaf ac mae wedi datblygu perthynas hirdymor dda â hi.

> *'Mae'n teimlo fel ffrind yn galw am sgwrs. Mae popeth yn cael ei wneud a'i egluro mewn ffordd gyfeillgar... Wnes i erioed deimlo ei bod yn dweud wrthyf beth i'w wneud … Fe ges i syniadau ganddi ynglŷn â sut i fod yn fam well. Maen nhw wedi bod yn gymorth enfawr. Fe allwn eistedd i lawr a chrio wrth feddwl am y cymorth a ges.'*

Wrth i'w mab dyfu, mae angen llai o gymorth ar Chantelle gan ei Hymwelydd Iechyd, ond mae'n teimlo bod modd iddi ofyn am gymorth os oes angen.

Fe glywodd Chantelle am ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg gan ei Hymwelydd

Iechyd. Penderfynodd anfon ei phlentyn ieuengaf i'r ddarpariaeth gofal plant ar yr un safle â'r crèche a fynychodd cyn troi'n ddwy oed. Mae Chantelle yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth gofal plant gan ei bod wedi'i chynorthwyo fel rhiant, ac mae'n teimlo ei bod yn gallu ymddiried yn y staff yno.

> *'Mae wedi bod yn anhygoel. Mae'n teimlo fel mynd ag e i dŷ ffrind. Byddwn i'n argymell y ddarpariaeth cyn ysgol heb unrhyw amheuaeth. Maen nhw wedi fy helpu fel rhiant… Maen nhw'n llenwi'r bylchau na allaf, fel rhiant, eu llenwi… Erbyn hyn, mae ganddo bum mam, nid un.'*

Trwy fynychu'r sesiynau gofal plant, mae mab Chantelle wedi cymysgu ag oedolion a phlant eraill, sydd wedi helpu i wella ei leferydd. Mae Chantelle wedi sylwi ar wahaniaeth o safbwynt sgiliau cymdeithasol ei mab o'i gymharu â'i phlant hŷn na wnaethant fynychu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg pan oeddent yn iau. Mae'n llai swil ar ôl mynychu'r sesiynau gofal plant, ac mae Chantelle yn credu y bydd hynny'n ei helpu i ymgartrefu yn y feithrinfa.

> *'Mae e wedi datblygu'n dda iawn diolch i Dechrau'n Deg.'*

Ers sefydlu busnes trin gwallt ychydig o flynyddoedd yn ôl, mae partner busnes Chantelle wedi gadael. O ganlyniad, mae Chantelle wedi dibynnu mwy ar y ddarpariaeth gofal plant ac wedi llwyddo i neilltuo amser digonol i'r busnes. Mae Chantelle yn bwriadu parhau â'i busnes, ac mae'n teimlo na fyddai wedi gallu gwneud hynny o bosibl heb y cymorth a gafodd trwy raglen Dechrau'n Deg.

**Astudiaeth Achos: Teulu Fisher**

Mae Elizabeth Fisher yn rhiant wedi'i hysgaru yn ei 40au sy'n byw gyda'i thair merch 3, 8 a 12 oed. Mae wedi byw yn yr un ardal ers dros 10 mlynedd ac mae ganddi broblemau iechyd sy'n ei hatal rhag gweithio. Mae'r teulu wedi manteisio ar yr hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig (EHV), gofal plant, grwpiau SLC a chyrsiau rhianta yn ogystal â chymorth un i un gan weithiwr cymorth i deuluoedd. Fe gafodd y teulu gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y gwaith ymchwil a bu'n rhaid gosod y plant mewn gofal maeth dros dro, ond roedd y teulu gyda'i gilydd eto erbyn Ton 3. Mae Elizabeth yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud cyfraniad mawr at hyn.

*'[Heb raglen Dechrau'n Deg] dwi ddim yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud na phryd.'*

Roedd y cyngor a'r cymorth a gafodd Elizabeth gan ei Hymwelydd Iechyd a'i gweithiwr cymorth i deuluoedd yn bwysig yn ystod yr ymchwil, yn enwedig yn ystod y cyfnod llawn straen pan gafodd ei phlant eu gosod mewn gofal maeth. Fe gafodd gyngor a chymorth emosiynol gan staff Dechrau'n Deg cyn ymweld â'i phlant. Roedd hyn yn fanteisiol i'w llesiant meddwl yn ystod y broses o ddod â'r teulu yn ôl at ei gilydd.

*'Fe ges i gymaint o gymorth a chyngor ganddyn nhw [yr Ymwelydd Iechyd a'r gweithiwr cymorth i deuluoedd]. Roedden nhw'n gwbl wych. Maen nhw wedi bod yno i mi drwy'r amser. Rwyf wedi cael cyngor ar sut i reoli fy mhroblemau iechyd meddwl fy hun.'*

Fe wnaeth yr Ymwelydd Iechyd annog Elizabeth i gymryd rhan mewn cyrsiau rhianta, gan gynnwys cwrs meithrin a chwrs Plant Bach Rhyfeddol. Roedd hi'n credu bod y cyrsiau rhianta'n hyblyg iawn gan fod y trefnwyr wedi ad-drefnu sesiynau fel bod Elizabeth yn gallu ymweld â'i phlentyn pan oedd yng ngofal maeth.

*'Rwy'n berson mwy amyneddgar ers mynychu'r cwrs meithrin. Mae wedi fy helpu i ddeall fy ymddygiad fy hun yn well.'*

Hefyd, mae Elizabeth wedi manteisio ar ddarpariaeth cylchoedd chwarae Dechrau'n Deg yn achlysurol. Er ei bod yn teimlo bod y ddarpariaeth hon yn ddefnyddiol, roedd yn credu nad oedd digon o gylchoedd ar gael yn lleol, a bod amser y sesiynau'n gwrthdaro yn aml â'r adegau pan oedd yn casglu ei phlant eraill o'r ysgol.

Yn ystod Ton 1, nid oedd Elizabeth yn disgwyl defnyddio darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, erbyn Ton 3 roedd wedi'i hargyhoeddi o fanteision ei phlentyn yn mynychu lleoliad gofal plant.

*'Roedd gen i amheuon mawr yn y dechrau, ond rwy'n dod i arfer â'r syniad [o ofal plant] nawr. Heb ofal plant Dechrau'n Deg fyddai fy merch ddim wedi mynd i'r ysgol feithrin nes ei bod yn dair a hanner oed.'*

Mae'n teimlo bod ei phlentyn yn rhyngweithio'n well â phlant ac oedolion eraill ers mynychu gofal plant Dechrau'n Deg ac y bydd ei phlentyn wedi'i baratoi'n well i fynychu ysgol feithrin.

**Crynodeb: profiadau**

Un o amcanion yr astudiaeth oedd deall profiadau teuluoedd o hawliau Dechrau'n Deg, yn ogystal ag archwilio i ba raddau roedd y Rhaglen wedi bodloni disgwyliadau rhieni.

- Roedd profiadau teuluoedd o'r pedair hawl graidd yn Nhon 3 yn gadarnhaol ac yn debyg i'r safbwyntiau a fynegodd rhieni yn nhonnau blaenorol yr astudiaeth.
- Er bod teuluoedd yn tueddu i nodi nad oedd ganddynt ddisgwyliadau penodol o'r Rhaglen cyn cymryd rhan ynddi, dywedodd y rhai a oedd â disgwyliadau bod y ddarpariaeth wedi'u plesio neu wedi rhagori ar eu disgwyliadau.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni yn hapus â lefel eu cysylltiad â'u Hymwelydd Iechyd a'r cyngor a'r cymorth a gawsant. Roedd llawer o rieni ym mhob ton wedi rhoi enghreifftiau o sut oedd Ymwelwyr Iechyd wedi'u cyfeirio i weithwyr iechyd proffesiynol eraill, neu wedi'u helpu i gysylltu â nhw.
- Nododd y rhan fwyaf o rieni yn y **sampl cymharu** eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o'u Hymwelydd Iechyd hefyd, er eu bod yn tueddu i gael llai o gyswllt â nhw a'u bod yn llai bodlon â'u profiadau na'r brif sampl. Gall hyn adlewyrchu'r duedd i fwy o rieni yn y brif sampl gyfeirio at eu profiad o gael cymorth gan Ymwelydd Iechyd fel 'perthynas' na rhieni yn y sampl cymharu.
- Roedd rhieni yn y sampl cymharu yn llai tebygol na theuluoedd Dechrau'n Deg o nodi eu bod wedi'u hatgyfeirio i wasanaeth cymorth i deuluoedd gan wasanaeth arall, neu fod gwasanaethau wedi gweithio mewn ffordd integredig. Gall hyn adlewyrchu lefelau uwch o ymgysylltu ag Ymwelwyr Iechyd o ganlyniad i lwyth achosion llai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni yn y sampl Dechrau'n Deg a oedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant wedi cael profiadau da o staff gofal plant, y wybodaeth a gawsant ganddynt, a sut oedd y ddarpariaeth gofal plant wedi helpu i baratoi eu plant i bontio i'r Cyfnod Sylfaen.
- Roedd llai o rieni yn y **sampl cymharu** wedi defnyddio darparwyr gofal plant o'i gymharu â'r brif sampl, ond roedd eu profiadau ohonynt yn gadarnhaol hefyd. Dywedodd rhai rhieni yn y sampl cymharu nad oedd dewis digonol ar gael. Mae hyn yn dangos bod rhieni yn y sampl cymharu wedi cael profiadau tebyg o ddefnyddio gofal plant os oedd ar gael ac yn fforddiadwy.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl rianta yn gwerthfawrogi'r cymorth a gawsant, gan nodi ei fod yn ddefnyddiol ac yn fuddiol.

Dywedodd llawer o'r rhieni hyn eu bod wedi dysgu sgiliau rhianta newydd neu wedi ennill gwybodaeth newydd diolch i'r cymorth a gawsant.

- Er bod llai o **deuluoedd yn y sampl cymharu** yn gwybod am gyrsiau rhianta neu wedi'u mynychu, roedd eu profiadau o fynychu cyrsiau rhianta mor gadarnhaol â rhieni yn y brif sampl. Mae hyn yn awgrymu bod cyrsiau rhianta'n cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau os ydynt ar gael i rieni.
- Dywedodd y rhan fwyaf o rieni a oedd wedi mynychu grwpiau neu gyrsiau SLC eu bod yn bleserus ac yn fuddiol, a'u bod wedi rhoi cyfle i'w plant gymdeithasu â phlant eraill ac iddyn nhw ryngweithio â'u plant eu hunain.
- Roed y nifer fach o deuluoedd a oedd wedi cael cymorth gan Therapydd Lleferydd ac Iaith yn gwerthfawrogi'r cymorth, yn enwedig y cyngor ar sut i ryngweithio â phlant mewn ffordd sy'n hyrwyddo datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Roedd **teuluoedd yn y sampl cymharu** wedi cael profiadau da o fynychu grwpiau SLC, ond roedd eu lefelau bodlonrwydd ychydig yn is na theuluoedd yn y brif sampl. Gall hyn adlewyrchu natur lai strwythuredig a mwy anffurfiol grwpiau SLC sydd ar gael i deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.
- Fe wnaeth yr astudiaeth archwilio i ba raddau roedd rhieni Dechrau'n Deg yn credu bod y Rhaglen wedi nodi ac ymateb i'w hanghenion a'u dymuniadau o safbwynt darpariaeth iaith Gymraeg. Yn debyg i Donnau 1 a 2, roedd rhai rhieni wedi manteisio ar wasanaeth Ymwelydd Iechyd cyfrwng Cymraeg; gofal plant cyfrwng Cymraeg; grwpiau SLC cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog; Therapydd Lleferydd ac Iaith Cymraeg; a/neu gymorth rhianta Cymraeg neu ddwyieithog.
- Roedd rhieni a gafodd eu cyfweld yn Nhon 3 wedi cael profiadau cadarnhaol o ansawdd darpariaeth a chymorth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau rhieni ar hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn amrywio – roedd rhai'n teimlo bod digon o gyfleoedd ar gael yn lleol, tra bod eraill o'r farn fod diffyg gwasanaethau Cymraeg ar gael. Roedd y rhwystrau hyn yn gymharol gyson ym mhob ton, gan awgrymu bod yr heriau yn rhai hirdymor.

# 5. Canlyniadau ac effeithiau tybiedig

5.1 Roedd yr ymchwil yn gofyn am safbwyntiau rhieni ynghylch i ba raddau roedd gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi dylanwadu ar ganlyniadau ar gyfer eu plentyn. Roedd y cyfweliadau'n archwilio'r canlyniadau a'r effeithiau tybiedig a adroddwyd gan rieni am themâu allweddol, gan gynnwys: pontio i'r Cyfnod Sylfaen; lleferydd, iaith a chyfathrebu; sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad; sgiliau ymarferol; ac iechyd. Roedd y cyfweliadau hefyd yn archwilio safbwyntiau rhieni o ran effaith y Rhaglen ar ymagwedd tuag at rianta a lles rhieni. Gofynnwyd i rieni yn y sampl cymharu i ba raddau roedd y gwasanaethau cymorth i deuluoedd roedden nhw wedi manteisio arnynt wedi dylanwadu ar ganlyniadau ar gyfer eu plentyn ac arnyn nhw fel rhieni.

**Canlyniadau ac effeithiau tybiedig i blant**

5.2 Yn ystod Ton 3, bu i fwyafrif y rhieni barhau i adrodd bod manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn. Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol yr adroddwyd arnynt gan rieni oedd y rhai roeddent yn eu priodoli i wasanaethau unigol, megis gofal plant, ynghyd ag effeithiau cronnol o ddefnyddio mwy nag un hawl. Cyfeiriodd rhai teuluoedd at faterion penodol roeddent o'r farn bod hawliau unigol wedi'u cynorthwyo â nhw (e.e. materion iechyd neu ddatblygu), ond roedd y mwyafrif yn dueddol o grybwyll yr hyn roeddent yn ei weld fel manteision cyffredinol ar gyfer eu plentyn.

> 'Mae Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, mae ei hunan-hyder wedi cynyddu ac mae'r cymorth ymarferol wedi bod yn wych. Mae cymaint o bwyntiau mynediad gan Dechrau'n Deg. Llawer gwell na'r oeddwn i'n ei ddisgwyl - mae cael rhyw fath o ganolbwynt, lle mae rhieni'n gallu siarad a rhannu syniadau, mor ddefnyddiol.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Doedd dim disgwyliadau gen i... Dw i wedi cael fy synnu'n llwyr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Effaith anferthol, yn sicr.. ...Mae fel 'canolbwynt' i fynd iddo os oes problem' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

**Pontio i'r Cyfnod Sylfaen**

5.3 Roedd mwyafrif y rhieni yr oedd eu plant wedi pontio i'r Cyfnod Sylfaen yn ystod Ton 3 yn teimlo bod defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi helpu i baratoi eu plentyn i fynd i'r ysgol feithrin. Roedd teuluoedd yn dueddol o gyfeirio at welliannau o ran pa mor barod oeddent am yr ysgol wrth drafod yr hawl gofal plant; gan gyfeirio at fanteision megis eu plentyn yn dod i arfer â threfn diwrnod mewn lleoliad gofal plant, a bod mewn amgylchedd dysgu gyda phlant eraill.

> 'Mae Dechrau'n Deg wedi'i osod fel ystafell ddosbarth, sy'n eu paratoi ar gyfer yr ysgol. Mae mwy o drefn yn y tŷ gyda'r un ieuengaf. Mae'n canolbwyntio'n well ac mae'n fwy trefnus.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Rwy'n credu pe na bai [plentyn] wedi mynd i'r [lleoliad gofal plant], ni fyddai wedi gallu setlo yn yr ysgol.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Dydy Dechrau'n Deg ddim yn orfodol, ond rwy'n falch eu bod nhw wedi mynd [at y darparwr gofal plant] ac fy mod wedi parhau i fynd â nhw yno gan eu bod wedi setlo'n well yn yr [ysgol] feithrin nawr.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

5.4 Roedd mwyafrif y rhieni, nad oedd eu plant wedi dechrau'r ysgol eto, yn myfyrio ynghylch cymaint mwy hyderus roeddent yn ei deimlo am y cyfnod pontio oedd i ddod.

> 'Pe na bai e wedi mynd i [gofal plant Dechrau'n Deg], yna byddai wedi cael sioc mwyaf ei fywyd pan fyddai wedi mynd i'r ysgol.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

> 'Cyn [mynychu gofal plant Dechrau'n Deg] roedd hi'n hunllef, a byddwn i wedi bod yn ofni mis Medi" Mam, 21 oed neu'n iau, Teulu mewn angen uchel

5.5 Roedd mwyafrif y rhieni yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth o ran pa mor barod mae eu plentyn am yr ysgol. Adroddodd dros hanner y rhai a gafodd eu cyfweld yn ystod Ton 3 eu bod wedi gweld gwelliannau yn ymddygiad eu o ran: dangos mwy o ddiddordeb mewn edrych ar lyfrau; gallu gwrando ar straeon yn well; gallu canolbwyntio'n well; cyfri neu adnabod rhifau; canu neu adnabod hwiangerddi ac adnabod llythrennau neu wybod yr wyddor. Adroddodd un rhan o dair o'r rhieni bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i allu eu plentyn i ddal neu ddefnyddio pensil.

'Mae e wedi datblygu llawer...pan ddechreuodd e fynd i ofal plant doedd e methu dweud 20 gair.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

'Pan ddechreuodd yr efeilliaid yn y gofal plant, fydden nhw ddim yn eistedd ar y mat yn ystod amser stori neu ganu, ond maen nhw wedi dysgu i eistedd a chanolbwyntio nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae e wedi dod i arfer gyda fi'n ei adael e yno nawr. Mae e'n rhyngweithio'n well gyda phlant eraill.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

5.6 Roedd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** a oedd wedi manteisio ar ofal plant yn dueddol o deimlo ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i ba mor barod mae eu plentyn ar gyfer yr ysgol. Roedd rhai o blant y rhieni hyn wedi dechrau mynd i'r ysgol feithrin (fel arfer ar gyfer hanner y diwrnodau) ac roeddent yn adrodd bod eu plentyn wedi setlo'n dda.

'Mae [enw'r plentyn] yn sicr yn fwy parod ar gyfer yr ysgol oherwydd [darparwr gofal plant].' Mam, 25-44 oed, Sampl cymharu

5.7 Byddai rhai rhieni yn y sampl cymharu wedi hoffi i'w plant fynychu mwy o sesiynau gofal plant, gan eu bod yn teimlo y byddai hyn wedi bod fwy fyth o fydd iddynt. Dywedodd rhai teuluoedd nad oedden nhw'n gallu fforddio gofal plant, ond byddent wedi hoffi cael ei ddefnyddio. Roedd rhai o'r rhieni hyn yn teimlo bod eu plentyn wedi methu allan ar fanteision posibl cael mynediad at ddarparwr gofal plant.

**Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC)**

5.8 Adroddodd oddeutu hanner y rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod Ton 3 bod eu plentyn yn fwy siaradus, yn siarad yn fwy clir ac yn dysgu geiriau newydd, un ai yn Gymraeg neu'n Saesneg, o ganlyniad i ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg. Roedd mwyafrif y rhieni yn ystyried bod rhyw agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn wedi gwella oherwydd y Rhaglen. Roedd y rhieni hyn yn dueddol o grybwyll mai'r hawl gofal plant oedd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf i sgiliau rhyngweithio eu plentyn.

'Mae llawer mwy o eirfa ganddo nawr ac mae'n siarad yn llawer mwy clir.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae hi'n llawer gwell am wrando nawr. Mae'r feithrinfa wedi helpu gyda hynny. Mae hi wedi dysgu'r lliwiau hefyd' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae [enw'r plentyn] yn well ar ôl bod yn y feithrinfa, roedd hi'n dawel iawn ond mae hi'n llawer mwy siaradus nawr. Mae hi'n fwy hyderus beth bynnag, ond mae hi'n ei fwynhau hefyd. Galla i lanhau a rhoi trefn ar y tŷ pan mae'r plant yn y feithrinfa.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae wedi gwneud gwahaniaeth anferthol. Mae'n rhoi dechrau cynnar i'r plant. Mae'n ennyn diddordeb ynddynt mewn llyfrau a dysgu yn gynt.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.9 Nid oedd rhai rhieni yn credu bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i leferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu eu plentyn. Fel arfer nid oedd y rhieni hyn wedi defnyddio'r hawl gofal plant, neu roeddent wedi defnyddio darparwr gofal plant preifat cyn i'w plentyn droi'n ddwy. Roedd rhai rhieni o'r farn bod Dechrau'n Deg yn atgyfnerthu sgiliau roedd eu plentyn yn ei ddysgu eisoes yn y tŷ neu y byddant wedi'i ddysgu fel arall.

5.10 Fel yn Nhon 2, roedd rhai rhieni wedi gweld gwelliannau cyflym yn natblygiad geirfa a lleferydd eu plentyn. Yn aml roedd rhieni yn priodoli hyn i'r ffaith bod eu plentyn yn mynychu lleoliad gofal plant, ac roeddent yn sylwi'n benodol bod eu plentyn yn defnyddio geiriau, dyfyniadau neu ganeuon nad oedd yn debygol eu bod wedi'u clywed yn y cartref.

'Mae e wedi dysgu llawer mwy o eiriau ers mynd i'r ysgol [feithrin]. Mae'n dweud mwy a mwy o bethau dydw i ddim yn disgwyl iddo ei ddweud.' Mam, 21 oed neu'n iau, Teulu mewn angen uchel

'Maen nhw wedi bod llawer mwy siaradus ers mynd i'r feithrinfa, ac mae wedi helpu â chyfri a'r wyddor.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.11 Adroddodd dros hanner y rhieni bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth o ran gallu eu plentyn i adnabod a chanu hwiangerddi. Priodolwyd hyn yn bennaf i fynychu grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu a lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg.

‘Mae [enw'r plentyn] yn canu o hyd, mae'n gwybod tua 20 o hwiangerddi. Rydyn ni'n meddwl ei fod e'n barod ar gyfer yr ysgol feithrin nawr; roedd e wir yn mwynhau mynd i'r gofal plant a gwneud ffrindiau... pan rydyn ni'n mynd i

rywle lle mae ei ffrindiau yno mae e'n mynd i ffwrdd i chwarae gyda nhw... mae e mor annibynnol o gymharu â'i gefnder na aeth i ofal plant, a dydy e ddim yn gymdeithasol iawn' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

5.12 O gymharu â Thon 1 a 2, roedd rhieni yn cyfeirio'n amlach at fanteision cael mynediad at y gwasanaeth therapydd iaith a lleferydd. Adroddodd bron i bob un o'r rhieni yr oedd eu plant wedi defnyddio'r therapydd iaith a lleferydd ganlyniadau cadarnhaol yn sgil y cymorth hwn. Adroddodd rhai teuluoedd bod y therapydd iaith a lleferydd wedi darparu sesiynau yn eu cartref; fel arfer fel sesiynau wythnosol wedi'u darparu mewn blociau o oddeutu chwe wythnos. Adroddodd eraill am sesiynau'n cael eu darparu mewn canolfan neu grŵp chwarae Dechrau'n Deg, sesiynau un i un yn bennaf, ond rhai sesiynau grŵp yn achlysurol. Soniodd mwyafrif y rhieni yr oedd eu plant wedi derbyn cymorth therapydd iaith a lleferydd, bod y sesiynau dilynol wedi'u cyflawni yn y lleoliad gofal plant. Roedd rhieni'n dueddol o bwysleisio bod y mathau hyn o sesiynau dilynol (a gyflawnwyd gan therapyddion iaith a lleferydd, athrawon ymgynghorol neu weithwyr allweddol) wedi bod o fantais i'w plentyn.

'Dw i ddim yn credu y byddai lleferydd [plentyn] wedi datblygu cymaint heb y gefnogaeth.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae [cefnogaeth therapydd iaith a lleferydd] wedi bod yn ardderchog ac wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn y flwyddyn ddiwethaf. Doedd e methu siarad na deall unrhyw beth mewn gwirionedd.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen isel

'Doedd e ddim yn arfer siarad, roedd y therapi lleferydd yn helpu, a chynhaliwyd sesiynau yn yr ysgol hefyd. Mae e wedi dod yn ei flaen yn dda iawn; mae ei leferydd yn berffaith nawr'

5.13 Cyfeiriodd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** at y gwahaniaeth cadarnhaol roedd gwasanaethau cymorth i'r teulu wedi'u gwneud i sgiliau lleferydd, iaith a cyfathrebu eu plentyn. Roedd y rhain yn dueddol o fod yn deuluoedd a oedd wedi defnyddio gofal plant, neu a oedd yn mynychu grwpiau chwarae yn rheolaidd gyda'u plentyn. Fodd bynnag, roedd teuluoedd yn y sampl cymharu yn cynnig llai o enghreifftiau o sut roedd sgiliau rhyngweithio eu plentyn wedi datblygu. Er enghraifft, roeddent yn llai tebygol na'r rhieni yn y prif sampl o gyfeirio at y ffaith bod gan eu plentyn ragor o ddiddordeb mewn llyfrau, neu gynnydd mewn sgiliau

canolbwyntio neu wrando o ganlyniad i wasanaethau penodol roeddent wedi'u defnyddio.

**Effaith ar sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad**

5.14 Roedd mwyafrif y rhieni yn Nhon 3 yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i agwedd ar sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad eu plentyn. Fel yn Nhon 2, roedd mwy na thri chwarter y rhieni a gyfwelwyd wedi gweld effaith gadarnhaol ar eu plentyn o ran cymdeithasu a chwarae gyda phlant eraill. Roedd hyn yn dueddol o gael ei grybwyll mewn perthynas â hawl gofal plant, er y cyfeiriodd rhai rhieni hefyd at fanteision sesiynau grŵp lleferydd, iaith a chyfathrebu roeddent wedi'u mynychu gyda'u plentyn i fagu hyder a sgiliau cymdeithasol. Roedd dros hanner y rhieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i allu eu plentyn i gymryd tro neu rannu pethau.

> 'Mae e nawr yn rhannu teganau gyda'i nith. Cyn gofal plant, roedd rhaid i fi eu gwahanu nhw o hyd oherwydd doedd e ddim yn rhannu. Nawr mae e wedi arfer heb i fi fod yna o hyd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel
>
> 'Mae hi'n gwrando mwy arnon ni, achos mae'n rhaid iddi wneud gyda'i hathrawon yn y gofal plant. Mae hi'n rhannu mwy ac mae hi'n hapusach yn chwarae gyda'i brodyr a'i chwiorydd.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel
>
> 'Nawr mae'n mynd i siarad â phobl a phlant eraill - mae ei hyder wedi cynyddu'n sylweddol' Mam, 21 oed neu'n iau, Teulu mewn angen uchel

5.15 Adroddodd oddeutu hanner y rhieni a gafodd eu cyfweld bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol o ran canlyniadau ymddygiadol eraill gan gynnwys ymdrin â phyliau o dymer, rheoli dicter a delio â sefyllfaoedd heriol. Rhoddodd rieni enghreifftiau'n aml o'r gwahaniaethau roeddent wedi'u gweld yn eu plant ers mynychu gofal plant neu grwpiau chwarae.

> 'Dydy e ddim yn cael pyliau o dymer mor aml gan ei fod e'n gallu siarad mwy, felly mae'n gallu dweud wrtha i beth mae e ei eisiau.' Mam, 21 oed neu'n iau, Teulu mewn angen uchel

'Roeddwn i'n arfer osgoi mynd ag e i lefydd achos roeddwn i'n ofni y byddai'n brifo plant eraill, ond pan aeth e i'r feithrinfa gwnaethon nhw ganfod ffyrdd i'w helpu e i ymddwyn yn well'. Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

'Mae ei ymddygiad yn well nawr - mae e'n llai cyffrous. Mwy o ddod i gytundeb a llai o ddadlau.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

'Mae hi nawr yn dynwared ymddygiad da gan blant eraill yn y gofal plant.' Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.16 Roedd mwyafrif y rhieni yn priodoli'r gwelliannau i'r ffaith bod eu plant yn mynychu sesiynau gofal plant neu grwpiau chwarae. Fodd bynnag, roedd rhai rhieni yr oedd eu plant wedi manteisio ar therapydd iaith a lleferydd yn teimlo bod ymddygiad eu plant wedi gwella'n anuniongyrchol o ganlyniad i'r cymorth hwn.

'Gan ei fod wedi bod mor ddwys [cymorth therapydd iaith a lleferydd], mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae ei lleferydd wedi datblygu'n sylweddol, ac mae ei hymddygiad llawer yn well. Dw i ddim yn gwybod beth baswn i'n ei wneud petaen nhw'n ei gymryd oddi arni.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Yn y dechrau, roedd hi'n mynd yn rhwystredig iawn gan nad oedd hi'n gallu siarad, a doedd neb yn ei deall...nawr mae hi'n hyderus iawn' Mam, 25-44 oed, Teulu o angen isel

5.17 Adroddodd oddeutu hanner y rhieni a gafodd eu cyfweld hefyd am welliannau yn hyder eu plant, gallu eu plant i ryngweithio ag oedolion a'u hapusrwydd yn gyffredinol. Roedd rhieni'n priodoli'r rhain yn aml i'r cyfleoedd roedd Dechrau'n Deg wedi'u darparu i'w plentyn i gymdeithasu heb eu rhieni mewn lleoliad gofal plant neu grŵp chwarae.

'Heblaw am Dechrau'n Deg, ni fyddai e [y plentyn] mor hyderus a mentrus ag y mae. Mae e wedi gwneud llwyth o ffrindiau yn y grŵp chwarae [gofal plant].'

'Mae wedi helpu [enw'r plentyn] i ddysgu a rhyngweithio â phlant eraill, ac rydyn ni'n gallu gweld [enw'r plentyn] yn gwella yn yr un modd' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

'O'r blaen roedd hi'n arfer dal ymlaen i fi. Ond mae hi'n chwarae gyda phlant eraill nawr... Mae hi'n sicr yn fwy hyderus nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.18 Roedd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** yn teimlo bod y gwasanaethau i'r teulu roeddent wedi'u defnyddio wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau cyfathrebu eu plentyn. Roedd y gwelliannau hyn yn dueddol o gael eu priodoli i fynychu gofal plant neu grwpiau chwarae. Adroddodd rhai rhieni bod y gwasanaethau roedden nhw wedi'u defnyddio wedi gwneud gwahaniaeth i ymddygiad eu plentyn; roedd y rhieni hyn yn dueddol o fod wedi mynychu cwrs rhianta neu wedi derbyn cymorth ychwanegol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Effaith ar sgiliau ymarferol**

5.19 O gymharu â chanfyddiadau Ton 1 a 2, roedd rhieni yn Nhon 3 yn adrodd yn amlach bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau ymarferol eu plentyn. Fodd bynnag, fel yn y Tonnau blaenorol, ni adroddwyd am effaith ar sgiliau ymarferol mor aml ag effeithiau ar sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu ac ymddygiad yn Nhon 3. Roedd oddeutu hanner rhieni Ton 3 yn ystyried bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i'w plentyn o ran defnyddio cyllyll a ffyrc a chwpanau, dechrau defnyddio'r toiled a thacluso (o gymharu ag oddeutu un rhan o dair o'r rhieni yn Nhon 2). Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r nifer uwch o deuluoedd a ddefnyddiodd yr hawl gofal plant yn Nhon 3.

> 'Mae e'n trio'i orau i wisgo a mynd i'r toiled ar ei ben ei hun nawr.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig
>
> 'Maen nhw'n helpu i dacluso yn y feithrinfa cyn amser te' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel
>
> 'Mae hi wedi dysgu tacluso [yn y feithrinfa] ac fe helpodd yr Ymwelydd Iechyd llawer gyda dechrau defnyddio'r toiled'. Tad, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

5.20 Cyfeiriodd rhai rhieni yn y **sampl cymharu** at ffyrdd roedd y gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eu plentyn. Roedd y rhieni hyn fel arfer yn sôn bod sgiliau ymarferol eu plentyn, megis gwisgo a thacluso, wedi datblygu o ganlyniad i fynychu lleoliad gofal plant. Roedd rhai o'r rhieni wedi gofyn i'r Ymwelydd Iechyd am gyngor penodol ar sgiliau ymarferol megis dechrau defnyddio'r toiled. Fodd bynnag, nid oedd rhieni yn y teuluoedd cymharu yn dueddol o roi cymaint o enghreifftiau o'r effaith roedden nhw'n teimlo

bod gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn ei chael ar sgiliau ymarferol eu plentyn, o gymharu â rhieni yn y prif sampl.

**Effaith ar iechyd**

5.21 Roedd oddeutu un rhan o dair o'r rhieni yn teimlo bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles eu plentyn, drwy nodi problemau iechyd a lles neu drwy helpu i gael mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. deietegydd, ffisiotherapydd, dermatolegydd). Cyfeiriodd rhai rhieni at achosion ble roedd yr Ymwelydd Iechyd wedi nodi materion iechyd bach a mwy cymhleth, megis anoddefiad llaeth, brech cewyn, ecsema, asthma a phydredd dannedd. Eglurodd rhai rhieni bod yr Ymwelydd Iechyd wedi rhoi cyngor ar feddyginiaeth a thriniaeth briodol ar gyfer materion iechyd bach megis brech cewyn a llindag y geg.

5.22 Dywedodd rhai rhieni bod yr Ymwelydd Iechyd wedi helpu i nodi oedi datblygiadol, a'i hatgyfeirio at arbenigwyr i gael cymorth ychwanegol a diagnosis. Roedd eraill wedi cael eu hatgyfeirio at ddeietegwyr, gan bod yr Ymwelydd Iechyd wedi nodi pryderon am bwysau'r plentyn.

> 'Nid oedd deiet y plant yn dda iawn, ac roedden nhw'n pwyso gormod. Rhoddodd yr Ymwelydd Iechyd a'r deietegydd gyngor da i ni, ac mae'n llawer gwell nawr.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.23 Fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1 a 2, roedd rhai teuluoedd yn ystyried bod yr Ymwelydd Iechyd fel 'brocer' pwysig rhyngddyn nhw a gweithwyr iechyd proffesiynol. Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'r rôl roedd Ymwelwyr Iechyd yn ei chwarae wrth egluro cyngor gweithwyr iechyd proffesiynol eraill wrthyn nhw, ynghyd â helpu i leddfu unrhyw bryderon oedd ganddynt. Roedd y rôl ganolog hon yn cael ei gwerthfawrogi'n arbennig gan rieni oedd â lefel isel o sgiliau iaith Saesneg, neu dim Saesneg o gwbl. Fel yn Nhon 1 a 2, roedd rhai rhieni yn teimlo eu bod wedi gallu cael mynediad at driniaeth yn gyflymach o ganlyniad i gymorth yr Ymwelydd Iechyd.

> 'Roedd yr [rhwystr] iaith yn broblem fawr i ni. Mae [Dechrau'n Deg] wedi helpu gyda llawer o bethau.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

5.24 Eglurodd rhai teuluoedd eu bod yn gallu gofyn am gyngor iechyd gan yr Ymwelydd Iechyd yn hytrach nag aros am apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu neu aros yn y

feddygfa. O ganlyniad, adroddodd rhai teuluoedd eu bod wedi ymweld â'u Meddyg Teulu yn llai aml.

5.25 Cyfeiriodd rhai rhieni yn y **sampl cymharu** at ffyrdd roedd yr Ymwelydd Iechyd wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd eu plentyn. Cyfeiriodd y rhieni hyn at achosion lle roeddent wedi cael cyngor am faterion iechyd bach (e.e. rhwymedd, croen sych/ecsema). Cyfeiriodd mwyafrif y rhieni yn y sampl cymharu at bigiadau eu plentyn pan holwyd nhw ynghylch cymorth â materion iechyd. Nododd rhai rhieni yn y sampl cymharu eu bod wedi profi anawsterau yn cael gafael ar yr Ymwelydd Iechyd wrth geisio cael cyngor iechyd. O gymharu â theuluoedd Dechrau'n Deg, nid oedd rhieni yn y sampl cymharu yn adrodd cymaint eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles eu plentyn.

**Canlyniadau ac effeithiau tybiedig i blant**

5.26 Roedd mwyafrif helaeth y rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod Ton 3 yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddyn nhw. Disgrifiodd y rhieni ystod o ffyrdd roedd y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i'w sgiliau a'u gwybodaeth rhianta, yn ogystal â lles eu hunain a'u teulu. Nodwyd cynnydd mewn hyder a gwybodaeth fel rhai o'r effeithiau a adroddwyd amdanynt o ganlyniad i'r cyngor a'r cymorth a gafwyd drwy gymryd rhan yn y Rhaglen.

> 'Heb y cyngor hwnnw, byddwn i wedi mynd i boeni ac i banig ar fy mhen fy hun, panig am fwydo neu rhywbeth felly. Ond byddwn i'n cael galwad ffôn neu neges destun, ac roeddwn i'n gallu gwirio pethau'n hawdd.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

5.27 Roedd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** yn teimlo bod y gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddyn nhw fel rhiant. Fodd bynnag, roedd rhieni yn y sampl cymharu yn dueddol o roi llai o enghreifftiau o'r modd roedd y gwasanaethau roeddent wedi'u defnyddio wedi gwneud gwahaniaeth iddyn nhw. Yr unig eithriadau i hyn oedd y rhieni a oedd wedi mynd ar gyrsiau rhianta gan eu bod yn cael cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol neu Teuluoedd yn Gyntaf.

> 'Es i ar gwrs Blynyddoedd Rhyfeddol drwy'r Tîm o Amgylch y Teulu – roedd yn gwrs pedair wythnos o hyd. Gwnaeth pethau wella ychydig ar ôl y cwrs –

rhoddodd syniadau i fi ar sut i reoli ymddygiad – pethau fel siartiau sticeri'. Mam, 22-24 oed, grŵp cymharu

**Ymagwedd tuag at rianta**

5.28 Fel yr adroddwyd yn ystod Ton 1 a 2, dywedodd y mwyafrif o rieni bod y Rhaglen wedi'u helpu i ddatblygu ystod o sgiliau rhianta ymarferol: syniadau am weithgareddau y gallant eu cyflawni gyda'u plant; deiet ac arferion yn ystod prydau bwyd; cynorthwyo dysgu eu plant; a rheoli ymddygiad.

5.29 Adroddodd dros hanner y rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod Ton 3 bod defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi rhoi syniadau iddynt am weithgareddau i'w gwneud gyda'u plant. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau roeddent wedi'u gweld mewn grwpiau chwarae ac yn ystod sesiynau gan therapyddion iaith a lleferydd ac athrawon ymgynghorol yn y cartref. Cyfeiriodd rhai rhieni hefyd at awgrymiadau gan Ymwelwyr Iechyd a staff y feithrinfa.

> 'Mae'r therapydd lleferydd wedi rhoi cardiau wedi'u lamineiddio i ni gyda gweithgareddau a gemau i [enw'r plentyn]' Tad, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

> 'Rydyn ni wedi'n dysgu mwy am blant nawr, ac rydyn ni wedi cael gwybod beth allwn ni ei wneud i'w helpu hi i ddatblygu.' Mam, 21 oed neu'n iau, Teulu mewn angen isel

5.30 Nododd fwyafrif y rhieni yn ystod Ton 3 bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i'w sgiliau rhianta ymarferol, megis dechrau defnyddio'r toiled, sefydlu arferion cysgu a golchi eu plentyn.

> 'Dysgais i lawer, roedd e'n wych, yn enwedig tactegau fel sut i gael eich plentyn i ddefnyddio'r toiled ac 'amser allan'. Mam, 21 oed neu'n iau, Teulu mewn angen uchel

5.31 Amlygodd llawer o'r rhieni y ffaith na fyddant wedi gallu fforddio mynd i grwpiau chwarae, cyrsiau a defnyddio gofal plant, heb Dechrau'n Deg. O ganlyniad, roedd rhai rhieni'n teimlo y byddai peidio â chael mynediad at y Rhaglen wedi cael effaith arnyn nhw ynghyd â'u plentyn.

> 'Fyddwn i ddim yn gallu fforddio dosbarthiadau. Byswn i'n teimlo'n isel achos fyswn i methu mynd i unrhyw beth. Mae mynd i bethau'n gwneud i fi deimlo'n dda.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

5.32 Roedd rhieni a oedd yn teimlo bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i'w hymagwedd tuag at rianta yn dueddol o gyfeirio at yr Ymwelydd Iechyd a chyrsiau rhianta sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad plant (e.e. Babanod Rhyfeddol, y Rhaglen Meithrin Rhieni a Rhoi Cynnig ar Goginio) fel ffynonellau cyngor a oedd wedi cael effaith arnynt. Adroddwyd bod y cyngor a'r wybodaeth hon wedi cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth rhieni o fwydydd iach, gofynion deietegol ar wahanol oedrannau ac ymddygiad eu plentyn.

5.33 Nododd oddeutu dwy ran o dair o'r rhieni bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r modd roedden nhw'n cyfathrebu â'u plentyn. Cyfeiriodd rieni at syniadau chwarae a rhyngweithio roeddent wedi'u cael gan staff Dechrau'n Deg, ynghyd â syniadau ar gyfer sut i gefnogi dysgu eu plentyn. Cyfeiriodd rhai o'r rhieni at syniadau y cawsant drwy fynychu cyrsiau megis y Rhaglen Meithrin Rhieni, a rhai at fanteision cyngor un i un a dderbyniwyd gan Weithwyr Teuluoedd neu athrawon cynghorol yn y cartref. Roedd rhai rhieni yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd mewn cyrsiau a fynychwyd yn ystod Ton 1 a 2.

> 'Treuliodd y gweithiwr teulu amser yn chwarae gyda hi, a rhoddodd syniadau i ni ar sut i ddefnyddio ein hamser gyda'n gilydd yn well.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Drwy'r Rhaglen Meithrin Rhieni, rydw i wedi dysgu cymaint am rianta. Dangosodd y gefnogaeth lleferydd i fi sut i chwarae gyda'r plant, a bod angen i fi fynd â nhw allan o'r tŷ.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.34 Roedd oddeutu hanner y rhieni a gafodd eu cyfweld yn ystod Ton 3 yn ystyried bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i reoli ymddygiad.

> 'Os yw e'n dechrau bod yn ddrwg, rydw i wedi cael llawer o wybodaeth ar sut i egluro pethau wrtho a siarad gyda fe' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

5.35 Adroddodd oddeutu traean y rhieni bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddiddyfnu, deiet a threfn amser bwyta, a chyfeiriodd rhai at effaith gadarnhaol ar fwydo ar y fron. Adroddodd oddeutu chwarter bod y Rhaglen wedi eu helpu i sicrhau bod eu cartref yn ddiogel.

5.36 Roedd rhieni mewn teuluoedd lle'r oedd plentyn newydd wedi'i eni yn ystod Ton 2 neu 3 yn nodi'n aml pa mor bwysig oedd yr amser roeddent yn gallu ei dreulio

gyda'u plentyn ieuengaf tra fod brawd neu chwaer hŷn yng ngofal plant Dechrau'n Deg.

> 'Mae llawer mwy o amser gen i gyda fy mhlentyn ieuengaf i ddod yn agosach, mae'n llawer haws pan mae e'n dysgu gyda'i ffrindiau yn y feithrinfa.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

5.37 Roedd rhai rhieni yn teimlo eu bod wedi dod yn rieni gwell drwy gael mynediad at hawliau'r Rhaglen. Roedd rhai o'r rhieni yn priodoli hyn yn bennaf i gyrsiau rhianta ond, yn fwy aml, roedd rhieni yn teimlo bod hyn o achos cyfuniad o wybodaeth a gafwyd o wahanol hawliau.

> 'Mae wedi cynyddu ein gwybodaeth. Rydyn ni wedi cael chwech o blant, ond maen nhw i gyd yn wahanol ac mae pethau'n newid o hyd, felly mae dal angen y cyngor yna arnoch chi.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Mae wedi tawelu'n meddwl, mae'n braf cael 2 awr a hanner i'n hunain [yn ystod gofal plant], ond yn gyffredinol rydyn ni'n credu ei fod wedi helpu'r plant yn fwy' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen canolig

> 'Mae wedi fy ngwneud i'n rhiant gwell. Gyda'u help nhw rydw i wedi magu hyder.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

5.38 Roedd rhai rhieni yn y **sampl cymharu** a oedd wedi cael eu hatgyfeirio at y cyrsiau rhianta gan y gwasanaethau cymdeithasol neu elusennau yn teimlo bod y rhain wedi gwneud gwahaniaeth i'w hymagwedd tuag at rianta. Adroddodd y rhieni hyn ganlyniadau tebyg i rieni yn y prif sampl (e.e. rhoi strategaethau iddynt ar gyfer rheoli ymddygiad eu plant; syniadau ar gyfer coginio prydau iach). Fel arfer roedd rhieni a oedd wedi mynychu cyrsiau tylino babanod yn adrodd bod y rhain wedi gwneud gwahaniaeth iddyn nhw drwy eu helpu nhw a'u plentyn i ymlacio. Nododd rhai rhieni eraill bod y gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth i'w hymagwedd tuag at rianta, ac wedi rhoi syniadau iddyn nhw am weithgareddau i'w gwneud gyda'u plentyn.

5.39 Cyfeiriodd rhai rhieni yn y sampl cymharu at fanteision cyffredinol cael cyngor gan rieni eraill (e.e. drwy sgyrsiau mewn grwpiau chwarae), ond fel arfer nid oedd y rhieni hyn yn crybwyll materion penodol roeddent wedi derbyn cyngor yn eu cylch.

5.40 Bu i rai rhieni yn y sampl cymharu grybwyll y byddant wedi hoffi cymorth a chyngor mwy anffurfiol gan yr Ymwelydd Iechyd. Roedd rhai rhieni'n teimlo bod yr Ymwelydd/Ymwelwyr Iechyd yn ymddangos fel nad oedd digon o amser ganddynt i ddarparu'r math hwn o gyngor. Nododd eraill eu bod wedi gofyn cwestiynau i'r Ymwelydd Iechyd yn ystod ymweliad, ond nad oeddent wedi derbyn ymateb, fel arfer oherwydd eu bod wedi gweld Ymwelydd Iechyd arall yn eu apwyntiad nesaf. Roedd y teuluoedd hyn yn dueddol o fynegi rhwystredigaethau gan nad oeddent wedi derbyn ymateb i'w ymholiadau.

> 'Rydw i'n credu bod y gwasanaeth [Ymwelwyr Iechyd] yn iawn os nad oes gan y plentyn anghenion ychwanegol, ond roedd yn ymddangos bod gormod ganddynt ar eu plât.' Mam, 25-44 oed, Sampl cymharu

**Lles rhieni a theuluoedd**

5.41 Roedd mwyafrif y teuluoedd yn Nhon 3 yn parhau i werthfawrogi'r cymorth roeddent wedi'i dderbyn drwy Dechrau'n Deg, a'r hyder roedd hyn yn ei roi iddynt yn eu sgiliau rhianta. Fel yn Nhon 1 a 2, ystyriwyd bod cael mynediad at gyngor proffesiynol yn galonogol, ac roedd hyn yn fantais bwysig i ddefnyddio'r Rhaglen. Roedd rhieni'n aml yn cyfleu hyn gan nodi eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a thawel eu meddwl oherwydd y cymorth oedd ar gael.

> 'Rydw i'n un sy'n poeni, ac mae Dechrau'n Deg wedi gwneud i fi deimlo'n hollol ymlaciol. Rydw i'n ymddiried ynddyn nhw'n llwyr, ac mae'n teimlo fel petai chi'n rhoi eich plentyn i famau eraill i ofalu amdanyn nhw. Does dim angen i fi boeni o gwbl pan mae e yn y feithrinfa.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.42 Roedd mwyafrif y rhieni yn Nhon 3 yn cyfeirio at fanteision cymdeithasol cadarnhaol o ddefnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg. Roedd y rhain yn cynnwys cwrdd â rhieni eraill, gwneud ffrindiau, a gallu gadael y tŷ. Roedd rhai teuluoedd yn ei gweld hi'n bwysig iawn bod ganddynt fynediad at leoliad ffisegol y gallant ymweld ag ef gyda'u plant i gwrdd â rhieni eraill a chael cyngor. Roedd rhieni'n aml yn cyfeirio at bwysigrwydd cael 'newid', 'rhywle i fynd', neu 'adael y tŷ' ar gyfer eu lles eu hunain a'u plant. Roedd manteision cael gwahanol hawliau Dechrau'n Deg mewn un lleoliad yn amlwg hefyd ym mhrofiadau teuluoedd Ton 3. Cyfeiriodd rhai rhieni at y ffyrdd roedd cael gwasanaethau mewn un lle wedi bod o

fantais iddyn nhw. Er enghraifft, mynd i weld yr Ymwelydd Iechyd mewn clinig galw heibio yn ystod sesiwn 'aros a chwarae', a gadael eu plentyn yn y crèche wrth fynychu cwrs rhianta.

> 'Mae e wedi gwneud gwahaniaeth yn gymdeithasol. Rydych chi'n mynd allan ac yn gweld pobl. Byddai'n unig i fi heb Dechrau'n Deg. Dim ond hyn a hyn o weithiau allwch chi fynd â nhw i'r parc!' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Os nad oedd Dechrau'n Deg yma, mae'n siŵr na fyddai canolfan i deuluoedd yn agos i lle rydw i'n byw. Fyddai gen i ddim o'r ffrindiau sydd gen i nawr, na'r rhwydwaith gymorth sydd gen i nawr.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

5.43 Roedd mwyafrif y rhieni yn ystyried bod eu lles wedi gwella oherwydd eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg. Roedd rhieni yn Nhon 3 yn cyfeirio amlaf at deimlo'n dawelach eu meddwl oherwydd y cyngor a ddarperir (neu o wybod bod cyngor ar gael), neu'n teimlo'n fwy ymlaciol oherwydd yr amser roedd ganddynt pan roedd eu plentyn yn cael gofal. Disgrifiodd rhai rhieni fanteision mwy uniongyrchol i'w lles eu hunain, megis gwelliant i'w hiechyd meddwl ar ôl cyngor gan Ymwelydd Iechyd, neu cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gofal iechyd.

> 'Byddai'r gor-bryder lawer gwaeth fwy na thebyg, a byddai angen i fi aros yn hirach am gymorth. Mae'n haws gyda Dechrau'n Deg.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Dydw i heb gael cymorth gan neb arall, felly hebddyn nhw byddai gen i neb i siarad â nhw. Daethant i fy ngweld bob wythnos yn ystod y beichiogrwydd oherwydd ro'n i wir yn ei chael yn anodd.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Byddai bywyd yn anoddach ac yn fwy o straen heb Dechrau'n Deg. Mae pawb angen rhywun weithiau. Mae'n gallu bod yn unig iawn yn y tŷ gyda'r plant, gallwch deimlo fel carcharor, felly mae'n bwysig cymdeithasu a siarad gyda rhieni eraill.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.44 Roedd rhieni'n gwerthfawrogi'n arbennig yr amser roedd ganddynt i'w hunain pan roedd eu plentyn yn mynychu gofal plant Dechrau'n Deg. Pwysleisiodd rhai rhieni bod hyn yn rhoi cyfle iddynt dreulio amser gyda phlant eraill, gwneud gwaith tŷ neu siopa.

> 'Mae wir wedi ein helpu ni gan fod mwy o amser gan y ddau ohonon ni ar wahân. Mae e'n llai glynol, ac mae mwy o amser gen i i weithio neu i wneud gwaith tŷ. Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.45 Adroddodd rhai rhieni bod Dechrau'n Deg wedi eu galluogi i barhau i weithio neu i weithio mwy o oriau na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Roedd rhai hefyd wedi ymrestru ar gyrsiau o ganlyniad i'r amser rhydd oedd ganddynt.

> 'Mae'n wasanaeth gwych am ddim. Yn ariannol, faswn i ddim wedi gallu mynd yn ôl i'r gwaith heb ofal plant am ddim. Ni fyddai dychwelyd i'r gwaith a thalu am ofal plant preifat wedi bod werth ei wneud i mi.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Mae wedi fy helpu i ddychwelyd i'r gwaith, a phetawn i heb fynd i'r grwpiau rhianta y tro cyntaf, dw i ddim yn credu y byddwn i mor hyderus gyda fy ail blentyn.' Mam, 20-24 oed, Teulu mewn angen uchel

> 'Mae mwy o amser gyda ni nawr, ac rydyn ni'n dau'n astudio Saesneg.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen canolig

5.46 Amlygodd rhai rhieni, o deuluoedd dduon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol, effaith yr ystod o gymorth ychwanegol a ddarparwyd gan staff Dechrau'n Deg. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gyda chael mynediad at neu ryngweithio â gwasanaethau eraill megis derbyniadau ysgol a thai.

> '[Heb Dechrau'n Deg, byddai wedi bod] Yn anodd iawn - byddai heb fod yn bosib gwneud cais am feithrinfa' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen isel

5.47 Pwysleisiodd rhai rhieni bwysigrwydd y cymorth a ddarparwyd gan staff Dechrau'n Deg wrth eu cynorthwyo i ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, a'u hail-gyfannu nhw â'u plant ar ôl lleoliad gofal.

> 'Helpodd [aelod o staff Dechrau'n Deg] fi i gael fy mhlentyn yn ôl ar ôl y lleoliad gofal - roedden nhw'n wirioneddol gefnogol pan roedd angen y cymorth arna i. Mae'n dda gwybod bod gen i rywun i droi atyn nhw.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

'Mae'r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel. Mae'r Ymwelydd Iechyd a'r gweithiwr cymorth i deuluoedd ill dau wedi bod yn wych gyda'n teulu ni.' Mam, 25-44 oed, Teulu mewn angen uchel

5.48 Roedd rhieni yn y sampl cymharu yn dueddol o roi llai o enghreifftiau o sut roedd gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth iddyn nhw fel rhieni. Soniodd rhai rhieni yn y **sampl cymharu** bod y gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth i'w lles nhw a lles eu teulu. Yr enghraifft a roddwyd amlaf gan rieni yn y sampl cymharu oedd gallu cwrdd â rhieni eraill drwy fynychu'r grwpiau chwarae. Dywedodd rhai rhieni yn y sampl cymharu eu bod yn fwy ymlaciol ac yn dawelach eu meddwl oherwydd y cymorth roeddent wedi'i gael gan rieni eraill.

**Astudiaeth achos: canlyniadau ac effeithiau**

5.49 Mae'r astudiaethau achos isod yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd mae rhieni yn credu bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar eu teulu. Mae'r astudiaethau achos yn cyfleu taith y teuluoedd drwy'r Rhaglen, drwy dynnu ar ddata o dair ton y gwaith maes hwn. Mae enwau a rhai manylion yn yr astudiaethau achos hyn wedi'u newid i sicrhau anhysbysrwydd.

**Astudiaeth Achos 5: Teulu Davies**

Mae Kelly Davies yn riant sengl yn ei 20au cynnar, ac mae'n byw gyda'i dwy ferch, un yn dair oed a'r llall yn 18 mis. Ei bydwraig gyflwynodd hi i Dechrau'n Deg, drwy roi taflenni am y gwasanaethau oedd ar gael iddi.

Roedd gan Kelly yr un Ymwelydd Iechyd yn ystod Ton 2 a 3, ac mae'n teimlo bod eu perthynas yn dda. Cymharodd hi hyn gyda'r profiad o gael mwy nag un Ymwelydd Iechyd cyn Ton 1, ac roedd yn teimlo bod y cysondeb hwn wedi gwella ei phrofiad o Dechrau'n Deg. Roedd hi hefyd wedi manteisio'n aml ar weithiwr cymorth i deuluoedd drwy Dechrau'n Deg, ac mae'n teimlo'n gyfforddus yn gofyn am eu cyngor a'u cymorth.

> *'Dydw i heb gael cymorth gan neb arall, felly hebddyn nhw byddai gen i neb i siarad â nhw. Daethant i fy ngweld bob wythnos yn ystod y beichiogrwydd oherwydd ro'n i wir yn ei chael yn anodd.'*

Roedd Kelly yn dioddef o iselder pan roedd hi'n feichiog gyda'i phlentyn ieuengaf, ac roedd ei gweithiwr cymorth i deuluoedd yn ymweld â hi'n wythnosol. Roedd y gweithiwr cymorth i deuluoedd hefyd yn mynd gyda hi i sesiynau gyda gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Canfu bod y cymorth hwn yn fuddiol iawn, ac roedd hi'n teimlo na fyddai wedi bod yn ddigon hyderus i fynychu'r sesiynau hyn heb gymorth staff Dechrau'n Deg.

> *'Daeth hi [Ymwelydd Iechyd] gyda fi i apwyntiad iechyd meddwl. Baswn i heb fynd hebddi.'*

Yn ystod Ton 1, nid oedd Kelly'n teimlo'n ddigon hyderus i fynychu sesiynau rhianta gyda rhieni eraill. Yn fuan ar ôl genedigaeth ei merch gyntaf, ymwelodd gweithiwr cymorth i deuluoedd Dechrau'n Deg â thŷ Kelly i ddarparu sesiynau tylino babanod a sesiynau chwarae synhwyraidd, a arweiniodd at Kelly i ddechrau canu, darllen a chwarae gyda'i phlentyn mwy na'r oedd hi'n arfer. Mae hi'n dal i wneud defnydd o'r tylino babanod gyda'i merch ieuengaf pan mae hi'n teimlo'n ofidus ac mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn iddi.

> *"Rhoddodd y sesiynau [yn y cartref] lawer o syniadau i fi o bethau i'w gwneud - blwch trysorau a ffyrdd o wneud teganau... ...helpodd y tylino babanod i ymlacio'r babi a fi hefyd. Mae wir wedi fy helpu i i ddod yn agosach â [enw'r plentyn] oherwydd roedd iselder ôl-enedigol gyda fi.'*

O ganlyniad i'r sesiynau a ddarparwyd yn y cartref, roedd Kelly'n teimlo'n ddigon hyderus i fynychu cyrsiau rhianta mewn canolfan Dechrau'n Deg leol yn ystod Ton 2, ac mae hi'n

teimlo bod hyn wedi bod o fudd i'w theulu. Mae Kelly wedi bod yn ddioddefwr o gam-drin domestig yn flaenorol, a thrwy fynychu cyrsiau rhianta mae hi wedi cael yr hyder i fynychu cwrs i ddioddefwyr cam-drin domestig a oedd o gymorth iddi. Mae Kelly'n teimlo bod staff Dechrau'n Deg yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd.

> *'Maen nhw [staff Dechrau'n Deg] yn rhannu negeseuon â'i gilydd o hyd, ac yn rhoi gwybod i'w gilydd beth sy'n mynd ymlaen.'*

Yn ddiweddar, mae merch hynaf Kelly wedi symud i'r Cyfnod Sylfaen, ac mae'n teimlo bod defnyddio gofal plant Dechrau'n Deg wedi gwneud y cam hwn lawer yn haws, gan fod ei merch wedi datblygu ei lleferydd a'i hiaith ynghyd â sgiliau ymarferol, ac roedd hi'n priodoli hyn yn rhannol i'r gofal plant.

> *'Mae hi wedi dysgu llawer yn [lleoliad gofal plant]... fel sut i ddefnyddio cyllell i roi menyn ar ei thost.'*

Mae Kelly'n gobeithio y bydd ei merch ieuengaf yn gallu manteisio ar yr hawl gofal plant yn ystod y flwyddyn nesaf, ac y bydd hi'n elwa cymaint â'i chwaer hŷn ar Dechrau'n Deg. Roedd hi'n teimlo y byddai bywyd wedi bod llawer anoddach heb y Rhaglen.

> *'Dw i ddim yn siŵr beth fyddwn i wedi'i wneud hebddyn nhw [staff Dechrau'n Deg].'*

**Astudiaeth achos 6: Teulu Hussein**

Ffoaduriaid o Irac yw teulu Hussein a oedd wedi bod yn byw yn eu hardal leol ers 18 mis ar adeg y cyfweliad. Mae Mr Hussein mewn gwaith rhan amser, mae Mrs Hussein yn ddi-waith, ac mae pedwar o blant ganddyn nhw (9, 8, 5 a 3 mlwydd oed). Mae gan y ddau riant sgiliau iaith Saesneg cyfyngedig, ac maen nhw'n siarad Arabeg yn y cartref.

Clywodd y teulu am Dechrau'n Deg drwy'r Ymwelydd Iechyd, a ddywedodd wrthyn nhw am yr hawl i gael gofal plant a chyrsiau rhianta. Yn ystod Ton 2, dywedodd Mr a Mrs Hussein bod staff Dechrau'n Deg wedi bod yn hanfodol i'r teulu wrth setlo yn yr ardal ac wrth gael mynediad at wasanaethau sylfaenol megis deintydd, derbyniadau ysgolion, elusennau a chanfod cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

> *'Mae hi mor gefnogol, oherwydd y rhwystrau ieithyddol a bod yn newydd i'r wlad, mae hi wedi'n helpu ni gyda'n prif broblemau.'*

Yn ystod Ton 3, disgrifiodd Mr Hussein bod yr Ymwelydd Iechyd wedi'u hatgyfeirio at ddeietegydd a therapydd iaith a lleferydd, ynghyd â'u hannog nhw i fynychu grŵp chwarae

lleol. Disgrifiodd Mr Hussein pa fanteision oedd i'r plant fynychu gofal plant, gan nodi bod eu plant nawr fwy cymdeithasol a bod ganddynt well sgiliau rhyngweithio. Nododd eu bod nhw'n llai swil, ac yn fwy parod i ryngweithio â dieithriaid. Roedd yn teimlo bod hyn wedi helpu un o'i blant i setlo yn yr ysgol feithrin yn gyflymach. Dywedodd Mr Hussein hefyd bod ei blant wedi dechrau defnyddio pensiliau a llyfrau yn y gofal plant.

> *'Doedd hi ddim yn dda iawn adref, ac mae hi wedi bod llawer gwell yn chwarae [gyda'i brodyr a'i chwiorydd] ers dechrau yn y feithrinfa.'*

Mynychodd Mr a Mrs Hussein gyrsiau rhianta yn ystod Ton 3. Mynychodd y ddau riant Rhaglen Meithrin Rhieni, a chanfod bod y rhaglen yn eu darparu nhw â strategaethau defnyddiol ar gyfer rheoli ymddygiad eu plant a dadleuon.

> *'Mae'r cwrs meithrin wedi'n helpu ni i fod yn fwy ymlaciol ac yn fwy hyderus. Llai o ddadlau, a defnyddio 'amser allan' yn lle. Roedd mor ddefnyddiol roeddwn i am barhau i'w ddefnyddio.'*

Mae'r teulu hefyd wedi cael ymweliad gan weithiwr cymorth i deuluoedd yn y cartref. Dywedodd Mr Hussein fod hyn yn eu darparu nhw â strategaethau defnyddiol ar gyfer cyfathrebu.

Roedd Mr Hussein yn gwerthfawrogi'r tripiau undydd roedd staff Dechrau'n Deg wedi'u trefnu. Mae'r teulu wedi bod ar ddau drip y flwyddyn, ac roedd hyn yn ffordd dda o ddod i adnabod rhieni eraill.

> *'Rydw i'n fwy hyderus a balch nawr – roedden ni'n arfer cael trafferth canfod llefydd i fynd â'r plant.'*

Soniodd Mr Hussein bod y ddau riant nawr yn mynychu dosbarthiadau Saesneg, a bod y gofal plant wedi rhoi amser iddyn nhw gymryd rhan yn y sesiynau hyn.

> *'Mae mwy o amser gyda ni nawr, ac rydyn ni'n dau'n astudio Saesneg.' Roedd yr [rhwystr] iaith yn broblem fawr i ni. Mae [Dechrau'n Deg] wedi helpu gyda llawer o bethau.'*

**Crynodeb: Canlyniadau ac effeithiau tybiedig**

Un o amcanion yr astudiaeth oedd deall beth roedd rhieni yn ystyried oedd effeithiau tymor canolig i hirdymor y Rhaglen ar gyfer eu teuluoedd.

- Roedd mwyafrif y rhieni yn teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w plentyn. Roedd yr effeithiau cadarnhaol yn cynnwys y rhai roeddent yn eu priodoli i wasanaethau unigol, ond roeddent yn fwy tebygol o gael eu priodoli i'r effaith gyfunol o gael mynediad at fwy nag un hawl.
- Roedd rhieni Ton 3 yn fwy tebygol na'r tonnau blaenorol o gyfeirio at y gwahaniaeth mae cael mynediad at ofal plant wedi'i wneud i'w plentyn, yn enwedig o ran y cyfnod pontio i'r Cyfnod Sylfaen a datblygu sgiliau ymarferol.
- Adroddodd mwyafrif y rhieni eu bod yn credu bod y Rhaglen wedi cael effaith ar ba mor barod oedd eu plentyn ar gyfer yr ysgol; sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu; a sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad.
- Adroddodd oddeutu hanner y rhieni bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eu plentyn (e.e. defnyddio'r toiled, trefn gysgu), ac roedd oddeutu un rhan o dair ohonynt yn teimlo bod y Rhaglen wedi cael effaith ar iechyd eu plentyn (e.e. gallu nodi problemau iechyd).
- Roedd mwyafrif y rhieni'n teimlo bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w sgiliau a'u gwybodaeth rhianta, a lles eu teulu. Ymddengys bod yr effeithiau hyn wedi'u cynnal ers Ton 2.
- Adroddodd mwyafrif y rhieni bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w hymagwedd tuag at rianta, gan gynnwys sut roeddent yn cyfathrebu â'u plentyn a chefnogi eu dysgu, ynghyd â sut roeddent yn rheoli ymddygiad eu plentyn.
- Adroddodd rhai o'r rhieni bod y Rhaglen wedi rhoi mwy o amser iddyn nhw eu hunain, neu amser i gyflawni tasgau yn y tŷ, cael mynediad at addysg a chyflogaeth.
- Roedd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** yn teimlo bod y gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w plentyn, ond roeddent yn dueddol o roi llai o enghreifftiau o'r manteision hyn o gymharu â'r prif sampl.
- Roedd rhieni yn y **sampl cymharu** yn dueddol o ddisgrifio'r ffyrdd roedd gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi atgyfnerthu neu gefnogi'r pethau roedd eu plentyn eisoes yn ei ddysgu yn y cartref.

- Roedd rhieni yn y sampl cymharu yn cyfeirio'n amlach at fanteision cael mynediad at ofal plant (a delir amdano'n breifat fel arfer) na gwasanaethau cymorth i deuluoedd eraill, ac roeddent yn teimlo mai dyma wnaeth y gwahaniaeth mwyaf i'w plentyn.
- Cyfeiriodd rhai rhieni yn y sampl cymharu at effeithiau canfyddedig cael cymorth gan yr Ymwelydd Iechyd, ynghyd â grwpiau chwarae a chyrsiau rhianta.

# 6. Casgliadau

6.1 Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil, gan gynnwys cyfweliadau â'r prif sampl o 72 o deuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r smapl cymharu o 20 o deuluoedd y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Caiff y canlyniadau eu crynhoi o dan bob thema allweddol yr ymchwil, sef ymgysylltiad rhieni, profiadau a chanlyniadau ac effeithiau canfyddedig.

**Ymgysylltu**

6.2 Roedd yr ymchwil yn ceisio canfod sut mae rhieni'n ymgysylltu â gwasanaethau Dechrau'n Deg, pa ffactorau sy'n helpu ac yn amharu ar yr ymgysylltu, a sut mae rhieni yn penderfynu pa hawliau maen nhw'n manteisio arnynt a phryd. Roedd lefelau ymgysylltu â'r Rhaglen yn amrywio yn ystod pob ton o'r astudiaeth, gydag oedrannau plant, profiadau a hyder rhieni, lefelau'r angen a chryfder perthnasau'r rhieni â staff y Rhaglen yn effeithio ar ymgysylltiad.

6.3 Yn gyffredinol, adroddodd teuluoedd Dechrau'n Deg lefelau ymgysylltu uwch â gwasanaethau cymorth i deuluoedd na'r grŵp cymharu. Roedd hyn yn amlwg o ran nifer y gwasanaethau roeddent wedi ymgysylltu â nhw dros y dair don, a lefel eu hymwneud â'r gwasanaethau hyn (e.e. cyswllt amlach ag Ymwelwyr Iechyd). Roedd y lefelau ymgysylltu uwch hyn yn golygu bod gan deuluoedd Dechrau'n Deg mwy i'w ddweud am y gwasanaethau roeddent wedi'u defnyddio na theuluoedd y grŵp cymharu, gan gynnwys adrodd yn amlach eu bod wedi elwa ar y mathau hyn o wasanaethau.

*Ymgysylltu â hawliau a gwasanaethau unigol*

6.4 Yn ystod Ton 1 a 2, roedd lefelau ymgysylltu rhieni â'r hawl Ymweliadau Iechyd Estynedig yn uwch na hawliau eraill. Fodd bynnag, roedd defnydd o'r hawl hwn ychydig yn is yn ystod Ton 3, o ran nifer y rhieni a oedd yn manteisio ar yr hawl a pha mor aml roeddent yn gwneud hynny. Ymddengys bod cysylltiad clir rhwng hyn ac oed y plant, gyda'r defnydd o'r hawl gan amlaf yn ymwneud â gwirio datblygiad wrth i'r plant dyfu'n hŷn. Roedd gan Deuluoedd mewn angen uchel, y rhai oedd â babanod ifanc a'r rhai roedd eu plant wedi profi problemau iechyd neu ddatblygu penodol, lefelau ymgysylltu uwch, fel y disgwylir.

6.5 Roedd pob **teulu yn y sampl cymharu** wedi defnyddio'r gwasanaeth Ymwelydd Iechyd ar ryw adeg yn ystod oes eu plentyn/plant, er adroddodd rhai nad oeddent wedi cael cyswllt â'r gwasanaeth yn y deuddeg mis diwethaf. Roedd teuluoedd

cymharu yn dueddol o adrodd bod y cyswllt yn llai aml, ac roeddent yn fwy tebygol o gwrdd ag Ymwelydd Iechyd mewn clinig o gymharu â'r prif sampl. Roedd teuluoedd Dechrau'n Deg yn dueddol o adrodd eu bod wedi cael eu hatgyfeirio'n amlach at hawliau neu wasanaethau eraill gan yr Ymwelydd Iechyd na'r teuluoedd cymharu.

6.6 Erbyn Ton 3, roedd mwyafrif helaeth y teuluoedd wedi manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg pan roedd y plant rhwng dwy a tair oed. Roedd rhesymau dros fanteisio arno yn cynnwys rhieni eisiau i'w plentyn gymdeithasu â phlant eraill cyn dechrau yn yr ysgol, rhieni eisiau datblygu lleferydd ac iaith eu plentyn, a rhieni eisiau dychwelyd i'r gwaith. Roedd lefelau manteisio ar ofal plant yn ymddangos yn is ymhlith y **sampl cymharu**, a dim ond hanner y rhieni oedd wedi manteisio ar ofal plant cyn i'r plentyn fod yn dair oed.

6.7 Roedd oddeutu hanner y teuluoedd wedi manteisio ar yr hawl lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ystod yr ymchwil. O gymharu â Thon 1 a 2, roedd mwy o deuluoedd yn Nhon 3 yn manteisio ar therapydd iaith a lleferydd neu gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu un i un arall, ac roedd llai o deuluoedd yn manteisio ar grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig ag oed y plant yn nheuluoedd Ton 3, a'r ffocws ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn gwiriadau datblygu wrth i blant agosáu at y Cyfnod Sylfaen. Roedd rhai rhieni'n teimlo nad oedd angen mynediad mor aml arnynt yn Nhon 3 at grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu, oherwydd bod eu plant yn profi digon o ryngweithio cymdeithasol i gefnogi eu datblygiad drwy'r gofal plant.

6.8 Mae creu cymhariaeth â gweithgareddau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn yr ardaloedd cymharu yn peri problemau, gan fod y math o grwpiau a chyrsiau sydd ar gael yn dueddol o fod yn fwy anffurfiol neu heb strwythur, ac felly nid ydyn nhw'n gyfwerth â'r rhai yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, adroddodd rhieni yn y **sampl cymharu** lefelau ymgysylltu uwch â grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu, megis grwpiau chwarae mewn eglwysi neu ganolfannau cymunedol, na'r prif sampl (a oedd yn fwy tebygol o fanteisio ar gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu un i un yn Nhon 3). Mynegodd rhai o'r rhieni yn y sampl cymharu eu bod yn defnyddio'r math hwn o grŵp chwarae i helpu i ddatblygu sgiliau rhyngweithio a chymdeithasol eu plentyn cyn iddynt fynd i'r ysgol feithrin. Gall hyn awgrymu bod rhai rhieni yn y sampl cymharu yn defnyddio grwpiau chwarae gan

nad oeddent yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant. Roedd hyn yn gwrthgyferbynnu â'r prif sampl, oedd â lefelau ymgysylltu uwch â gofal plant.

6.9 Roedd mwyafrif y teuluoedd wedi manteisio ar yr hawl rhianta ar ryw adeg yn ystod Ton 1, 2 neu 3. Adroddodd rhieni mai eu hysgogiad dros fanteisio ar yr hawl rhianta oedd dysgu sgiliau newydd, cael gwybodaeth a chwrdd â rhieni eraill.

6.10 Adroddodd llai o rieni yn y **sampl cymharu** eu bod wedi manteisio ar gymorth rhianta; adroddodd oddeutu un rhan o dair eu bod wedi manteisio ar gwrs rhianta, gan gynnwys tylino babanod a chyrsiau sy'n canolbwyntio ar ymddygiad, datblygiad plant a choginio. Adroddodd rhai rhieni yn y sampl cymharu y byddant yn dymuno gweld rhagor o gyrsiau rhianta ar gael iddynt. Cyfeiriodd rhai o'r rhieni at gyrsiau penodol byddant yn dymuno eu gweld, megis cyrsiau coginio, bwydo ar y fron a datblygu.

**Profiadau**

6.11 Roedd yr ymchwil yn ceisio deall sut brofiad roedd rhieni wedi'i gael â'r hawliau, ynghyd â'u disgwyliadau o'r Rhaglen. Roedd mwyafrif y teuluoedd wedi cael profiadau cadarnhaol â gwasanaethau Dechrau'n Deg yn ystod pob ton o'r astudiaeth, ac roedd lefel uchel o foddhad ganddynt ar gyfer pob hawl, gan gynnwys ansawdd y staff, lleoliadau, cyfleusterau, gweithgareddau ac argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg. Roedd teuluoedd yn dueddol o adrodd nad oedd ganddynt ddisgwyliadau penodol o'r Rhaglen cyn ymwneud â hi, ond adroddodd y rhai oedd â disgwyliadau eu bod wedi'u bodloni neu bod y Rhaglen wedi mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau.

6.12 Roedd gan rieni safbwyntiau cadarnhaol ar y ffyrdd roedd hawliau Dechrau'n Deg yn cydweithio, ac yn ffurfio rhaglen integredig o gymorth i'w teuluoedd. Mae ymwybyddiaeth cryf o frand Dechrau'n Deg, ac atgyfeiriadau o un hawl i'r llall, wedi creu dealltwriaeth o'r cysylltiadau hyn ymhlith y rhieni a gafodd eu cyfweld.

6.13 Roedd gan fwyafrif y teuluoedd yn Nhon 3 safbwyntiau cadarnhaol yn dal i fod o ran ansawdd y cyngor a'r cymorth roeddent wedi'i dderbyn gan yr Ymwelydd Iechyd. Er bod y lefelau ymgysylltu a adroddwyd yn is na Thon 2, roedd mwyafrif y teuluoedd yn credu bod hyn yn ddigonol, ac roeddent yn teimlo'n galonnog bod y cymorth ar gael iddynt.

6.14 Roedd mwyafrif y rhieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl gofal plant yn fodlon â'u profiadau, gan adrodd bod eu plentyn wedi mwynhau mynd i'r lleoliad, a'i fod wedi'u helpu i'w paratoi nhw ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Roedd teuluoedd Ton 3 yn parhau i nodi safbwyntiau cadarnhaol o ran staff, cyfleusterau a chyfathrebu.

6.15 Adroddodd rhieni Ton 3 a oedd wedi manteisio ar yr hawl rhianta, un ai drwy gymorth un i un neu drwy fynychu cwrs, eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol, a oedd yn debyg i Don 1 a 2, gan nodi bod y cymorth o ansawdd uchel ac wedi'i ddarparu'n dda.

6.16 Fel y gwelwyd yn ystod Ton 1 a 2, roedd mwyafrif y rhieni a oedd wedi manteisio ar yr hawl lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi cael profiadau cadarnhaol wrth fynychu grwpiau neu fanteisio ar gymorth therapydd iaith a lleferydd. Dywedodd rhieni fod grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi rhoi cyfleoedd i'w plentyn gymdeithasu â phlant eraill, a rhyngweithio â phlant ac oedolion.

6.17 Roedd yr ymchwil hefyd yn archwilio pa mor dda roedd Dechrau'n Deg wedi nodi ac ymateb i anghenion teuluoedd o ran darpariaeth Gymraeg. Roedd rhai rhieni ym mhob Ton wedi manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg, wedi mynychu grwpiau lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymraeg eu hiaith, ac wedi cael mynediad at Ymwelydd Iechyd neu therapydd iaith a lleferydd Cymraeg eu hiaith. Roedd rhai teuluoedd wedi manteisio ar gymorth i rieni drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ystod yr ymchwil. Yn ystod Ton 3, parhaodd rhieni i adrodd bod y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nid oedd yr holl rieni o'r un farn am argaeledd gwasanaethau iaith Gymraeg. Roedd rhai o'r rhieni yn ei gweld yn anodd cael mynediad at Ymwelydd Iechyd sy'n siarad Cymraeg a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, ac roedd nifer fach wedi methu â chael mynediad at y gwasanaethau hyn, er mai Cymraeg oedd eu hiaith o ddewis.

6.18 Roedd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** wedi cael profiadau cadarnhaol o'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd roeddent wedi manteisio arnynt. Roedd mwyafrif y rhieni yn y sampl cymharu a oedd wedi manteisio ar ofal plant a grwpiau neu gymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi cael profiad cadarnhaol, ac adroddwyd lefelau tebyg o foddhad â'r prif sampl mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn. Adroddodd mwyafrif y teuluoedd cymharu hefyd eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol wrth ymgysylltu â'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu, er bod eu boddhad â'r gwasanaethau hyn fymryn yn is na'r prif sampl. Roedd rhieni'r sampl cymharu hefyd yn llai tebygol

na'r rhai yn ardaloedd Dechrau'n Deg o ganfod bod gwahanol wasanaethau cymorth i deuluoedd yn berthnasol i'w gilydd neu'n gweithio mewn modd integredig. Mae'n bosib mai'r rheswm dros hyn yw fod cysylltiad amlach â'r Ymwelwyr Iechyd (ac eraill) yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ac felly bod mwy o gyfleoedd i gyfeirio rhieni neu eu cefnogi nhw i gael mynediad at wasanaethau eraill.

**Casgliadau ac effeithiau tybiedig**

6.19 Roedd yr ymchwil yn ceisio deall beth roedd rhieni'n teimlo oedd effeithiau tymor canolig a hirdymor y rhaglen. Gan gydnabod bod cyfyngiadau wrth ddadansoddi effeithiau'n seiliedig ar brofiadau hunangofnodedig, mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos yn glir bod rhieni yn ystyried bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i'w teulu. Adroddodd rhieni ym mhob ton o'r ymchwil bod y Rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu plentyn, ynghyd â'i bod wedi bod o fudd iddyn nhw fel rhiant. Mae canfyddiadau cyfweliadau hydredol Ton 3 hefyd yn dangos bod mwyafrif y rhieni'n credu bod llawer o'r canlyniadau wedi cael eu cynnal dros amser. Er enghraifft, adroddodd rhai eu bod wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd gan y Rhaglen yn ystod blynyddoedd blaenorol.

6.20 Adroddodd rhieni yn Nhon 3 bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i ba mor barod roedd eu plentyn ar gyfer yr ysgol; sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu; sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad; a sgiliau ymarferol. Roedd rhieni Ton 3 yn fwy tebygol o gyfeirio at yr effaith a gafwyd ar eu plentyn drwy ddefnyddio gofal plant Dechrau'n Deg o gymharu â thonnau blaenorol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith rhieni plant a oedd wedi symud i'r Cyfnod Sylfaen, ac a oedd yn teimlo bod eu plentyn yn fwy parod i ddechrau'r ysgol gan eu bod wedi cael mynediad at y gofal plant. Roedd rhieni Ton 3 hefyd yn fwy tebygol na'r oeddent mewn tonnau blaenorol i adrodd bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eu plentyn (e.e. dysgu defnyddio'r toiled, tacluso), ac eto roeddent yn priodoli hyn amlaf i'r gofal plant.

6.21 Adroddodd rhai rhieni bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd eu plentyn wrth i staff nodi problemau iechyd, darparu cyngor a gwneud atgyfeiriadau i weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Yn debyg i Don 1 a 2, roedd rhai rhieni wedi derbyn cymorth gan staff Dechrau'n Deg drwy gysylltu â gweithwyr iechyd

proffesiynol eraill, ac roeddent yn teimlo bod hyn wedi'u helpu i ddatrys problemau iechyd neu gael mynediad at wasanaethau'n gynt.

6.22 Roedd rhieni yn Nhon 3 yn parhau i adrodd bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'w hymagwedd tuag at rianta a lles eu teulu. Ymddengys bod mathau'r canlyniadau a'r effeithiau a adroddwyd gan rieni yn Nhon 2 wedi parhau yn Nhon 3. Roedd mwyafrif y rhieni yn ystyried bod yr wybodaeth a'r profiadau roeddent wedi'u cael drwy'r Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w sgiliau rhianta, eu hyder a'u lles. Bu i rai rhieni grybwyll eu bod yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth roeddent wedi'i chael mewn tonnau blaenorol. Adroddodd y mwyafrif bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth yn y modd maen nhw'n cyfathrebu â'u plentyn ac yn cefnogi eu dysgu, ynghyd â sut roeddent yn rheoli ymddygiad eu plentyn.

6.23 Er bod lefelau ymgysylltu â'r hawl gwasanaeth ymweliadau iechyd estynedig yn is i fwyafrif rhieni Ton 3, adroddodd rhieni eu bod wedi parhau i gyfeirio at gyngor roeddent wedi'i dderbyn yn ystod blynyddoedd blaenorol. Adroddodd rhai rhieni bod eu hyder wedi cynyddu, a'u bod yn dawelach eu meddwl oherwydd y Rhaglen. Roedd rhai yn teimlo bod y Rhaglen wedi gwneud gwahaniaeth i agweddau penodol ar rianta, megis bwydo ar y fron, diddyfnu a sicrhau diogelwch yn y cartref. Adroddodd rhai rhieni Ton 3 bod yr hawl gofal plant wedi rhoi mwy o amser iddynt gwblhau tasgau yn y tŷ, neu gael mynediad at addysg a chyflogaeth.

6.24 Adroddodd mwyafrif y rhieni yn y **sampl cymharu** bod y gwasanaethau cymorth i deuluoedd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w teulu, ond roeddent yn dueddol o roi llai o enghreifftiau o'r modd roedd eu plentyn wedi elwa. Roedd teuluoedd cymharu yn cyfeirio amlaf at fanteision cael mynediad at ofal plant mewn perthynas â sgiliau cymdeithasol eu plentyn, eu rhyngweithio, eu hymddygiad a pha mor barod oeddent am yr ysgol. Roedd rhai o'r rhieni yn credu bod eu plentyn wedi elwa ar yr Ymwelydd Iechyd ynghyd â grwpiau chwarae a chyrsiau rhianta roeddent wedi'u mynychu.

**Canfyddiadau cyffredinol**

6.25 Roedd mwyafrif y teuluoedd wedi aros mewn cysylltiad ag o leiaf un hawl Dechrau'n Deg drwy gydol Ton 1, 2 a 3. Fel y disgwylir wrth i blant dyfu'n hŷn, adroddodd y teuluoedd lefelau ymgysylltu is â'r gwasanaeth ymweliadau iechyd

estynedig, a gwelwyd yn gynyddol mai'r gofal plant oedd prif ffocws eu hymgysylltiad. Adroddodd rhieni yn y prif sampl lefelau ymgysylltu uwch ag Ymwelwyr Iechyd a gofal plant, o gymharu â'r **sampl cymharu**.

6.26 Roedd teuluoedd Dechrau'n Deg fwy tebygol o ddeall y cysylltiadau rhwng gwahanol wasanaethau roeddent wedi cael mynediad atynt o gymharu â theuluoedd cymharu, a oedd yn dueddol o'u gweld fel gwasanaethau ar wahân. Felly, roedd rhieni Dechrau'n Deg yn fwy tebygol na'r grŵp cymharu o weld Ymwelwyr Iechyd, o gael gofal plant, a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu a chymorth rhianta fel rhan o becyn di-dor o gymorth blynyddoedd cynnar. Ymddengys y caiff hyn ei atgyfnerthu gan lefelau ymwybyddiaeth uchel o frand Dechrau'n Deg ymhlith rhieni mewn ardaloedd cymwys, ynghyd â staff Dechrau'n Deg yn codi ymwybyddiaeth ac yn atgyfeirio rhieni at wahanol hawliau.

6.27 Adroddodd rhieni ym mhob ton o'r ymchwil lefelau boddhad uchel ar gyfer pob hawl. Caiff profiadau teuluoedd sy'n gadarnhaol yn bennaf eu hadlewyrchu yn eu barn am y staff, y ddarpariaeth o'r gwasanaeth a'r cymwysterau neu leoliadau. Roedd lefelau boddhad â gwasanaethau cymorth i deuluoedd ymhlith rhieni yn y **sampl cymharu** yn debyg ar gyfer gofal plant a chyrsiau rhianta. Fodd bynnag, roeddent ychydig yn is ar gyfer y gwasanaeth Ymwelydd Iechyd a'r cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

6.28 Mae mwyafrif y rhieni'n parhau i gredu bod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad eu plentyn, ynghyd â helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain fel rhiant. Mae natur hydredol yr astudiaeth hon wedi'n galluogi ni i arsylwi bod llawer o'r manteision canfyddedig roedd rhieni wedi'u priodoli i'r Rhaglen wedi'u cynnal drwy gydol Ton 1, 2 a 3.

**Cyfeirnodau**


Llywodraeth Cymru (2017a) *Adroddiad Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg Adroddiad Ton 2,* Gweler *https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170131-qualitative-research-flying-start-families-wave-2-cy.pdf*
(Cyrchwyd 5[ed] o Ragfyr 2017)

Llywodraeth Cymru (2017b) *Dechrau'n Deg, ystadegau cryno 2016-17,* Gweler https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170131-qualitative-research-flying-start-families-wave-2-summary-cy.pdf (Cyrchwyd 5[ed] o Ragfyr 2017)

Llywodraeth Cymru (2016a) *Adroddiad Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg Adroddiad Ton 1,* Saesneg yn unig, Gweler http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy
(Cyrchwyd 6[ed] o Hydref 2016)

Llywodraeth Cymru (2016b) Asesiad o werthusadwyedd Dechrau'n Deg, Gweler: https://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161102-evaluability-assessment-flying-start-cy.pdf
(Cyrchwyd 21[ain] o Dachwedd 2016)

Llywodraeth Cymru (2015a) *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD),* Gweler: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy
(Cyrchwyd 7[fed] o Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2015c), *Dechrau'n Deg – Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu*, Gweler: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/150616-guidance-on-speech-cy-v1.pdf (Cyrchwyd 7[fed] o Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2014a), *Adroddiad Synthesis Dechrau'n Deg, adroddiad ymchwil cymdeithasol 12/2014,* Gweler: https://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140131-flying-start-synthesis-report-cy.pdf (Cyrchwyd 7[fed] o Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2014b), *Adolygiad o'r ymarferiad yng ngweithrediad yr elfen cymorth datblygiad iaith gynnar o fewn Dechrau'n Deg, adroddiad ymchwil cymdeithasol 62/2014,* Saesneg yn unig, gweler: http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140528-practice-implementation-early-language-development-support-element-within-flying-start-en.pdf (Cyrchwyd 7fed o Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2014c), *Dechrau'n Deg – Canllawiau Pontio.* Gweler: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141124-transition-guidance-cy-v1.pdf (Cyrchwyd 7fed o Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2013a), *Ymchwil ansoddol Dechrau'n Deg gyda theuluoedd angen uchel, adroddiad ymchwil cymdeithasol 64/2013*, Saesneg yn unig, gweler: http://gov.wales/docs/caecd/research/131014-flying-start-qualitative-research-high-need-families-en.pdf (Cyrchwyd 7fed o Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2013b), *Rhaglen Graidd Dechrau'n Deg o Ymweliadau Iechyd Cymru Gyfan,* Gweler: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/150629-health-support-guidance-cy.pdf (Cyrchwyd 12fed o Ionawr 2017)

## Atodiad A: Canllaw Holi Buddiolwyr Drafft Dechrau'n Deg Ton 3

**Cyflwyniad**

1. **[Sampl hydredol] A fyddech gystal â dweud wrthyf a fu unrhyw newidiadau i'ch aelwyd ers y tro diwethaf i ni siarad? [Trowch at y nodiadau blaenorol er mwyn cadarnhau'r manylion]**
   - *Nifer y plant a'u hoedrannau (unrhyw faterion iechyd/ datblygiadol)*
   - *Nifer yr oedolion*
   - *Os yw hynny'n berthnasol, cyswllt rhiant absennol*
   - *Statws cyflogaeth/ hyfforddiant*
   - *Swydd*
   - *Statws iechyd y plant/ rhieni (e.e. unrhyw anghenion arbennig) ac a yw hyn yn effeithio ar y teulu o ran manteisio ar wasanaethau/ cyflogaeth/hyfforddiant*
   - *Teulu a ffrindiau gerllaw*
   - *Defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref a manteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg*
   - *Defnyddio unrhyw ieithoedd eraill yn y cartref/teulu.*

2. **[Teuluoedd newydd] A fyddech gystal â sôn wrthyf am eich aelwyd? [trowch at y sgriniwr recriwtio er mwyn cadarnhau'r manylion yn ôl yr angen]**
   Holi sensitif ynghylch
   - *Nifer y plant a'u hoedrannau (unrhyw faterion iechyd/ datblygiadol)*
   - *Nifer yr oedolion*
   - *Os yw hynny'n berthnasol, cyswllt rhiant absennol*
   - *Statws cyflogaeth/ hyfforddiant*
   - *Statws iechyd y plant/ rhieni (e.e. unrhyw anghenion arbennig) ac a yw hyn yn effeithio ar y teulu o ran manteisio ar wasanaethau/ cyflogaeth/hyfforddiant*
   - *Am ba mor hir y maent wedi bod yn byw yn yr ardal,*
   - *Teulu a ffrindiau gerllaw*
   - *Defnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref a manteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg (e.e. ysgolion)*
   - *Defnyddio unrhyw ieithoedd eraill yn y cartref/teulu?*
   - *Cefndir ethnig?*

**Ymgysylltu a disgwyliadau o Ddechrau'n Deg**

Rydw i'n mynd i ofyn rhai cwestiynau nawr am eich defnydd o wasanaethau Dechrau'n Deg **[Sampl hydredol]**

3. **Ers i ni siarad y tro diwethaf, pa wasanaethau yr ydych chi a) wedi parhau i fanteisio arnynt b) wedi dechrau manteisio arnynt a c) heb fanteisio arnynt ers i chi gael eich cyfweld y tro diwethaf d) heb fanteisio arnynt eto? [Trowch at y sgriniwr a'r nodiadau blaenorol er mwyn llywio'r sgwrs] [Sylwer: efallai na fydd y teulu'n ymwybodol o'r ffaith y cyflogir gweithwyr proffesiynol ehangach gan Ddechrau'n Deg]**
   - *Gofal plant (meithrin ar gyfer plant rhwng 2 a 3 oed)*
   - *Cymorth rhianta – grwpiau neu gyrsiau*
   - *Cymorth rhianta – Un-i-un yn y cartref neu mewn canolfan Dechrau'n Deg*

- *Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – grwpiau neu gyrsiau (e.e. sesiynau IaCh; gweithgareddau SLC a ddarparir mewn lleoliadau mwy anffurfiol)*
- *Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – cymorth un-i-un (e.e. athro ymgynghorol yn y cartref)*
- *Therapi Iaith a Lleferydd*
- *Cymorth gan Ymwelydd Iechyd (Sylwer: dylai pawb fod yn cael hwn)*
- *Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy gyfrwng Dechrau'n Deg (e.e. Bydwragedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd). Holwch am bob un a nodwch pa weithiwr(gweithwyr) proffesiynol y manteisiwyd ar eu gwasanaeth:*

Os ydynt wedi **stopio manteisio ar wasanaeth ers Ton 2**, pam?

- *Wedi cwblhau'r cwrs*
- *Nid oes angen y cymorth mwyach. Pam?*
- *Amser neu leoliad anghyfleus*
- *Anfodlon gyda'r gwasanaeth/nid oedd y plentyn yn mwynhau neu'n cael budd*
- *Rhy brysur*

4. **[Os ydynt wedi manteisio ar wasanaethau newydd] Sut glywsoch chi am y gwasanaeth?** Holwch am bob gwasanaeth newydd: *(i. Cymorth iechyd: Ymweliadau iechyd ac unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd) ii. Gofal plant, iii. Iaith a Chwarae (IaCh) / cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu a iv. Cymorth rhianta).*
   Holwch:
   - Sut y cawsoch chi wybod am bob gwasanaeth? (e.e. Ymwelydd Iechyd, gweithiwr iechyd proffesiynol arall (Meddyg Teulu, bydwraig), ffrindiau/teulu, gweithiwr meithrin ac ati).
   - Pa wybodaeth gawsoch chi am bob gwasanaeth; beth oedd eich barn chi amdano?

5. **Pam ddewisoch chi fanteisio ar neu beidio manteisio ar wasanaethau newydd Dechrau'n Deg?**
   Archwiliwch pam eu bod wedi manteisio/heb fanteisio arnynt. Ar gyfer y rhai nad ydynt wedi manteisio arnynt, gofynnwch a ydynt yn ymwybodol ohonynt ac a fyddent yn dymuno manteisio arnynt.
   Holwch:
   - *Oherwydd ei fod ar gael*
   - *Help gyda gofal plant*
   - *Help gyda datblygiad/ ymddygiad fy mhlentyn/plant*
   - *Er mwyn cael rhywfaint o gymorth a chyngor ynghylch rhianta*
   - *Er mwyn cyfarfod rhieni eraill*
   - *Er mwyn manteisio ar wasanaethau ar gyfer fy mhlentyn/plant*

   Awgrymiadau ynghylch pam ddim
   - *Lleoliad / Amserau heb fod yn gyfleus*
   - *Ddim yn adnabod unrhyw un arall*
   - *Ddim yn dymuno gadael fy mhlentyn mewn crèche/ gofal plant*
   - *rhy brysur/dim amser;*
   - *nid oes ei angen arnaf/nid yw'n berthnasol i mi;*
   - ofn y byddant yn cael eu barnu gan rieni neu ymarferwyr eraill
   - *dim diddordeb;*

- *rhy swil/anhyderus;*
- *ddim yn gwybod rhyw lawer amdano.*

**[Teuluoedd newydd – Cwestiynau o ganllaw pynciau Ton 1]**

6. **Beth ydych chi'n ei wybod, os unrhyw beth, am Ddechrau'n Deg?**
   Holwch:
   - *Beth mae'n ceisio'i wneud yn eich barn chi (sylwer na fydd nifer yn ymwybodol o'r enw 'Dechrau'n Deg' na'r ffaith bod y gwasanaethau y maent yn eu cael yn cael eu darparu trwy Ddechrau'n Deg efallai)?*
   - *Pa wasanaethau yr ydych chi'n credu y mae'n eu cynnig ac i bwy (e.e. cyffredinol neu i bobl sy'n cael budd-daliadau penodol, mamau sengl ac ati yn unig)*
   - *Pa wybodaeth ysgrifenedig, os o gwbl, a gawsoch chi; beth oedd eich barn amdani? Pwy roddodd hon i chi?*

7. **Pa wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt a sut? [trowch at y sgriniwr i gadarnhau]**
   Archwiliwch sut y daethant yn ymwybodol o bob gwasanaeth a'u taith rhwng gwasanaethau (*sylwer efallai na fydd nifer yn ymwybodol o'r enw 'Dechrau'n Deg' na'r ffaith bod y gwasanaethau y maent yn eu cael yn cael eu darparu trwy Ddechrau'n Deg).* Holwch am bob gwasanaeth: *(i. Ymweliadau iechyd ac unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd) ii. Gofal plant, iii. Iaith a Chwarae (IaCh) /* cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu *a iv. Cymorth rhianta).*
   Holwch:
   - *Sut y cawsoch chi wybod am bob gwasanaeth?* (e.e. Ymwelydd Iechyd, gweithiwr iechyd proffesiynol arall (Meddyg Teulu, bydwraig), ffrindiau/teulu, gweithiwr meithrin ac ati).
   - Beth wnaethant ei ddweud wrthych am Ddechrau'n Deg e.e. pa wasanaethau, sut i fanteisio arnynt?
   - *Yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni yn eich barn chi*
   - *Pa mor hir yr ydych chi wedi bod yn manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg? (cyson neu ysbeidiol; plant eraill)*
   - *Pa wybodaeth gawsoch chi am bob gwasanaeth; beth oedd eich barn chi amdani?*

8. **Pam wnaethoch chi fanteisio ar Ddechrau'n Deg?**

Ar gyfer pob un, archwiliwch pam y gwnaethant neu pam na wnaethant fanteisio arnynt? Ar gyfer y rhai na wnaethant fanteisio arnynt, holwch a ydynt yn ymwybodol ohonynt ac a fyddent yn dymuno manteisio arnynt.

Holwch:

- *Oherwydd ei fod ar gael*
- *Help gyda gofal plant*
- *Help gyda datblygiad/ ymddygiad fy mhlentyn/plant*
- *Er mwyn cael rhywfaint o gymorth a chyngor ynghylch rhianta*
- *Er mwyn cyfarfod rhieni eraill*
- *Er mwyn manteisio ar wasanaethau ar gyfer fy mhlentyn/plant*

Awgrymiadau ynghylch pam ddim

- *Lleoliad / Amserau heb fod yn gyfleus*
- *Ddim yn adnabod unrhyw un arall*
- *Ddim yn dymuno gadael fy mhlentyn mewn crèche/ gofal plant*

- *rhy brysur/dim amser;*
- *nid oes ei angen arnaf/nid yw'n berthnasol i mi;*
- ofn y byddant yn cael eu barnu gan rieni neu ymarferwyr eraill
- *dim diddordeb;*
- *rhy swil/anhyderus;*
- *ddim yn gwybod rhyw lawer amdano.*

**Profiadau o Ddechrau'n Deg**

Rydw i'n mynd i ofyn i chi am eich safbwyntiau am y gwasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt trwy Ddechrau'n Deg nawr, a byddaf yn gofyn i chi feddwl am bob gwasanaeth yr ydych chi wedi manteisio arno ers y cyfweliad diwethaf.

Gan feddwl am y cymorth gan yr YMWELYDD IECHYD (a'r tîm iechyd ehangach pan fo hynny'n berthnasol e.e. Bydwragedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd). Holwch a yw'r teulu wedi cael gwasanaethau tîm iechyd ehangach naill ai'n uniongyrchol neu ar ôl iddynt gael eu cyfeirio trwy Ddechrau'n Deg (Sylwer: efallai na fydd y teulu'n ymwybodol o'r ffaith bod gweithwyr proffesiynol ehangach yn cael eu cyflogi gan Ddechrau'n Deg) (Sylwer: mae'r cwestiynau ar gyfer teuluoedd hydredol yn unig mewn cromfachau).

9. **Dywedwch wrthyf am y cymorth (diweddar) a gawsoch gan yr ymwelydd iechyd (a'r tîm iechyd ehangach os yw hynny'n berthnasol)**
   - *Pa fathau o bethau yr ydych chi'n eu gwneud gyda'ch YI (gan fod eich plentyn yn hŷn erbyn hyn)? Pa fathau o bethau y byddwch yn eu trafod gyda nhw? A fyddwch chi'n gofyn am eu cyngor?*
   - *A ydych chi wedi trafod unrhyw asesiadau o gynnydd eich plentyn gyda'ch Ymwelydd Iechyd (asesiad SOGS yn arbennig)? Pa mor ddefnyddiol oedd hyn?*
   - *Faint o gymorth yr ydych chi'n ei gael nawr (o'i gymharu â'r tro diwethaf y gwnaethom siarad) / faint o gymorth yr ydych yn teimlo y mae ei angen arnoch (nawr o'i gymharu â'r tro diwethaf y gwnaethom siarad)? Pa mor aml y byddwch chi'n cyfarfod nawr?*
   - *A yw hi'n hawdd cael gafael arnynt? A fyddwch chi'n cysylltu â nhw neu a fyddan nhw yn cysylltu â chi? A fyddant yn cysylltu â chi yn ddigon aml/rhy aml?*
   - *(A ydych chi'n gweld yr un ymwelydd iechyd o hyd? Os na, pa mor hawdd yw hi i droi at yr un newydd a pha mor wybodus ydynt, a pha mor hawdd oedd hi i droi at yr un blaenorol a pha mor wybodus oeddent?)*
   - *Manylion: Help gyda beth y mae ef/hi wedi gallu ei roi ei chi? Pa fath o gyngor y mae ef/hi wedi'i roi? Beth yw eich barn chi am y cymorth? A wnaethoch chi unrhyw beth yn wahanol ar ôl cael cyngor gan yr YI?*

10. **A oes unrhyw beth yr ydych chi a'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cymorth gan yr ymwelydd iechyd (a'r tîm iechyd ehangach os yw hynny'n berthnasol)?**
    - *Lleoliad/amser clinigau babanod / ymweliadau?*
    - *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, perthnasol? A wnaethoch chi ei dilyn?)*
    - *Cyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill*
    - *Cyfleusterau a gwasanaethau yn y clinig / canolfan*
    - *Cymorth gyda'r iaith Gymraeg*

11. **Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi nawr gyda'r cymorth gan yr Ymwelydd Iechyd (a'r tîm iechyd ehangach os yw hynny'n berthnasol)?**
    - **[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 am yr Ymweliadau Iechyd]**
    - *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
    - *A oes unrhyw beth y byddai'r Ymwelydd Iechyd wedi gallu eich helpu yn fwy gydag ef?*

12. **Yn eich barn chi, sut mae gwasanaeth yr ymwelydd iechyd (a'r tîm iechyd ehangach os yw hynny'n berthnasol) wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**
    - *(Cyfeiriwch at sylwadau blaenorol – a yw eu safbwyntiau wedi newid?)*
    - *(Holwch er mwyn cael gwybod faint o wahaniaeth nawr o'i gymharu ag ar y cychwyn)*
    - *(Holwch er mwyn cael gwybod a yw cymorth blaenorol wedi helpu'r teulu'n barhaus)*

13. **A yw'r ymwelydd iechyd wedi'ch cyfeirio at unrhyw wasanaethau tebyg eraill? (E.e. gwasanaethau cymdeithasol, gweithiwr teuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill).**
    - *Pa wasanaethau? Rhieni eraill; sefydliad / gweithiwr cymorth arall?*
    - *A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?*
    - *Beth oedd eich profiadau chi – effeithiau a chanlyniadau?*

**Ar gyfer y rhai yr OEDDENT yn manteisio ar Ofal Plant yn barod yn ystod Ton 1, ac y maent WEDI PARHAU i fanteisio arno.**

14. **Dywedwch fwy wrthyf am eich profiadau o ofal plant yn ddiweddar.**
    - *A yw'r staff gofal plant yn cyfathrebu â chi am gynnydd eich plentyn yn y ddarpariaeth gofal plant (e.e.* galwad ffôn, neges destun, sgwrs ar ddiwedd y sesiwn, ffotograffau, dyddiadur, hysbysfwrdd, Facebook ac ati)
        - *A ydych chi wedi trafod asesiad SOGS eich plentyn gyda nhw?*
    - *Pa fathau o bethau y byddwch yn eu trafod gyda'r staff, (e.e. cwestiynau ynghylch paratoi ar gyfer dechrau yn yr ysgol / Cyfnod Sylfaen)?*
    - *Beth yw eich barn am y gofal plant? A yw'ch plentyn yn mwynhau?*
    - *Beth fyddwch chi'n ei wneud pan fydd eich plentyn mewn sesiwn gofal plant? Yr un peth bob tro? A fyddai modd i chi wneud hyn fel arall?*
    - *A fyddwch yn dod â'ch plentyn i bob sesiwn gofal plant y mae ganddo ef/hi yr hawl i'w mynychu? Os na, pam?*
    - *A oes unrhyw beth y mae'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y gofal plant?*

15. **Yn gyffredinol, pa mor fodlon/anfodlon ydych chi gyda'r gofal plant? [Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 i'r gofal plant?]**
    - *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
    - *Sut fyddai modd gwella'r gofal plant yn eich barn chi?*

16. **Yn eich barn chi, sut mae'r gwasanaeth gofal plant wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu chi?**
    - *Cyfeiriwch at y sylwadau blaenorol – a yw eu safbwyntiau wedi newid gydag amser?*
    - *Sut mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo datblygiad eu plentyn gydag amser?*

17. **A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw ofal plant arall? Sut wnaethoch chi glywed amdanynt?**
    - *Pa ofal plant? Teulu neu ffrindiau, lleoliadau ffurfiol eraill.*
    - *Sut mae hwn yn cymharu â gofal plant Dechrau'n Deg?*
    - *Sut wnaethoch chi gael gwybod am y rhain?*
    - *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*
    - *Sut wnaeth y gwasanaeth wahaniaeth i chi? Beth fyddai wedi digwydd hebddo? A yw hwn yn cydfynd â'ch disgwyliadau o beth fyddai'n digwydd pan wnaethoch ddechrau derbyn y gefnogaeth?*

**Ar gyfer TEULUOEDD NEWYDD a'r rhai NAD oeddent yn manteisio ar ofal plant yn ystod Ton 2, ond y maent WEDI DECHRAU nawr.**

18. **Dywedwch fwy wrthyf am y gofal plant**
    - *Pryd oedd/mae'r sesiynau gofal plant? A yw hynny'n iawn? Pam?*
    - *A gawsoch chi ddigon o wybodaeth cyn i'ch plentyn gychwyn? Sut oeddech yn teimlo am y wybodaeth a gawsoch? A oedd y wybodaeth yn cyfateb â'r hyn yr oedd angen i chi ei chael yn eich barn chi? A gynigiwyd cyfle i chi ymweld â'r lleoliad gofal plant cyn i'ch plentyn gychwyn (e.e. diwrnod agored, ymweliad a gynlluniwyd)? Beth wnaeth y lleoliad ei wneud i helpu'ch plentyn i setlo'n dda?*
    - *A yw'r staff gofal plant yn cyfathrebu â chi am gynnydd eich plentyn yn y ddarpariaeth gofal plant (e.e. galwad ffôn, neges destun, sgwrs ar ddiwedd y sesiwn, ffotograffau, dyddiadur, hysbysfwrdd, Facebook ac ati)*
    - *Beth yw eich barn am y gofal plant? A yw'ch plentyn yn mwynhau? Pa wahaniaeth y mae mynychu gofal plant wedi ei wneud i chi ac i'ch plentyn?*
    - *Beth fyddwch chi'n ei wneud pan fydd eich plentyn mewn sesiwn gofal plant? Yr un peth bob tro? A fyddai modd i chi wneud hyn fel arall?*
    - *A fyddwch yn dod â'ch plentyn i bob sesiwn gofal plant y mae ganddo ef/hi yr hawl i'w mynychu? Os na, pam?*

19. **A oes unrhyw beth yr ydych chi a'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y lleoliad gofal plant?**
    Holwch:
    - *Lleoliad/amser y sesiynau gofal plant*
    - *Argaeledd y lleoedd*
    - *Cyfleusterau a gwasanaethau yn y lleoliad gofal plant (e.e. bwyd, lle chwarae, teganau, ac ati)*
    - *Darpariaeth yn y Gymraeg*
    - *Plant eraill*
    - *Y cyfle i riant ymgysylltu â gweithgareddau heb eu plentyn (ac i'r gwrthwyneb)*

20. **Yn gyffredinol, pa mor fodlon/ anfodlon ydych chi gyda'r gofal plant?**
    *[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 i'r gofal plant?]*
    - *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
    - *A oes unrhyw beth y byddai'r gofal plant wedi gallu eich helpu yn fwy gydag ef?*
    - *Sut fyddai modd gwella'r gofal plant yn eich barn chi?*

21. **Yn eich barn chi, sut mae'r gwasanaeth gofal plant wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**

22. **A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw ofal plant arall? Sut wnaethoch chi glywed amdanynt?**

Holwch:

- *Pa ofal plant? Gofal gan berthnasau/ tad-cuod/teidiau a mam-guod/neiniau, gan ffrindiau; Gofal plant ffurfiol, Rhieni eraill; Sefydliad / gweithiwr cymorth arall? Gofal plant 'cofleidiol'?*
- *Manylion am y rhesymau, y darparwr, y lleoliad ac ati*
- *Sut mae hwn yn cymharu â gofal plant Iechyd Dechrau'n Deg?*
- *A sicrhawyd eich bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn? A chan bwy? A glywsoch chi am unrhyw rai o'r rhain o ganlyniad i'r ffaith eich bod yn manteisio ar Ddechrau'n Deg?*
- *A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

**Cymorth rhianta neu gyrsiau**

(*bydd gwahanol gyrsiau mewn gwahanol ardaloedd, e.e. Blynyddoedd Rhyfeddol, Tair P, Rhianta Cadarnhaol, dosbarth cynenedigol, Tylino babanod, cymorth rhianta un-i-un yn y cartref).*

**Ar gyfer y rhai yr OEDDENT wedi manteisio ar gymorth rhianta neu gyrsiau yn barod yn ystod Ton 1, ond nid ers hynny.**

23. **Hoffwn gadarnhau eich bod chi wedi manteisio ar ... [Ymchwilydd i droi at nodiadau blaenorol i weld yr hyn yr oedd y teulu wedi manteisio arno y llynedd a chadarnhau hyn gyda'r teulu] yn flaenorol.**

24. **A ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth neu unrhyw rai o'r sgiliau neu'r technegau a ddysgoch gan y cymorth/dosbarth rhianta yn ddiweddar?**
    - *Pa fathau o bethau ddysgoch chi?*
    - *A oeddent yn ddefnyddiol am ychydig / am gyfnod pan oedd plentyn o oed penodol yn unig?*
    - *A ydynt yn sgiliau neu'n dechnegau y mae modd i chi eu defnyddio nawr o hyd ac yn y dyfodol?*
    - *A ydych chi'n cofio digon / teimlo'n ddigon hyderus i barhau i ddefnyddio'r sgiliau, y wybodaeth neu'r technegau?*
    - *A oedd unrhywbeth a drafodwyd yn y dosbarth/cefnogaeth rhianta na wnaethoch wneud defnydd ohono wedi hynny? (e.e. gwybodaeth a ddarparwyd, sgiliau neu dechnegau). Os felly, pam (e.e. ddim yn berthnasol, wedi anghofio)?*

25. **A yw'r cyrsiau/cymorth rhianta wedi gwneud gwahaniaeth i chi a'ch teulu? Os felly, sut? Os na, pam?**
    - *Pa wahaniaeth wnaeth y cymorth/cyrsiau i'ch sgiliau fel rhiant? A ydych chi'n defnyddio'r sgiliau neu'r cyngor a ddysgoch o hyd?*
    - *Pennu arferion / arferion cysgu*
    - *Bwydo / diddyfnu*
    - *Deall ymddygiad / terfynau ac ati?*
    - *Lleferydd, iaith a chyfathrebu*

- [Holi pam i’r rheini a nododd draweffaith negyddol]
- [Ar gyfer y rhai a fanteisiodd ar gymorth rhianta ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]
  - Beth oedd eich barn am gymorth rhianta [neu enw'r dosbarth/gwasanaeth cyn mynychu?
  - Beth oedd eich barn am y cymorth ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
  - Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth rhianta fel ei fod yn apelio i nifer fwy o deuluoedd?

**26. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau Rhianta eraill tebyg? Sut glywsoch chi amdanynt?**

- *A gawsoch eich cyfeirio i’r rhain drwy staff/canolfan Dechrau’n Deg?*
- *Pa wasanaethau? E.e. Ysgolion, rhaglen cymorth i deuluoedd arall, adrannau iechyd, cwnsela ac ati, gofal plant, cyrsiau rhianta, cyrsiau*
- *Manylion am y rhesymau, darparwr, lleoliad ac ati*
- *Sut mae hyn yn cymharu gyda darpariaeth Dechrau'n Deg?*
- *Pam sicrhawyd eich bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn? A chan bwy? A glywsoch chi am unrhyw rai o'r rhain o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi manteisio ar Ddechrau'n Deg?*
- *A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

**Ar gyfer TEULUOEDD NEWYDD a'r rhai sydd wedi manteisio ar gwrs NEWYDD neu DDECHRAU MANTEISIO AR gymorth ers TON 1.**

**27. Dywedwch fwy wrthyf am y cymorth 'Rhianta' a gafwyd trwy Ddechrau'n Deg**

- *Y cwrs(cyrsiau): A wnaethoch chi ddilyn cwrs? A gawsoch chi gymorth 1-i-1 yn y cartref? Pa fath o gwrs(cyrsiau) y gwnaethoch chi eu mynychu/cymorth a gawsoch? Beth oedd yn sôn amdano? A oeddech chi'n adnabod eraill ar y cwrs? Neu a ddaeth rhywun i'r tŷ er mwyn eich cynorthwyo gyda rhianta?*
- *Faint o wybodaeth roddwyd i chi am y cwrs cyn i chi ei fynychu? E.e. a gawsoch eich gwahodd i sesiwn ragflas, bore coffi, neu a wnaeth yr hwylusydd ymweld â chi yn y cartref neu gysylltu â chi i drafod y cwrs cyn y sesiwn gyntaf?*
- *Manylion: Yn fras, pryd wnaethoch chi fynd ar y cwrs neu gael cymorth? Am faint y gwnaeth hwn bara? A wnaethoch chi fynychu pob sesiwn? Os wnaethoch chi fynychu pob sesiwn, beth oedd wedi peri i chi barhau i fynychu? Os wnaethoch chi stopio mynychu sesiynau, pam? A wnaeth yr hwylusydd/staff DD gadw mewn cysylltiad â chi rhwng sesiynau?*
- *Eu profiad: Beth oedd eich barn chi o'r cwrs/cymorth a gafwyd? Beth ddysgoch chi? A ydych chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol ar ôl bod ar y cwrs/cael cymorth? A wnaethoch chi unrhyw ffrindiau newydd trwy fynychu'r cwrs?*

**28. Beth ydych chi a/neu'ch plentyn yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi am y cymorth/cwrs Rhianta yr ydych chi wedi manteisio arno?**

Holwch:

- *Gwybodaeth a ddarparwyd (a oedd yn ddefnyddiol, yn berthnasol? A wnaethoch chi ei dilyn?)*
- *Staff (cyfeillgar, hawdd cael gafael arnynt, gwybodus)*
- *Lleoliad/amser*

- *Argaeledd y lleoedd*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau (e.e. bwyd, lle chwarae, teganau, crèche ac ati)*
- *Rhieni eraill*
- *Plant eraill*
- *Gweithgareddau/ cynnwys y sesiynau/cyrsiau*
- *Darpariaeth yn y Gymraeg*

**29. Yn gyffredinol, pa mor fodlon/ anfodlon yr oeddech/ydych chi â'r cymorth RHIANTA?**

Holwch:

- ***[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 ar gyfer pob gwasanaeth?]***
- *Archwiliwch y rhesymau dros yr ateb*
- *A oes unrhyw beth y byddai modd i **Gymorth rhianta** fod wedi rhoi mwy o help i chi gydag ef?*
- *Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella'r cymorth Rhianta?*

**30. A yw'r rhaglenni/cyrsiau rhianta wedi gwneud gwahaniaeth i chi a'ch teulu? Os felly, sut? Os na, pam?**

- *Pennu arferion / arferion cysgu*
- *Bwydo / diddyfnu*
- *Deall ymddygiad / terfynau ac ati?*
- *Lleferydd, iaith a chyfathrebu*
- [Ar gyfer y rhai a fanteisiodd ar gymorth rhianta ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]

- Beth oedd eich barn am gymorth rhianta [neu enw'r dosbarth/gwasanaeth] cyn mynychu?
- Beth oedd eich barn am y cymorth ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
- Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth rhianta fel ei fod yn apelio i nifer fwy o deuluoedd?

**31. A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau Rhianta eraill tebyg? Sut glywsoch chi amdanynt?**

- Holwch:
- *Pa wasanaethau? E.e. Ysgolion, rhaglen cymorth i deuluoedd arall, adrannau iechyd, cwnsela ac ati, gofal plant, cyrsiau rhianta, cyrsiau*
- *Manylion am y rhesymau, darparwr, lleoliad ac ati*
- *Sut mae hyn yn cymharu gyda darpariaeth Dechrau'n Deg?*
- *Pam sicrhawyd eich bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn? A chan bwy? A glywsoch chi am unrhyw rai o'r rhain o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi manteisio ar Ddechrau'n Deg?*
- *A wnaethoch chi fanteisio ar y gwasanaethau hyn? Pam/ pam ddim?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

**32. A ydych wedi clywed am ymgyrch 'Magu Plant: rhowch amser iddo'? Os felly, a ydych wedi defnyddio'r adnoddau?**

[Ymchwilwyr i'w nodi: Mae gwefan a tudalen Facebook sy'n cynnig gwybodaeth, awgrymiadau a syniadau rhianta ymarferol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â'ch plentyn. Mae'r awgrymiadau magu plant a gynigir yn cynnwys: brwsio dannedd, siopa, hyfforddi mynd i'r toiled, ymdopi â babi sy'n crio, amser gwely, prydau bwyd, amser bath, gwlychu

gwely, cnoi, strancio a chadw'ch plentyn yn ddiogel. Gwybodaeth i helpu rhieni i ddeall datblygiad eu plentyn a manylion sefydliadau ar gyfer rhieni a allai fod angen help a chymorth pellach iddynt.]

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**
(*fel arfer, mae'r rhain yn gyfres o sesiynau am tua awr yr wythnos dros ychydig wythnosau, a cheir gwahanol rai ar gyfer gwahanol oedrannau. Gall fod yn gymorth 1-i-1 yn y cartref gan staff hefyd (e.e. Therapydd Iaith a Lleferydd, Ymwelydd Iechyd neu Athro Ymgynghorol.) Gall fod yn weithgareddau lleferydd, iaith a chyfathrebu hefyd, a ddarparir mewn lleoliad mwy anffurfiol).* Gofynnwch a ydynt wedi cael cymorth gan Therapydd Iaith a Lleferydd.
**Ar gyfer y rhai yr OEDDENT wedi manteisio ar wasanaethau SLC yn ystod Ton 1 neu 2 ac NAD YDYNT YN MANTEISIO ARNO MWYACH.**

33. **Hoffwn gadarnhau eich bod chi wedi manteisio ar ... [Ymchwilydd i droi at nodiadau blaenorol i weld yr hyn yr oedd y teulu wedi manteisio arno y llynedd a chadarnhau hyn gyda'r teulu] yn flaenorol.**

34. **A yw'r sesiynau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**
    - *A yw hyn wedi newid gydag amser? Faint o wahaniaeth nawr o'i gymharu ag y llynedd?*
    - [Holi pam i'r rheini a nododd draweffaith negyddol]
    - [Ar gyfer y rhai a fanteisiodd ar SLC ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]
        - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC cyn mynychu?
        - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
        - Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth SLC fel ei fod yn apelio i niferoedd mwy o deuluoedd?

35. **A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau cymorth Iaith a Chwarae / Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu eraill tebyg i hyn? Sut glywsoch chi amdanynt?**
    - *Pa wasanaethau? Manylion am y rhesymau, y darparwr, y lleoliad ac ati*
    - *Sut mae hyn yn cymharu â darpariaeth Dechrau'n Deg?*
    - *Sut glywsoch chi am y gwasanaethau hyn?*
    - *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

**Ar gyfer TEULUOEDD NEWYDD NAD OEDDENT wedi manteisio ar gymorth SLC yn barod yn ystod Ton 1 neu 2, ond y maent wedi DECHRAU manteisio arno A'R rhai sy'n PARHAU i fanteisio ar gymorth SLC.**

36. **Dywedwch fwy wrthyf am y gwasanaethau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu / 'Iaith a Chwarae' yr ydych chi wedi'u cael trwy Ddechrau'n Deg**
    - *A gawsoch chi gymorth 1-i-1 yn y cartref neu mewn man arall? A gawsoch chi eich cyfeirio at Therapydd Iaith a Lleferydd?*
    - *A wnaethoch chi fynychu unrhyw sesiynau grŵp?*
    - *A wnaethoch chi ddilyn cwrs? - Pa fath o gwrs(cyrsiau) y gwnaethoch chi ei fynychu/eu mynychu?*
    - *Manylion: Pryd aethoch chi? Beth oedd yn sôn amdano? A oeddech chi'n adnabod eraill ar y cwrs? Am faint oedd hwn wedi para? A wnaethoch chi fynychu'r holl sesiynau?*

- *Eu profiad: A oeddech chi wedi ei hoffi? Beth ddysgoch chi? A wnaethoch chi unrhyw beth yn wahanol ar ôl bod ar y cwrs*
- *A gawsoch chi Gwdyn Llyfrau Dechrau'n Deg (Time for Bed Fred, Hungry Caterpillar yn flaenorol) pan oedd eich plentyn yn 2 oed? Os felly, a ydych chi'n trafod y llyfrau neu'n eu darllen gyda'ch plentyn?*

37. **[Ar gyfer y rhai sydd wedi DECHRAU manteisio yn unig] A oedd unrhyw beth yr oeddech chi a'ch plentyn yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cyrsiau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu y gwnaethoch fanteisio arno?**
    Holwch:
    - o *Lleoliad/amser*
    - o *Argaeledd y lleoedd*
    - o *Cyfleusterau a gwasanaethau*
    - o *Rhieni eraill*
    - o *Plant eraill*
    - o *Gweithgareddau/ cynnwys y sesiynau/cyrsiau*
    - o *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, perthnasol? A wnaethoch chi ei dilyn?)*
    - o *Darpariaeth yn y Gymraeg*

38. **[Ar gyfer y rhai sy'n PARHAU i fanteisio yn unig] A yw'r gwasanaeth yn addas o hyd ar gyfer / yn ymgysylltu â'ch plentyn? [Trowch at nodiadau blaenorol i weld a yw eu barn wedi newid].**
    - *Gweithgareddau/ cynnwys sesiynau – a yw'r sesiynau'n helpu datblygiad y plentyn, eich dealltwriaeth chi, a yw'n ddigon heriol? A yw'r sesiynau'n helpu eich dealltwriaeth chi o leferydd, iaith a chyfathrebu?*

39. **Yn gyffredinol, pa mor fodlon/ anfodlon oeddech chi/ ydych chi gyda chymorth Iaith a Chwarae / Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu?**
    Holwch:
    - **[Gofynnwch iddynt roi sgôr o 1-10 i bob gwasanaeth?]**
    - *Archwiliwch y rhesymau dros ateb*
    - *A oes unrhyw beth y gallai* ***sesiynau iaith a chwarae /*** **cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu** *fod wedi rhoi mwy o help i chi gydag ef?*
    - *Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella'r sesiynau iaith a chwarae /* **cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu?**

40. **A yw’r sesiynau iaith a chwarae / cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu? Os felly, sut? Os nad ydynt, pam?**
    - [Ar gyfer y rhai a gafodd fudd gan SLC ac sy'n adrodd ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt]
        - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC cyn mynychu?
        - Beth oedd eich barn am y cymorth SLC ar ôl mynychu/cwblhau'r cwrs?
        - Yn eich barn chi, sut allai Dechrau'n Deg hyrwyddo cymorth SLC fel ei fod yn apelio i niferoedd mwy o deuluoedd?

41. **A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau cymorth Iaith a Chwarae / Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu eraill tebyg i hyn? Sut glywsoch chi amdanynt?**
    - *Pa wasanaethau? Manylion am y rhesymau, y darparwr, y lleoliad ac ati*
    - *A gawsoch eich cyfeirio at rhain drwy staff/canolfan Dechrau’n Deg?*
    - *Sut mae hyn yn cymharu â darpariaeth Dechrau'n Deg?*

- *Sut glywsoch chi am y gwasanaethau hyn?*
- *Beth oedd eich profiadau – effeithiau a chanlyniadau?*

**Ar gyfer teuluoedd lle mae'r plentyn ieuengaf yn 4 mlwydd oed a bellach ddim yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg**

42. **Beth ddigwyddodd pan oedd eich plentyn yn 3 a hanner neu bron yn 4 mlwydd oed ac yn paratoi i symud ymlaen o gyrchu gwasanaethau Dechrau'n Deg?**
    - A gawsoch chi gyfarfod gyda staff Dechrau'n Deg (e.e. ymwelydd iechyd neu staff gofal plant) i drafod symyd ymlaen o gyrchu gwasanaethau Dechrau'n Deg at eich plentyn yn trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen?
    - Pa wybodaeth gafodd ei roi i chi ar y pwynt hwnnw?
    - A'ch cyfeiriwyd chi at unrhyw wasanaethau eraill / cefnogaeth / grwpiau / cyrsiau?
    - Beth fyddech chi wedi hoffi ei weld yn digwydd ar y pwynt hwn?

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

43. **A gynigiwyd darpariaeth i chi trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unrhyw rai o wasanaethau Dechrau'n Deg?**

- Holwch ar gyfer pob gwasanaeth (Do/Naddo)
    - Gofal plant;
    - Cymorth rhianta;
    - Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
    - Therapi Iaith a Lleferydd;
    - Cymorth gan Ymwelydd Iechyd;
    - Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy Ddechrau'n Deg (e.e. Bydwragedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd).
- *Do – Sut cynigiwyd y dewis i chi? A gafodd ei gynnig ymlaen llaw gan y staff neu a gafodd ei gynnig ar ôl i chi ofyn amdano?*
- *Naddo – a fyddech wedi dymuno cael cynnig y gwasanaeth hwn? A fyddai hyn wedi bod o ddiddordeb i chi?*

44. **A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg trwy Ddechrau'n Deg?**

- Holwch ar gyfer pob gwasanaeth (Ydw/Nac ydw)
    - Gofal plant;
    - Cymorth rhianta;
    - Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
    - Therapi Iaith a Lleferydd;
    - Cymorth gan Ymwelydd Iechyd;
    - Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy Ddechrau'n Deg (e.e. Bydwragedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd).
- Os na, pam?
- Os ydw, a fyddwch yn parhau i gyrchu darpariaeth cyfrwng Cymraeg? (e.e. a fydd eich plentyn yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg?)
- Os na, a hoffech i'ch plentyn fynychu / a yw eich plentyn yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg?

45. **A yw Dechrau'n Deg wedi darparu darpariaeth ddigonol trwy gyfrwng y Gymraeg?**

- Holwch ar gyfer pob gwasanaeth (Ydy/Nac ydy)
    - Gofal plant;
    - Cymorth rhianta;
    - Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
    - Therapi Iaith a Lleferydd;
    - Cymorth gan Ymwelydd Iechyd;
    - Cymorth gan dîm iechyd ehangach trwy Ddechrau'n Deg (e.e. Bydwragedd, Dietegydd, Seicolegydd Plant, Ffisiotherapydd).
- A oedd unrhyw wasanaethau neu gymorth heb fod ar gael?
- Pe byddai mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog ar gael, a fyddech chi wedi bod yn debygol o'u defnyddio? [Archwiliwch pa wasanaethau y mae galw amdanynt]

**Effeithiau a chanlyniadau**

Gan feddwl am yr holl wasanaethau Dechrau'n Deg yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaethau yr ydych chi wedi sylwi arnynt yn <u>eich plentyn chi</u>, sydd o ganlyniad i'ch cyswllt â Dechrau'n Deg yn eich barn chi? Sylwer: Dylai'r cyfwelydd ofyn a yw Dechrau'n Deg wedi cael: Effaith gadarnhaol; Dim gwahaniaeth; Effaith negyddol; Ddim yn gwybod; Amherthnasol. Dylai'r cyfwelydd holi am enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol neu negyddol ers i'r teulu ddechrau manteisio ar Ddechrau'n Deg. Hefyd, holwch os yw'r canfyddiadau o effaith yn deillio o wasanaethau Dechrau'n Deg neu erail.

46. **Gan feddwl am yr holl wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi ei wneud i'ch plentyn chi yn gyffredinol?**
    [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Ddim yn gwybod; Amherthnasol]
    - A yw'r gwahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi ei wneud i'ch plentyn fel yr oeddech yn disgwyl?

47. **Gan feddwl am yr holl wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi ei wneud i'ch plentyn o ran eu paratoi nhw ar gyfer ysgol neu feithrinfa? [Holi pam ar gyfer bob un]**
    - Setlo mewn i'r ysgol neu feithrinfa
    - Cymdeithasu gyda phlant eraill
    - Bod yn barod ar gyfer awyrgylch dosbarth

48. **I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i leferydd, iaith a chyfathrebu eich plentyn o ran: [Holi pam ar gyfer bob un]**
    - Dysgu a defnyddio geiriau newydd yn Saesneg
    - Dysgu a defnyddio geiriau newydd yn Gymraeg
    - Siarad yn fwy clir
    - Bod yn fwy siaradus
    - [Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Ddim yn gwybod; Amherthnasol]

**49. I ba raddau y mae Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth o ran pa mor barod yw'ch plentyn ar gyfer yr ysgol o ran: [Holi pam ar gyfer bob un]**

- Darllen neu fwy o ddiddordeb mewn edrych ar lyfrau
- Gallu gwrando ar straeon yn well
- Gwella'u gallu i ganolbwyntio
- Cyfrif neu adnabod rhifau
- Canu neu adnabod rhigymau
- Adnabod llythrennau neu wybod y wyddor
- Dal a/neu ddefnyddio pensil

**50. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eich plentyn o ran: [Holi pam ar gyfer bob un]**

- Defnyddio cyllell a fforc a chwpan
- Gwisgo
- Tacluso
- Dechrau defnyddio'r toiled
- Brwsio'u dannedd
- Arfer cysgu

**51. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i gynnydd eich plentyn gyda'u sgiliau cymdeithasol a'u hymddygiad o ran: [Holi pam ar gyfer bob un]**

- Cymdeithasu / chwarae gyda phlant eraill
- Rhyngweithio gydag oedolion
- Pyliau o dymer / rheoli dicter
- Cymryd tro neu rannu pethau
- Delio â sefyllfaoedd heriol (cydnerthedd)
- Hapusrwydd
- Hyder

**52. I ba raddau y mae Gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i iechyd eich plentyn o ran? [Holi pam ar gyfer bob un]**

- Adnabod unrhyw faterion iechyd
- Troi at weithwyr iechyd proffesiynol eraill
- Gwelliannau i iechyd neu les

*Os yw hyn yn berthnasol*

**53. A ydych chi wedi sylwi ar wahaniaeth yn natblygiad eich plant sydd wedi manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt wedi manteisio arnynt?**

- *Holwch am y rhesymau am bob ateb (datblygiad lleferydd ac iaith; sgiliau llythrennedd a rhifedd; datblygiad personol; sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad)*

**54. Gan ystyried yr holl wasanaethau Dechrau'n Deg yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaethau yr ydych chi wedi sylwi arnynt ynoch <u>chi a'ch teulu</u>, sydd o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi cael cyswllt â Dechrau'n Deg yn eich barn chi?**

**55. Gan ystyried yr holl wasanaethau yr ydych chi wedi manteisio arnynt, pa wahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi'i wneud i chi yn gyffredinol fel rhiant?**

- *[Effaith gadarnhaol; Dim effaith; Effaith negyddol; Ddim yn gwybod; Amherthnasol]*

**56. I ba raddau y mae gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'ch dull gweithredu wrth rianta, o ran: [Holi pam ar gyfer bob un]**

- Cyfathrebu â'ch plentyn
- Cynorthwyo dysgu eich plentyn (e.e. darllen gyda'ch plentyn)
- Rhoi syniadau i chi am weithgareddau i'w gwneud gyda'ch plentyn
- Datblygu sgiliau rhianta ymarferol (dysgu defnyddio'r toiled/arferion amser cysgu/golchi)
- Sicrhau bod eich cartref yn ddiogel
- Rheoli ymddygiad
- Diet ac arferion amser bwyd eich plentyn
- Bwydo ar y fron
- Diddyfnu

**57. I ba raddau y mae gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth i'ch lles personol o ran: [Holi pam ar gyfer bob un]**

- Hyder yn eich sgiliau rhianta chi
- Eich gallu i reoli sefyllfaoedd sy'n peri straen
- Teimlo'ch bod yn cael cymorth da
- Cael amser i ymlacio
- Cael amser ar gyfer hyfforddiant a/neu addysg
- Fy ngalluogi i gael swydd
- Cymdeithasu â rhieni eraill
- Byw mewn ffordd iachach (e.e. bwyta bwyd iachach, gwneud mwy o ymarfer corff, stopio ysmygu)
- Lles gwell

**58. Gan feddwl am eich profiad cyfan gyda Dechrau’n Deg dros y blynyddoedd diwethaf, pa wasanaeth Dechrau’n Deg sydd wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf i chi, eich plentyn a’ch teulu yn eich barn chi? Pam?**

  - Pa wasanaeth Dechrau’n Deg (o’r rheini yr ydych wedi defnyddio) sydd wedi gwneud llai o wahaniaeth? Pam?

**59. Pa mor dda ydych chi’n teimlo bod gwasanaethau Dechrau’n Deg wedi cyd-weithio? A oedd unrhywbeth mwy y gellent fod wedi ei wneud yn well o ran cyd-weithio?**

  - I helpu â’ch dealltwriaeth a sgiliau rhianta?
  - I helpu â datblygiad eich plentyn?

**60. Ar y cyfan, a yw Dechrau’n Deg wedi cwrdd â’ch disgwyliadau? [Gofyn iddynt adlewyrchu ar eu disgwyliadau cychwynnol a chyfeiriwch at nodaiadau ton 1 a 2] Os felly, sut? Os na, pam ddim?**

**61. A oes unrhyw fath arall o gymorth yr ydych chi'n teimlo y gallai Dechrau'n Deg ei gynnig? A fyddech chi'n dymuno manteisio ar fwy o ddarpariaeth? [Holi pam ar gyfer bob un]**

Holwch:

- *Unrhyw wasanaethau eraill / cyfleoedd i gyfarfod rhieni eraill*
- *Holwch y rhesymau dros ateb*
- *Pa wasanaeth/au*
- *Pa leoliad/ amser*
- *Faint o sesiynau/cyrsiau ychwanegol ac ati?*
- *Iaith*

**62. A fyddech chi'n argymell rhaglen gwasanaethau Dechrau'n Deg i ffrind?**

- *Byddwn/Na fyddwn/Ansicr*
- *Holwch am resymau dros ateb*
- *Pa wasanaethau a pham?*

**63. Os na fyddai Dechrau'n Deg ar gael, pa wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud i chi, eich plentyn a'ch teulu yn eich barn chi?**

Holwch:

- *Holwch am resymau am ateb*
- *A fyddech chi wedi manteisio ar wasanaethau eraill? Os felly, pa rai?*
- *Ymddygiad/ datblygiad y plentyn/ perthnasoedd (fel y soniwyd uchod)*
- *Eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau?*
- *A oes unrhyw beth na fyddai modd i chi fod wedi ei wneud (e.e. gweithio, gwella sgiliau)?*

**64. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am Ddechrau'n Deg heddiw?**

## Atodiad B: Canllaw holi ar gyfer teuluoedd y sampl cymharu

**Cyflwyniad**

1. **A allwch ddweud ychydig wrthyf am eich cartref?**
   Holi sensitif

- *Nifer y plant a'r oedran (unrhyw faterion iechyd / datblygiadol)*
- *Nifer yr oedolion*
- *Os yw yn berthnasol, cyswllt gyda rhiant sy'n absennol*
- *Statws cyflogaeth / hyfforddiant*
- *Statws iechyd plant / rhieni (e.e. unrhyw anghenion arbennig) ac a yw hyn yn effeithio ar y teulu o ran cyrchu gwasanaethau / cyflogaeth / hyfforddiant*
- *Pa mor hir yn byw yn yr ardal,*
- *Teulu a ffrindiau gerllaw*
- *Defnyddio'r Gymraeg gartref a mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg (e.e. ysgolion)*
- *Defnyddio unrhyw ieithoedd eraill yn y cartref / teulu?*
- *Cefndir ethnig?*

**Ymgysylltu a disgwyliadau gwasanaethau cymorth i deuluoedd**

Rydw i nawr am ofyn rhai cwestiynau ynglŷn â'ch defnydd o wasanaethau cefnogaeth i deuluoedd

2. **Beth, os unrhywbeth, ydych chi'n ei wybod am wasanaethau cefnogaeth i deuluoedd sydd ar gael i chi?**

   - *Pa wybodaeth ydych chi wedi'i dderbyn ynglŷn â gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd sydd ar gael i chi? Er enghraifft, cylchoedd chwarae, gofal plant neu feithrinfeydd (cyn-ysgol), cefnogaeth gan Ymwelwyr Iechyd a chymorth neu gyrsiau rhianta.*

3. **Pa wasanaethau / gweithgareddau cefnogaeth i deuluoedd (os unrhywbeth) yr ydych wedi eu defnyddio a sut?**
   Archwiliwch sut y daethant yn ymwybodol o bob gwasanaeth a'u llwybrau rhwng y gwasanaethau
   Holi am wasanaethau megis *ymweliadau iechyd, gofal plant, Iaith a Chwarae (LAP), cylchoedd chwarae, grwpiau rhieni a phlant bach a gwasanaethau cefnogi rhianta.*

   - *Sut wnaethoch chi ddarganfod bob gwasanaeth? (e.e. Ymwelydd Iechyd, gweithiwr iechyd proffesiynol arall (meddyg teulu, bydwraig), ffrindiau / teulu, gweithiwr meithrin ac ati).*
   - *Beth wnaethon nhw ddweud wrthych am y gwasanaethau sydd ar gael a sut i'w cyrchu?*
   - *Beth ydych chi'n credu yw nodau'r gwasanaethau hyn?*
   - *Pa mor hir ydych chi wedi bod yn defnyddio'r gwasanaethau hyn? (yn gyson neu'n achlysurol; plant eraill)*

4. **Pam wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd hyn?**

Ar gyfer pob un, archwiliwch pam cawsant / na chawsant eu defnyddio? Ar gyfer y rheiny nad ydynt wedi eu defnyddio, holwch os a ydynt yn ymwybodol ohonynt ac a hoffent gael mynediad iddynt. Pwyntiau holi:

- *Dim ond oherwydd ei fod ar gael*
- *Help gyda gofal plant*
- *Help gyda datblygiad / ymddygiad fy mhlentyn / plentyn*
- *I gael rhywfaint o gefnogaeth a chyngor ar rianta*
- *I gwrdd â rhieni eraill*
- *I gael mynediad at wasanaethau ar gyfer fy mhlentyn / plant*

*Awgrymiadau pam/pam ddim*

- *Lleoliad / Amseroedd yn gyfleus*
- *Ddim yn adnabod unrhywun arall*
- *Doeddwn i ddim eisiau gadael fy mhlentyn mewn gofal plant / meithrinfa*
- *Rhy brysur / nid oes gennych amser;*
- *Dydw i ddim ei angen / nid yw'n berthnasol i mi;*
- *Ofn byddant yn cael eu barnu gan rieni neu ymarferwyr eraill;*
- *Dim diddordeb;*
- *Rhy swil / diffyg hyder;*
- *Ddim yn gwybod llawer amdano.*

**Profiadau o wasanaethau cefnogaeth i deuluoedd**

Rydw i nawr am holi'ch barn am y gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd yr ydych wedi'u defnyddio, a byddaf yn gofyn ichi feddwl am bob gwasanaeth yr ydych wedi'i gyrchu. <u>[Mae'r cwestiynau hyn yn ailadrodd pedair gwaith, unwaith ar gyfer pob un o'r gwasanaethau sy'n debyg i'r pedwar hawl Dechrau'n Deg]</u>

5. **Wrth feddwl am y gwasanaeth ymweld iechyd:**
   - **a.** Pam wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn? Os na wnaethoch chi ei ddefnyddio, pam?
   - **b.** Sut oeddech chi'n teimlo am ddefnyddio'r gwasanaeth?
     - *Hapus, gan eu bod am gael y gefnogaeth neu yn teimlo nad oedd ei angen?*
   - **c.** Dywedwch mwy wrthyf am gefnogaeth yr ymwelydd iechyd
     - *Pa mor aml oeddech chi'n cwrdd yn y dyddiau cynnar; pa mor aml ydych chi'n cwrdd nawr?*
     - *A ydynt yn hawdd cael gafael arnynt? Pwy sy'n cysylltu yn gyntaf? Ydych chi'n cysylltu â'r ymwelydd iechyd neu a ydyn nhw'n cysylltu â chi? A ydynt yn cysylltu â chi yn ddigon/rhy aml?*
     - *Ydych chi bob amser yn gweld yr un ymwelydd iechyd? Ydyn nhw'n gyfeillgar, yn hawdd i gael gafael arnynt, yn wybodus?*
     - *Ble rydych chi'n cwrdd fel arfer - a yw hynny'n hwylus? Beth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau yn y clinig babi / yn y ganolfan (e.e. bwyd, man chwarae, teganau, crèche ac ati)*
     - *Manylion: gyda beth y mae ef / hi yn gallu'ch helpu chi? Pa fath o gyngor neu awgrymiadau a drosglwyddwyd ganddynt? Beth ydych chi'n ei feddwl o'r gefnogaeth? A wnaethoch chi unrhyw beth yn wahanol ar ôl cael cyngor gan y HV?*

- *A yw ef / hi wedi eich cyfeirio at wasanaethau / cymorth eraill?*

**d. A oes unrhyw beth yr ydych chi a'ch plentyn chi'n hoffi neu ddim yn hoffi am gefnogaeth yr ymwelydd iechyd?**

Holi am:

- *Lleoliad / amser / lleoliad clinigau babi / ymweliadau?*
- *Amlder yr ymweliadau*
- *Argaeledd lleoedd*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau yn y clinig babi / yn y ganolfan (e.e. bwyd, man chwarae, teganau, crèche ac ati)*
- *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, yn berthnasol? A oeddech chi'n gweithredu arno?)*
- *Darpariaeth Gymraeg*

**e. Yn gyffredinol pa mor fodlon / anfodlon oeddech / ydych chi gyda chefnogaeth yr Ymwelydd Iechyd?**

- *[Gofynnwch iddynt sgorio'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd o 1-10?]*
- *Archwilio rhesymau dros ateb*
- *A oes unrhyw ffordd y gallai'r gwasanaeth Ymwelydd Iechyd fod wedi'ch helpu chi yn fwy?*
- *Ydych chi'n meddwl y gellid gwella'r gefnogaeth gan y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd?*

**f. Sut ydych chi'n meddwl bod y gwasanaeth ymwelwyr iechyd wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**

**g. A ydych wedi cael unrhyw gymorth a chyngor arall sy'n debyg i'r hyn a gafoch gan yr ymwelydd iechyd? Sut glywsoch chi am hwn?**

- *Pa wasanaethau? Rhieni eraill; gweithiwr / sefydliad arall?*
- *Manylion am resymau, darparwr, lleoliad ac ati*
- *Pam y gwnaethoch chi gael gwybod am gwasanaethau hyn? A chan bwy?*
- *A wnaethoch chi gael mynediad at y gwasanaethau hyn? Pam / pam ddim?*
- *Beth oedd eich profiadau - effeithiau a chanlyniadau?*

**6. Wrth feddwl am wasanaethau gofal plant**

**a. Pa wasanaethau gofal plant yr ydych wedi'u defnyddio?**

**b. Beth oedd oedran eich plentyn / plant pan wnaethoch ddefnyddio'r gofal plant?**

**c. Pam wnaethoch chi ddewis defnyddio'r gofal plant? Os na wnaethoch chi ddefnyddio gofal plant, pam ddim?**

**d. Sut oeddech chi'n teimlo am ddefnyddio'r gwasanaeth?**

- *Hapus: gan eu bod am gael y gefnogaeth*
- *A oedd yn rhaid ichi dalu i gael mynediad at ofal plant? Os felly, a yw'n hawdd fforddio? Os na, sut y caiff ei dalu (e.e. grant)?*

**e. Dywedwch mwy wrthyf am y gofal plant**

Os yw’r lleoliad yn feithrinfa:

- *Pryd oedd / yn y sesiynau gofal plant? A oedd/yw hynny'n addas?*
- *A gawsoch ddigon o wybodaeth cyn i'ch plentyn ddechrau? A wnaethoch dderbyn y wybodaeth yr oeddech chi'n teimlo oedd ei angen arnoch chi? A gawsoch gyfle i ymweld â'r lleoliad gofal plant cyn i'ch plentyn ddechrau (e.e. diwrnod agored, bore coffi, ymweliad arfaethedig ac ati)? Beth wnaeth y dapraRwr i helpu'ch plentyn i ymgartrefu'n dda?*
- *A yw'r staff gofal plant yn cyfathrebu â chi ynglŷn a chynnydd eich plentyn (e.e. galwad ffôn, testun, sgwrs ar ddiwedd y sesiwn, ffotograffau, dyddiadur, hysbysfwrdd, Facebook ac ati)*
- *Beth yw eich barn ar ansawdd y lleoliad / darpariaeth?*
- *Beth ydych chi'n ei feddwl am y staff yn y lleoliad* ***gofal*** *plant? E.e. yn wybodus, yn gyfeillgar, yn brofiadol, yn ofalgar?*

Os gwasanaeth gwarchod plant:

- *Pa mor aml oedd eich plentyn yn aros gyda'r gwarchodwr plant ac am ba mor hir?*
- *Beth wnaeth y gwarchodwr plant i helpu eich plentyn i ymgartrefu'n dda?*
- *A yw'r gwarchodwr plant yn cyfathrebu â chi am gynnydd eich plentyn?*
- *Beth ydych chi'n ei feddwl am y gofal plant? Ydy'ch plentyn yn mwynhau? Pa wahaniaeth sydd wedi mynychu gofal plant?*
- *Beth ydych chi'n ei wneud pan fydd eich plentyn mewn gofal plant? Yr un peth bob tro? A fyddech chi'n gallu gwneud hyn fel arall?*

**f. A oedd unrhyw beth yr ydych chi a'ch plentyn chi'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y gofal plant?**

- *Lleoliad / amser / lleoliad sesiynau gofal plant*
- *Argaeledd lleoedd*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau yn y lleoliad gofal plant (e.e. bwyd, man chwarae, teganau, ac ati)*
- *Darpariaeth Gymraeg*
- *Plant eraill*
- *Cyfle i riant gymryd rhan mewn gweithgareddau heb eu plentyn*

**g. Yn gyffredinol, pa mor fodlon / anfodlon oedd / a ydych chi gyda'r gofal plant?**

- *[Gofynnwch iddynt sgorio’r gofal plant o 1-10?]*
- *Archwilio rhesymau dros ateb*
- *A oes unrhyw ffordd y gallai'r gofal plant fod wedi eich helpu chi yn fwy?*
- *Sut ydych chi'n meddwl y gellid gwella'r gofal plant?*

**h. Ydych chi o'r farn bod y gwasanaeth gofal plant wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**

- *Os ydw, sut? Os na, pam?*

7. **Wrth feddwl am wasanaethau cefnogi rhianta (cyrsiau rhianta, grwpiau, cefnogaeth un-i-un)**

**a. Pam wnaethoch chi gyrchu’r gwasanaeth hwn? Os na wnaethoch chi gyrchu’r gwasanaethau hyn, pam ddim?**

**b. Sut oeddech chi'n teimlo am gymryd rhan yn y gwasanaeth?**

**c. Dywedwch wrthyf fwy am y gefnogaeth rhianta**

- *Y cwrs (au): Aethoch chi ar gwrs? - Pa fath o gwrs y gwnaethoch chi fynychu? Beth oedd hyn ei olygu? Oeddech chi'n adnabod eraill ar y cwrs? A ddaeth rhywun i’ch tŷ i'ch cefnogi â magu plant?*

- *Faint o wybodaeth a roddwyd i chi am y grŵp cwrs / cymorth cyn i chi ei fynychu? e.e. a gafoch chi'ch gwahodd i sesiwn blasu, bore coffi, neu a wnaeth yr hwylusydd ymweld â chi gartref neu gysylltu â chi i drafod y cwrs cyn y sesiwn gyntaf?*
- *Manylion: Tua, pryd wnaethoch chi fynd? Pa mor hir oedd y sesiwn/sesiynau? Aethoch chi i bob sesiwn? Os aethoch chi i bob sesiwn, beth wnaeth wneud i chi gadw i fynd? Os wnaethoch roi'r gorau i fynychu sesiynau, pam? A wnaeth y hwylusydd / staff Dechrau'n Deg gadw mewn cysylltiad â chi rhwng sesiynau?*
- *A oedd yn rhaid i chi dalu i gael mynediad at y gefnogaeth?*
- *Eu profiad: Beth oeddech chi'n ei feddwl ohono? Beth wnaethoch chi ei ddysgu? Ydych chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol ar ôl bod ar y cwrs / mynychu'r grŵp? A wnaethoch chi unrhyw ffrindiau newydd trwy fynychu'r cwrs / grŵp?*

**d. Beth ydych chi a / neu'ch plentyn chi yn ei hoffi ac yn ei hoffi am y cwrs rhianta / gefnogaeth rhianta yr ydych chi wedi'i dderbyn?**

- *Lleoliad / amser / lleoliad*
- *Argaeledd lleoedd*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau (e.e. bwyd, man chwarae, teganau, crèche ac ati)*
- *Staff (yn gyfeillgar, yn hawdd i gael gafael arnynt, yn wybodus)*
- *Rhieni eraill*
- *Plant eraill*
- *Gweithgareddau / cynnwys sesiynau / cyrsiau*
- *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, yn berthnasol? A oeddech chi'n gweithredu arno?)*
- *Darpariaeth Gymraeg*

**e. Yn gyffredinol, pa mor fodlon / anfodlon oedd / ydych chi â chefnogaeth rhianta?**

- *[Gofynnwch iddynt sgorio pob gwasanaeth o 1-10?]*
- *Archwilio rhesymau dros ateb*
- *A oes unrhyw ffordd y gallai'r gefnogaeth rhianta fod wedi eich helpu chi ymhellach?*
- *Ydych chi'n meddwl y gellid gwella'r gefnogaeth rhianta?*

**f. Ydych chi o'r farn bod y rhaglenni / cyrsiau rhianta wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**

- *Os ydynt, sut? Os na, pam?*

**8. Wrth feddwl am raglenni iaith a chwarae, cylchoedd chwarae, grwpiau rhiant a phlant bach (gellir eu cynnal mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol neu eglwysi)**

*Nodyn: Ymchwilwyr i ofyn beth sydd ar gael yn yr ardal leol ar gyfer y sawl sy'n cael eu cyfweld er mwyn medru annog rhestr o weithgareddau (ee grwpiau cerdd, grwpiau crefft, sesiynau campfa babanod, amser stori, amser rhigymau ac ati)*

**a. Pa weithgareddau ydych chi'n mynychu / wedi mynychu gyda'ch plentyn? (e.e. grwpiau cerdd, grwpiau crefft, sesiynau campfa babi ac ati)**
**b. Pam wnaethoch chi fynd i'r gweithgareddau hyn? Os nad ydych wedi cyrchu unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, pam?**
**c. Sut oeddech chi'n teimlo am gael mynediad at y gweithgareddau?**

- *Hapus: gan eu bod am gael y gefnogaeth*
- *A oedd yn rhaid ichi dalu?*

**d. Dywedwch wrthyf fwy am y gweithgareddau hyn - grŵp iaith, chwarae, cylch chwarae neu grwpiau i rieni a phlant bach**

- *Ai dim ond un sesiwn neu gyfres o sesiynau oedd?*
- *Aethoch chi ar gwrs? - Pa fath o gwrs y gwnaethoch chi fynychu?*
- *Manylion: Pryd wnaethoch chi fynd? Beth oedd yn ei olygu? Oeddech chi'n adnabod eraill ar y cwrs? Pa mor hir oedd y sesiynau? Aethoch chi i bob sesiwn?*
- *Eu profiad: Oeddech chi'n ei hoffi? Beth wnaethoch chi ei ddysgu? A wnaethoch chi unrhyw beth yn wahanol ar ôl mynychu'r sesiwn/sesiynau*

**e. A oedd unrhyw beth yr oeddech chi a'ch plentyn yn hoffi neu ddim yn ei hoffi am y sesiynau yr ydych wedi'u mynychu?**

- *Lleoliad / amser / lleoliad*
- *Argaeledd lleoedd*
- *Cyfleusterau a gwasanaethau*
- *Rhieni eraill*
- *Plant eraill*
- *Gweithgareddau / cynnwys sesiynau / cyrsiau*
- *Gwybodaeth (a oedd yn ddefnyddiol, yn berthnasol? A oeddech chi'n gweithredu arno?)*
- *Darpariaeth Gymraeg*

**f. Yn gyffredinol, pa mor fodlon / anfodlon oedd / a ydych chi gyda'r sesiynau?**

- *[Gofynnwch iddynt sgorio pob gwasanaeth o 1-10?]*
- *Archwilio rhesymau dros ateb*
- *A oes unrhyw ffordd y gallai'r sesiynau fod wedi eich helpu chi yn fwy?*
- *Ydych chi'n meddwl y gellid gwella'r sesiynau?*

**g. Sut ydych chi'n meddwl bod y gweithgareddau / sesiynau wedi gwneud gwahaniaeth i'ch teulu?**

9. **Ydych chi wedi clywed am yr ymgyrch 'Magu Plant: Rhowch amser iddi'? Os felly, a ydych chi wedi defnyddio'r adnoddau?**

   Ymchwilwyr i'w nodi: Mae gwefan a tudalen Facebook sy'n cynnig gwybodaeth, awgrymiadau a syniadau rhianta ymarferol ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â'ch plentyn. Mae'r awgrymiadau magu plant a gynigir yn cynnwys: brwsio dannedd, siopa, hyfforddi mynd i'r toiled, ymdopi â babi sy'n crio, amser gwely, prydau bwyd, amser bath, gwlychu gwely, cnoi, strancio a chadw'ch plentyn yn ddiogel. Gwybodaeth i helpu rhieni i ddeall datblygiad eu plentyn a manylion sefydliadau ar gyfer rhieni a allai fod angen help a chymorth pellach iddynt.

**Darpariaeth Gymraeg**

**10. Ydych chi neu'ch plentyn angen neu yn dymuno defnyddio gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd drwy gyfrwng y Gymraeg?**

- *Holi mewn perthynas â'u galw am bob gwasanaeth - ymweliadau iechyd, cylchoedd chwarae, gofal plant, cefnogaeth i rieni.*
  - *Ydw - esboniwch pa wasanaethau a mathau o ddarpariaeth*
  - *Na*

**11. A gynigiwyd darpariaeth cyfrwng Cymraeg i chi ar gyfer unrhyw wasanaethau cymorth i deuluoedd?**

- *Do - sut? Pa wasanaethau? Sut y cyflwynwyd y cynnig i chi? A gynigiwyd gan y staff o flaen llaw neu a gynigiwyd hwn pan ofynnoch amdano yn unig?*
- *Naddo - a fyddech wedi hoffi i chi gael cynnig hwn? A fyddai hyn o ddiddordeb i chi?*

**12. A yw gwasanaethau cefnogaeth i deuluoedd yn darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg digonol?**

- *A oedd unrhyw wasanaethau neu gefnogaeth nad oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?*
- *Pe bai mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg / dwyieithog ar gael, a fyddech chi wedi bod yn debygol o'u defnyddio? [Archwiliwch pa wasanaethau y mae galw amdanynt]*

**Effeithiau a chanlyniadau**

**13. Wrth feddwl am yr holl wasanaethau / gweithgareddau yr ydych wedi'u defnyddio, pa wahaniaethau ydych chi wedi sylwi arnynt yn eich plentyn sydd, yn eich barn chi, o ganlyniad i gymryd rhan yn y gwasanaethau / gweithgareddau hyn?**

Noder: Dylai'r cyfwelydd ofyn a yw'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gan y cyfwelai wedi arwain at: effaith gadarnhaol; dim gwahaniaeth; effaith negyddol; ddim yn berthnasol. Dylai'r cyfwelydd chwilio am enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

Nodyn: Dylai'r cyfwelydd ystyried a yw pob un o'r cwestiynau canlynol yn briodol yn ddatblygiadol ar gyfer oedran y plentyn.

**14. I ba raddau y mae'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gennych wedi gwneud gwahaniaeth i leferydd, iaith a chyfathrebu eich plentyn?**

- *Holi am resymau dros yr ymateb / enghreifftiau (e.e. plentyn yn fwy llafar ac yn siaradus)*
- *Pa wasanaeth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol yn y maes hwn?*

**15. I ba raddau y mae'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gennych wedi gwneud gwahaniaeth i ddarllen a chyfrif eich plentyn?**

- *Holi am resymau dros yr ymateb / enghreifftiau (e.e. mae'r plentyn yn gwybod yr wyddor, yn darllen mwy, wedi gwella eu cyfrif)*
- *Pa wasanaeth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol yn y maes hwn?*

**16. I ba raddau y mae'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gennych wedi gwneud gwahaniaeth i sgiliau ymarferol eich plentyn?**

- *Holi am resymau dros yr ymateb / am enghreifftiau (e.e. plentyn yn fwy annibynnol o ran gwisgo'u hunain, mynd i'r toiled, defnyddio cyllell a fforc)*
- *Pa wasanaeth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol yn y maes hwn?*

**17. I ba raddau y mae'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gennych wedi gwneud gwahaniaeth i ymddygiad ac agwedd eich plentyn?**

- *Holi am resymau dros yr ymateb / enghreifftiau (e.e. rhyngweithio'n hapusach, ymddwyn yn well, yn fwy hyderus, yn well gydag oedolion, plant eraill, aelodau'r teulu) plentyn yn gwybod yr wyddor, yn darllen mwy, yn gwella eu cyfrif)*
- *Pa wasanaeth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol yn y maes hwn?*

Gan feddwl am yr holl wasanaethau / gweithgareddau yr ydych wedi'u defnyddio, pa wahaniaethau yr ydych chi wedi sylwi ynoch chi a'ch teulu, ac i ba raddau y mae'r rhain o ganlyniad i gymryd rhan yn y gwasanaethau / gweithgareddau hyn? Noder: Dylai'r cyfwelydd ofyn a yw'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gan y cyfwelai wedi arwain at: effaith gadarnhaol; dim gwahaniaeth; effaith negyddol; ddim yn berthnasol. Dylai'r cyfwelydd holi am enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

**18. I ba raddau y mae'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gennych wedi gwneud gwahaniaeth i'ch dull o ymdrin â magu plant?**

- *Wedi newid fy arddull rianta (e.e. arferion, disgyblaeth),*
- *Wedi dysgu a gweithredu ar wybodaeth ddefnyddiol a sgiliau (e.e. hyfforddiant toiled, bwydo o'r fron, diddyfnu, maeth, diogelwch yn y tŷ), dysgu sut i ddelio ag ymddygiad heriol, sut i chwarae gyda phlant / plant*
- *Teimlo'n fwy hyderus?*
- *Holwch fesul gwasanaeth - Meddwl yn arbennig am y Cyrsiau Rhianta / Ymwelydd Iechyd / LAP / Gofal Plant - a ydych chi'n teimlo bod rhain wedi gwneud gwahaniaeth i'ch sgiliau magu plant?*

**19. I ba raddau y mae'r gwasanaethau / gweithgareddau a grybwyllwyd gennych wedi gwneud gwahaniaeth i'ch hapusrwydd personol a'ch lles?**
*Holi fesul gwasanaeth:*

- *Gwella hunan-barch (e.e. a ydych yn teimlo'n hapusach neu'n disgwyl teimlo'n hapusach am eu hunain)*
- *Teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi'n well*
- *Gwella dyheadau a hyder*
- *Teimlo'n well neu obeithio teimlo'n well yn fy hun*
- *Cwrdd â rhieni eraill / gwneud ffrindiau, gwell canfyddiad o'r ardal leol, gwell bywyd teuluol*
- *Wedi fy ngalluogi i gael hyfforddiant swydd / mynediad, gwasanaethau eraill (e.e. cwnsela) i fynd i'r afael â materion eraill, gwella iechyd a lles*

**20. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw wasanaethau cymorth i deuluoedd eraill sydd ar gael i chi, ond nad ydych wedi eu defnyddio? Os ydych, beth yw eich rhesymau dros beidio defnyddio'r gwasanaethau hyn?**
- *Cost?*
- *Ddim yn gyfleus? Lleoliad? Amseru?*

**21. A oes unrhyw gymorth sydd ar gael y bu'n rhaid i chi ei dalu amdano neu eich bod wedi ei chael hi'n anodd ei fforddio?**

- *Pa wahaniaeth ydych chi'n meddwl y byddai hyn wedi'i wneud i chi? I'ch plentyn?*

**22. A oes unrhyw fathau eraill o gefnogaeth / gweithgareddau yr hoffech eu derbyn / mynediad, ond, yn eich gwybodaeth chi, nad ydynt ar gael i chi?**

- Unrhyw wasanaethau / cyfleoedd eraill i gyfarfod â rhieni eraill
- Holi rhesymau dros ateb
- Pa wasanaeth(au)?
- Pa leoliad / amserau / lleoliadau?
- Faint o sesiynau / cyrsiau ychwanegol ac ati?
- Pa wahaniaeth ydych chi'n meddwl y byddai hyn wedi'i wneud i chi? I'ch plentyn?

**23. Ydych chi'n ymwybodol o raglen Dechrau'n Deg?**

- Os ydych, beth ydych chi'n ei wybod amdani?

**Casgliad**

**24. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am wasanaethau cefnogi teuluoedd heddiw?**
Diolch am gymryd rhan.